Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 27/2011

# Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010

# Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010


## Nick Miller a Kerry Lewis, Miller Research


Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai'r ymchwilwyr ac nid o anghenraid yn rhai Llywodraeth Cymru


Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Alison Rees

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801125

E-bost: Alison.Rees@wales.gsi.gov.uk



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011

ISBN



© Hawlfraint y Goron blwyddyn 2011

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ... **3**

**1. Cefndir a chyd-destun** ... **22**

1.1 Cyflwyniad ... 22

1.2 Polisi Sgiliau Sylfaenol ... 23

1.3 Pwrpas yr Arolwg hwn ... 26

**2. Methodoleg** ... **27**

2.1 Cyflwyniad ... 27

2.2 Cynllun yr Arolwg ... 27

2.3 Gwaith Maes ... 30

2.4 Prosesu Data a Dadansoddiad ... 31

**3. Canlyniadau'r Arolwg Cyfrwng Saesneg** ... **33**

3.1 Cyflwyniad ... 33

3.2 Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd a Nodweddion Demograffig ... 34

3.3 Priodoleddau'r cartref ... 47

3.4 Addysg ... 59

3.5 Statws Cyflogaeth ... 68

3.6 Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd mewn Bywyd Bob Dydd ... 87

3.7 Hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd ... 98

**4. Canlyniadau'r Arolwg Cyfrwng Cymraeg** ... **108**

4.1 Cyflwyniad ... 108

4.2 Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd a Phriodoleddau Demograffig ymysg Siaradwyr Cymraeg ... 110

4.3 Addysg ... 126

4.4 Statws Cyflogaeth ... 134

4.5 Sgiliau llythrennedd Cymraeg mewn bywyd bob dydd ... 144

4.6 Hyfforddiant Llythrennedd Cymraeg ... 153

**5. Crynodeb** ... **159**

5.1 Trosolwg ... 159

5.2 Canlyniadau'r Arolwg Cyfrwng Saesneg ... 159

5.3 Canlyniadau Arolwg Cyfrwng Cymraeg ... 162

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Yn 2009, comisiynodd Llywodraeth Cymru gonsortiwm ymchwil oedd yn cynnwys Miller Research a TNS-BMRB i wneud Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg, gan drafod asesiadau sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â sgiliau rhifedd oedolion o oedran gwaith yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad cyd-destunol byr o'r agenda sgiliau yng Nghymru ac yn cael ei dilyn gan adran ar y dull o gynllunio'r arolwg, gwaith maes a dadansoddiad. Mae canlyniadau'r arolygon a'r asesiadau wedyn yn cael eu cyflwyno a'u dadansoddi yn nhermau nodweddion demograffig, addysgol a chyflogaeth, defnyddio sgiliau mewn bywyd bob dydd a phrofiadau o hyfforddiant sgiliau ac addysg yr ymatebwyr.

## Cefndir a chyd-destun

Mae llythrennedd a rhifedd yn sgiliau hanfodol sydd eu hangen i weithredu a chynyddu'n broffesiynol ac yn gymdeithasol. Yn 1999 canfu Adroddiad Moser y canlyniadau niferus y gall sgiliau sylfaenol gwael eu cael ar enillion personol ac enillion teuluoedd, ar gymunedau a chymdeithas, ac ar yr economi[1]. Arweiniodd hyn at ddatblygu set gydlynol o safonau ar gyfer llythrennedd a rhifedd[2]. Rhestrodd y safonau hyn yn fanwl pa sgiliau roedd eu hangen ar gyfer pump lefel diffiniedig o allu: Lefel Mynediad 1, Lefel Mynediad 2, Lefel Mynediad 3, Lefel 1 a Lefel 2. Cyfunionwyd Lefel 1 a Lefel 2 â'r rhai roedd eu hangen am gymhwyster Lefel Un a Lefel Dau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol[3]. Lefel 1 felly a ddewiswyd i fod y safon ofynnol sydd ei angen er mwyn ennill cymhwyster ffurfiol.

Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru[4] wedi ymroi i godi safonau llythrennedd a rhifedd ymhlith poblogaeth Cymru, gan gydnabod bod diffygion llythrennedd a rhifedd yn effeithio ar unigolion yn ogystal ag ar gymdeithas yn gyffredinol[5].

---

[1] Adroddiad Moser *A Fresh Start - improving literacy and numeracy* DfEE 1999.
[2] Adroddiad Moser *A Fresh Start - improving literacy and numeracy* DfEE 1999.
[3] Mae Lefel 1 a Lefel 2 nawr yn cael eu alinio i Lefel 1 a Lefel 2 (yn ôl eu trefn) o Fframwaith Cymwysterau a Chwricwlwm Cymru
[4] Yn 2011, daeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael ei nabod fel Llywodraeth Cymru
[5] Trwy fabwysiadu dull pob oedran, yn benodol drwy'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol gyntaf a gyhoeddwyd yn 2001, a'i olynydd " Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri", o 2005 i 2010

Cafodd graddfa'r her ei amlygu gan arolwg 2004 o sgiliau llythrennedd a rhifedd Saesneg a ganfu fod 25 y cant o'r bobl islaw Lefel 1 yn eu llythrennedd ac nad oedd gan 53 y cant sgiliau rhifedd Lefel 1.

Gosododd Strategaethau Sgiliau Sylfaenol 2001[6] a 2005[7] raglenni uchelgeisiol i fynd i'r afael â diffygion sgiliau yng Nghymru, gan fabwysiadu agwedd pob oedran a gyda chyllid blynyddol o hyd at £13m. Roedd y strategaeth gyntaf a'r ail yn anelu at gyrraedd safle ble roedd 80 y cant o oedolion o oedran gweithio ag o leiaf Lefel 1 yn eu llythrennedd a bod gan 55 y cant o leiaf Lefel 1 yn eu rhifedd erbyn 2010. Dangosodd yr ail strategaeth: "Cyn sefydlu'r Strategaeth, ychydig o gymorth oedd ar gael i ddysgu sgiliau llythrennedd Cymraeg i oedolion … Mae prinder deunyddiau o ansawdd da i ategu'r gwaith o ddysgu sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig ar gyfer y sector ôl-16." Cydnabyddir felly fod cymorth Sgiliau Sylfaenol wedi canolbwyntio'n helaeth ar lythrennedd a rhifedd yn yr iaith Saesneg, gyda llai o sylw'n cael ei roi i'r anghenion hynny yn y Gymraeg.

Ers arolwg 2004, cafodd yr agenda'r sgiliau sylfaenol ei hamlygu'n weddol gyson fel un o'r sialensiau allweddol sy'n wynebu Cymru, yn nhermau addysg a dysgu gydol oes, a sut mae'r mater yn berthnasol i bryderon polisi ehangach, fel datblygiad economaidd, cynhwysiad cymdeithasol a gostwng tlodi. Er enghraifft, canfu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru 2009 gyswllt clir rhwng sgiliau sylfaenol a chydlyniad a'r angen i chwalu'r cylch o anfantais sy'n pontio'r cenedlaethau o bobl sydd â llythrennedd a rhifedd gwael. Yn fwy diweddar mae'r Strategaeth Tlodi Plant[8] wedi pwysleisio'r angen i fuddsoddi yn y rhaglen Adduned Cyflogwr, fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru ac o ddilyn agenda cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn cynnwys ymrwymiad newydd i gyflwyno fframwaith llythrennedd a rhifedd statudol i ysgolion.

Bu cynnydd trawiadol yn y pwyslais ar sgiliau sylfaenol yng nghyd-destun gwaith, yn benodol yn y cyhoeddiad "*Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*" yng Ngorffennaf 2008 ac

[6] http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/403829/basicskills-e.pdf?lang=en

[7] http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/circularsindex/2007/wordstalknumberscount/nafwc5295-e.pdf?lang=en

[8] Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Chwefror 2011

yn yr adroddiad cyntaf[9] Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB)[10]. Roedd y ddau yn cefnogi ymroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yr adeg honno i ddarparu cyllid a chefnogaeth i Sgiliau Sylfaenol Oedolion, gan gynnwys hyrwyddo Adduned Cyflogwr.[11] Yng Ngorffennaf 2010, tynnwyd at ei gilydd y gydberthynas rhwng lefelau llythrennedd a rhifedd ymhlith y boblogaeth oedd yn gweithio a datblygiad economaidd mewn rhaglen newydd o adfywiad economaidd[12]. Roedd hon yn gosod ymrwymiad i sicrhau fod ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cymhwyso pobl ifanc â'r llythrennedd a'r rhifedd sylfaenol y mae gofyn amdanynt yn y gweithle. Roedd y cynllun hefyd yn blaenoriaethu Sgiliau Sylfaenol Adduned Cyflogwr fel ffordd o "helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â chostau a gwastraff potensial oedd yn codi o lefelau isel llythrennedd a rhifedd yn y gweithlu.[13]"

Fodd bynnag, er gwaethaf uchelgais Cymru'n Un*[14]* i hyrwyddo Cymru fel cenedl "ddwyieithog ac aml ddiwylliannol"[15], bu llai o bwyslais strategol ar ddatblygu sgiliau sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd llythrennedd Cymraeg ei ddyrchafu fel thema yn "Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri" , ac ym Mis Ebrill 2010 cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg[16] oedd yn cydnabod yr angen i gynyddu dealltwriaeth a chefnogi mynd i'r afael â diffygion sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag nid oedd sgiliau sylfaenol yn cael blaenoriaeth digon uchel yn y Strategaeth gyda dim ond chwe chyfeiriad at sgiliau sylfaenol yn y ddogfen [17].

## Methodoleg yr Arolwg

[9] Cymru: Gwlad sy'n Gweithio. Adroddiad Blynyddol Cyntaf Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, Ebrill 2009

[10] Corff Ymgynghorol Gweinidogaethol a sefydlwyd yn 2008 ac sydd, ymhlith pethau eraill, wedi'i siarsio i fonitro gweithredu "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru"

[11] Datblygwyd Adduned Cyflogwr yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Gosodwyd y cynllun yn ei le i hybu'r cyflogwyr i helpu eu gweithwyr i wella eu sgiliau, i gefnogi cyflogwyr tra roeddent yn datblygu Cynlluniau Gweithredu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a/neu rhifedd eu gweithwyr, ac i ddarparu cysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant lleol.

[12] Adnewyddu'r Economi; cyfeiriad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2010.

[13] Adnewyddu'r Economi; cyfeiriad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2010, tud. 24.

[14] Roedd Cymru'n Un yn agenda blaengar a gynhyrchwyd ym Mis Mehefin 2007, oedd yn canolbwyntio ar wella ansawdd byw a sicrhau lles yn gyffredinol. Roedd yn gytundeb clymblaid ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru a gytunwyd ym Mis Mehefin 2007 gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru ac arweinydd Llafur Cymru, ac Ieuan Wyn Jones, arweinydd Plaid Cymru.

[15] Cymru'n Un, tud. 5.

[16] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2010

[17] Roedd y gweithredoedd arfaethedig yn cynnwys arolwg o'r galw am ddarparu sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg; parhau i ymestyn darpariaeth sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ddysgu oedolion; cefnogaeth i sgiliau sylfaenol yn y gweithle drwy gyfrwng y Gymraeg drwy Adduned Cyflogwr; a chynyddu'r gallu i gyflenwi dysgu Sgiliau Sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru yn cynnwys dwy gydran ar wahân ond sy'n gysylltiedig:

- Arolwg i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd sampl cynrychiadol cenedlaethol o 2134 o oedolion(16 oed i 65 oed) yng Nghymru drwy gyfrwng y Saesneg, a gwnaeth 2009 ohonynt gwblhau'r asesiad llythrennedd a 2012 gwblhau'r asesiad rhifedd; ac
- Arolwg i asesu sgiliau llythrennedd[18] 1001 o oedolion sy'n siarad Cymraeg[19] (16 - 65 oed) yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg

Cyfeirir at y ddau arolwg fel yr 'arolwg Saesneg' a'r 'arolwg Cymraeg' drwy'r adroddiad hwn.

Yn y ddau arolwg roedd dwy elfen ar wahân i'w gwneud gan yr ymatebydd:

- Holiadur cyd-destunol, yn cynnwys cwestiynau agweddol a demograffig oedd yn cael eu holi gan y cyfwelydd i'r ymatebydd; a
- Naill ai un neu ddau asesiadau hunan gwblhau, oedd yn cael eu llenwi gan yr ymatebydd dan arolygiaeth y cyfwelydd, i asesu lefelau sgiliau sylfaenol.

Roedd yr arolygon a'r asesiadau unigol wedi'u cynllunio er mwyn eu cymharu ag ymchwil blaenorol:

- Yn 2004 gwnaed arolwg o sgiliau llythrennedd a rhifedd yn Saesneg ymhlith y boblogaeth oedran gwaith yng Nghymru[20]. Mabwysiadodd yr arolwg ddull cyffelyb i'r dull a ddefnyddiwyd mewn arolwg o lythrennedd a rhifedd yn Lloegr yn 2002/03[21].
- Arolwg ar wahân oedd yn asesu hyfedredd darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg gan yr hyn oedd yr adeg honno yn Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (BSA) Cymru[22].

[18] Rhoddwyd ystyriaeth i gynnal asesiad rhifedd drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg ond penderfynwyd na fyddai hyn yn ymarferol nac yn angenrheidiol am nifer o resymau, a drafodir yn yr Adroddiad Technegol.
[19] Dosbarthwyd yr ymatebwyr oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn "weddol dda" neu'n "rhugl" fel rhai oedd yn siarad Cymraeg.
[20] Gwnaed arolwg 2004 gan y Biwro Ymchwil Farchnata Prydeinig ar ran Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, a llwyddwyd i gael 2,554 o gyfweliadau cyflawn. Am fanylion pellach edrychwch ar: Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru, 2004.
[21] The Skills for Life Survey: A national needs and impact survey of literacy, numeracy and ICT skills, Adran Addysg a Sgiliau, 2003.
[22] Asesu Hyfedredd Darllen ac Ysgrifennu Cymraeg, Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru, 2004.

Roedd angen i'r ymatebwyr oedd yn ateb yr arolwg Saesneg yn 2010 gwblhau dau asesiad ar gyfrifiadur; un ar lythrennedd ac un ar rifedd drwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Cwblhaodd ymatebwyr yr arolwg Cymraeg un asesiad ar bapur drwy gyfrwng y Gymraeg, wedi'u cynorthwyo drwy wrando ar ffeiliau sain yn Gymraeg, wedi'u recordio ymlaen llaw, a oedd yn cynnig cyfarwyddiadau llafar.
Er fod yr asesiadau a ddefnyddiwyd wedi eu cynllunio er mwyn eu cymharu â'r asesiadau a ddefnyddiwyd yn arolygon 2004[23], nid oedd yr asesiadau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn debyg i'w gilydd ac felly ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng canlyniadau llythrennedd drwy gyfrwng y Saesneg a chanlyniadau llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg[24].

Roedd y mwyafrif o'r holiadur cyd-destunol yr un fath i'r arolwg Saesneg a'r arolwg Cymraeg[25]; fodd bynnag gwnaed y ddau arolwg gan ddefnyddio gwahanol fethodoleg samplo a gwahanol asesiadau. Cynhaliwyd yr arolwg cyfrwng Saesneg gan ddefnyddio methodoleg tebygolrwydd ar hap[26] a'r arolwg cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio methodoleg tebygolrwydd hybrid/ sampl cwota[27]. Cyfrifwyd fod yr ymateb cyffredinol i'r arolwg cyfrwng Saesneg yn 60 y cant[28], tra'n nodi fod hyn yn broblem i'r arolwg cyfrwng Cymraeg oherwydd y fethodoleg samplo a ddefnyddiwyd.

Cafodd gwaith maes i'r ddau arolwg ei wneud yn y cartref drwy gyfweld personol wedi'i gynorthwyo gan gyfrifiadur (CAPI). Defnyddiwyd yr un cwestiwn sgrinio ag a ddefnyddiwyd yn 2004 i sicrhau'r gallu i siarad Cymraeg (ac felly cymhwyster i

---

[23] Penderfynwyd peidio ag asesu sgiliau rhifedd drwy gyfrwng y Gymraeg am y teimlwyd y byddai'r asesiad yn cael ei effeithio'n gryf gan sgiliau llythrennedd, a fyddai'n ystumio'r canlyniadau rhifedd.
[24] Roedd y methodoleg samplo gwahanol rhwng y ddau arolwg ei hun yn golygu na fyddai'n bosibl gwneud y gymhariaeth hon, ond hefyd teimlwyd fod manylion technegol iaith yn Gymraeg a Saesneg, a'r ffordd mae'r ddwy iaith wedi'u strwythuro a'u defnyddio yn ddigon gwahanol i rwystro cymhariaeth ystyrlon rhwng y ddau arolwg.
[25] Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y ddau arolwg. Er enghraifft, gofynnwyd mwy o gwestiynau i'r ymatebwyr oedd yn cwblhau'r arolwg drwy gyfrwng y Gymraeg am eu gallu yn yr iaith Gymraeg a llai o gwestiynau am eu gallu yn yr iaith Saesneg o ystyried fod eu sgiliau llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hasesu.
[26] Roedd hyn yn golygu'n anochel y byddai cyfartaledd o'r sampl yn siaradwyr Cymraeg; fodd bynnag nid oedd hyn yn penderfynu eu bod yn anghymwys.
[27] Gwnaethpwyd yr arolwg drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio dulliau samplo cwota, yn gyntaf am mai dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn 2004, ac yn ail am nad oedd rhestr gyflawn o siaradwyr Cymraeg ar gael ac felly roedd angen sgrinio'n eang, gan wneud y dull sampl hwn y dull mwyaf cost effeithiol a'r mwyaf effeithiol.
[28] Gan gymryd i ystyriaeth fod cartrefi yn cael eu sgrinio ac yn cymryd yn ganiataol y byddai cyfran o'r cartrefi na chafodd eu sgrinio wedi bod yn anghymwys petaent wedi cael eu hystyried.

gymryd rhan yn yr arolwg) yn 2010. Roedd pob un o'r ymatebwyr oedd yn mynnu eu bod yn gallu siarad Cymraeg "yn rhugl" neu'n "weddol dda" yn gymwys i'r arolwg.

Mesurwyd lefelau terfynol llythrennedd a rhifedd Saesneg a llythrennedd Cymraeg yn wahanol. Ar gyfer yr asesiad llythrennedd Saesneg, cysylltwyd y 'lefel' terfynol â pha mor anodd oedd y cwestiynau ar y cam terfynol[29]. Seiliwyd lefel y rhifedd, fodd bynnag, ar sgôr cyfanswm a bwysolwyd o bob eitem unigol[30].

Marciwyd y sgriptiau cyfrwng Cymraeg â llaw gan arholwyr annibynnol gyda phrofiad o farcio sgriptiau arholiad cyfrwng Cymraeg ar ran Cyd Bwyllgor Addysg Cymru. Defnyddiodd yr arholwyr yr un system sgorio â'r un a ddefnyddiwyd yn 2004; diweddarwyd y canllawiau marcio gwreiddiol ychydig ar gyfer arolwg 2010 a chynhwyswyd peth eglurhad a rhai cyfarwyddiadau am gofnodi data.

**Canlyniadau'r arolwg cyfrwng Saesneg**

*Trosolwg ar Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd*

Dengys canfyddiadau'r arolwg bod sgiliau llythrennedd Saesneg wedi gwella'n arwyddocaol ers 2004. Yn 2010 roedd 88 y cant o'r rhai yn yr arolwg wedi'u hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch. Roedd hyn yn rhagori'r targed llythrennedd o 80 y cant a osodwyd gan y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae hyn fwy neu lai yn gyfwerth â 216,000 o oedolion oedran gwaith ledled Cymru sydd â lefelau llythrennedd yn is na Lefel 1 yn 2010 o'i gymharu ag amcangyfrif o 450,000 yn arolwg 2004. Newid pellach mewn llythrennedd oedd bod bron i 60 y cant o'r ymatebwyr wedi'u hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch yn 2010, a oedd yn gynnydd sylweddol ar y 38 y cant a recordiwyd yn 2004.

Cynyddodd sgiliau rhifedd hefyd yn ystod y cyfnod o 2004 ond o lawer iawn llai. Yn arolwg 2010 cafodd 50 y cant eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, tri phwynt canrannol yn uwch nag yn 2004, ond tua 5 pwynt canrannol o dan darged y Strategaeth. Lledodd y bwlch rhwng lefelau asesu llythrennedd a rhifedd, fel bod pedair gwaith cymaint o bobl wedi'u dosbarthu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd nag oedd ar

[29] H.y. pe bai'r ymatebydd yn mynd i'r afael â chwestiynau cymharol anodd ar y diwedd, byddai hi/ef yn fwy tebygol o gael ei ddosbarthu ar lefel uwch na rhywun oedd yn ateb cwestiynau cymharol hawdd ar y diwedd.

[30] E.e. roedd ateb cwestiwn Lefel 2 yn llwyddiannus yn sgorio 5 pwynt, tra roedd ateb cwestiwn Mynediad Lefel 1 yn llwyddiannus yn sgorio 1 pwynt.

gyfer llythrennedd  yn 2010; amcangyfrifwyd fod tua 918,000 o oedolion oedran gweithio ar draws Cymru â sgiliau rhifedd islaw Lefel 1.

**Lefelau llythrennedd a rhifedd yn gyffredinol**[31]
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Lefel Llythrennedd | | Lefel Rhifedd | |
|---|---|---|---|---|
| | % 2010 | % 2004 | % 2010 | % 2004 |
| Lefel Mynediad | 12 | 25 | 51 | 53 |
| Lefel 1 (L1) | 29 | 37 | 29 | 25 |
| Lefel 2 (L2) neu'n uwch | 59 | 38 | 21 | 22 |
| Sail a bwysolwyd | 2115 | 2555 | 2119 | 2555 |
| Sail na phwysolwyd | 2116 | 2555 | 2117 | 2555 |

Sail: Arolwg Saesneg: Pawb a gwblhaodd asesiadau llythrennedd a rhifedd

*Llythrennedd, Rhifedd a Demograffeg*

Roedd canlyniadau llythrennedd yn debyg ar gyfer dynion a merched, ac roedd cynnydd tebyg dros ganlyniadau'r arolwg blaenorol yn y naill a'r llall. Fodd bynnag roedd bwlch sylweddol rhwng y ddau ryw yn yr asesiadau rhifedd, gyda 60 y cant o ferched wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad, tra roedd y ffigwr ar gyfer dynion yn 41 y cant. Ym mhen uchaf y raddfa, aseswyd 29 y cant ar lefel 2 neu'n uwch, yn erbyn 13 y cant o ferched. Roedd y gwahaniaeth hwn yn bodoli hefyd yn yr arolwg blaenorol ac yn yr asesiadau yn Lloegr yn 2003[32].

Yn nhermau canlyniadau asesiad llythrennedd wedi'u dadansoddi yn ôl oedran, roedd gwelliannau ym mhob cylch oedran rhwng 2004 a 2010, ac yn arbennig categori oedran 35-44. Yn yr asesiadau rhifedd, gwelwyd gwelliannau ym mhob grŵp dros 35 oed. Fel yn 2004, roedd tuedd i naill ai'r ieuengaf (16-19 blwydd oed)[33] a'r rhai hŷn (55-65 blwydd oed) gael eu hasesu ar lefel is na'r rhai mewn grwpiau oedran eraill, ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Dengys dadansoddiad o'r canlyniadau  rhanbarthol fod yr  ymatebwyr oedd yn byw yng Nghanolbarth Cymru ar adeg yr arolwg yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel

[31] Dylid nodi nad yw'r canrannau mewn rhai colofnau'n gwneud cyfanswm o 100%. Canlyniad talgrynnu yw hyn a gall ddigwydd yn holl dablau'r adroddiad hwn, gan gynnwys y sylfeini sydd wedi'i pwysoli. Er enghraifft daw 49.5 a 50.5 i 101% os cânt eu talgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf.
[32] Yr Arolwg Sgiliau Bywyd: Arolwg  o anghenion a chanlyniad cenedlaethol sgiliau llythrennedd, rhifedd ac ICT. DfES, 2003
[33] Dewiswyd cylchoedd oedran i ganiatáu cymhariaeth ag arolygon blaenorol.

1 neu'n uwch (92 y cant o ymatebwyr) nag un cyfanswm Cymru (88 y cant) neu unrhyw ranbarth arall yng Nghymru. Roedd y gwahaniaeth rhanbarthol hefyd yn debyg o ran rhifedd, gyda 61 y cant o'r ymatebwyr oedd yn byw yng Nghanolbarth Cymru yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, yn erbyn cyfanswm Cymru o 50 y cant. Edrychodd yr arolwg hefyd ar lythrennedd a rhifedd yn ôl ble cafodd yr ymatebwyr eu geni ac roedd y canlyniadau'n dangos fod y rhai a aned mewn lleoedd eraill yn y DU yn fwy tebyg o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd (94 y cant) na'r rhai a aned yng Nghymru (87 y cant). Roedd y sefyllfa'n debyg o ran rhifedd, gyda 61 y cant o'r rhai a aned mewn mannau eraill yn y DU yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch o'i gymharu â 46 y cant o'r rhai a aned yng Nghymru.

Roedd llythrennedd Saesneg yn well ymhlith y rhai a ddysgodd Saesneg fel eu hiaith gyntaf (94 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch) na'r rhai a ddysgodd Gymraeg gyntaf (85 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch ). Fodd bynnag, roedd mwy o wahaniaeth yn nhermau sgiliau rhifedd. Roedd gan 60 y cant o'r rhai a ddysgodd Saesneg gyntaf sgiliau rhifyddeg ar Lefel 1 neu'n uwch , tra roedd 44 y cant o'r rhai a ddysgodd Gymraeg gyntaf â sgiliau rhifedd ar y lefel honno. Fodd bynnag, roedd lefel llythrennedd Saesneg ymhlith yr ymatebwyr oedd â'r Gymraeg fel y brif iaith a ddefnyddid gartref yn uwch yn 2010 nag yn 2004 (84 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch yn 2010 o'i gymharu â 73 y cant ar y lefel hynny yn 2004).

*Nodweddion cartrefi, budd-daliadau a chredyd treth*

Dangosodd yr arolwg a chanlyniadau'r asesiad fod cysylltiadau rhwng lefelau llythrennedd a rhifedd a pherchnogaeth cartref, gyda'r rhai oedd yn berchen eu cartref eu hunain y mwyaf tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd (93 y cant, yn erbyn cyfanswm o 88 y cant),ac yn llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad (8 y cant yn erbyn y cyfanswm cyffredinol o 12 y cant). O fynegi'r data mewn ffordd arall, tra bod 64 y cant o ymatebwyr yn gyffredinol yn berchnogion eu tai eu hunain, syrthiodd y gyfran hon i 42 y cant o'r rhai gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad i lythrennedd, ac roedd 45 y cant o'r rhai gyda llythrennedd Lefel Mynediad yn byw mewn eiddo wedi'i rentu yn erbyn 26 y cant o ymatebwyr yn gyffredinol. Ymhellach, o'r rhai sy'n byw mewn eiddo wedi'i rentu, roedd y rhai gyda lefelau sgiliau llythrennedd a rhifedd is yn fwy tebygol o fod yn byw

mewn tŷ o stoc dai'r awdurdod lleol neu gymdeithas dai, tra roedd y rhai gafodd eu hasesu fel Lefel1 neu'n uwch yn fwy tebyg o fod yn rhentu gan berchennog preifat. Roedd yr ymatebwyr oedd yn rhannu eu perchnogaeth neu oedd yn berchen ar eu heiddo eu hunain yn debycach o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (57 y cant a 56 y cant yn y drefn honno) tra roedd dwy ran o dair o'r rhai mewn eiddo wedi'i rentu wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd, yn erbyn ffigwr o 50 y cant i'r holl ymatebwyr. Yn ychwanegol, roedd y rhai oedd yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd neu rifedd yn fwy tebygol o fod yn ceisio budd-dal tai neu gymorth treth y cyngor, budd-dal afiechyd/anabledd neu fudd-dal diweithdra na'r sampl yn gyffredinol.

*Iechyd*

Mae cyfeiriadau helaeth yn y gwaith ymchwil sy'n bodoli eisoes at y cysylltiadau rhwng lefelau isel o lythrennedd a rhifedd ac iechyd gwael ac anabledd ymhlith unigolion. Nodwyd, er enghraifft gan werthusiad Skills for Life yn Lloegr[34] "*fod, er enghraifft, cydgysylltiad clir rhwng sgiliau sylfaenol gwael ac anableddau dysgu, a rhwng sgiliau sylfaenol gwael ac iechyd gwael."* Sylwodd Adroddiad Mosser[35] hefyd fod cyswllt rhwng salwch corfforol a meddyliol â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd. Yn arolwg 2010, cafodd 10 y cant o'r rhai oedd yn ystyried eu hunain mewn iechyd da eu hasesu ar Lefel Mynediad i lythrennedd, tra bod ffigwr y rhai oedd wedi asesu'u hunain fel rhai oedd mewn iechyd gwael yn llawer uwch, ar 28 y cant. Roedd y sefyllfa'n debyg ar gyfer asesiadau rhifedd, ble roedd 48 y cant o'r rhai oedd yn ystyried eu hunain mewn iechyd da yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad tra roedd 61 y cant o'r rhai oedd wedi eu hunanasesu mewn iechyd gwael ar y lefel yna.

*Addysg*

Dengys canlyniadau'r arolwg fod perthynas rhwng lefelau cymwysterau'r ymatebwyr a'u sgoriau asesiad llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft , cafodd 98 y cant oedd â'u cymhwyster uchaf ar lefel gradd eu hasesu ar Lefel 2 ac uwch ar gyfer llythrennedd, tra bod cyfartaledd y rhai oedd wedi'u cymhwyso i Lefel 1[36] yn 82 y cant. Roedd cyfartaledd yr asesiadau llythrennedd ar Lefel 2 neu'n uwch wedi gwella ar gyfer pob

[34] Evaluation of the Impact of Skills for Life Learning. Ymchwil Cymdeithasol NIESR / BMRB, 2009.
[35] *Op Cit*
[36] Ble mae Lefel 1 yn TGAU neu'n gyfwerth. Mae Lefel 2 yn TGAU, graddau A*-C neu'n gyfwerth ac mae Lefel 3 yn TAG, Lefel A neu'n cyfwerth.

lefel o gymwysterau rhwng 2004 a 2010 ac roedd gostyngiad sylweddol yn y cyfartaledd o asesiadau ar Lefel Mynediad neu'n is ar gyfer llythrennedd ymhlith y rhai heb gymwysterau, o 55 y cant yn 2004 i 33 y cant yn 2010.
Yn nhermau asesiadau rhifedd, ychydig o welliant oedd rhwng 2004 a 2010 ar draws pob lefel o gymhwyster ac eithrio lefel AB heb radd, ble roedd y canlyniadau yn dangos codiad yn y ganran y ymatebwyr ar Lefel 1 o 60 y cant i 65 y cant. Roedd, fodd bynnag, wahaniaeth rhwng canlyniadau llythrennedd a rhifedd, gan fod 73 y cant o'r rhai â gradd A* i C[37] mewn Iaith Saesneg yn eu TGAU wedi'u hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch mewn llythrennedd tra mai dim ond traean o'r rhai ag A* i C mewn mathemateg lwyddodd i gael Lefel 2 yn eu hasesiad rhifedd.

Mae tystiolaeth hefyd fod record eu rhieni ym myd addysg yn dylanwadu ar lefelau llythrennedd a rhifedd eu plant. Er enghraifft, ble arhosodd un neu fwy o'r rhieni mewn addysg yn hŷn nag un ar bymtheg oed, doedd unigolyn ddim ond yn hanner mor debygol o gael ei asesu dan Lefel 1 am lythrennedd (6 y cant ar Lefel Mynediad o'i gymharu ag 13 y cant i'r rhai ble roedd eu rhieni yn adael yr ysgol yn 16 oed).

*Cyflogaeth ac incwm*

Cydnabyddir yn gyffredinol fod cyswllt rhwng lefelau sgiliau isel a chanlyniadau cyflogaeth gwael ac, yn ei dro, ag ysbryd cystadleuol y genedl[38]. Dangosodd yr arolwg a chanlyniadau'r asesiad fod y rhai oedd mewn gwaith yn dal i fod hanner mor debygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd â'r rhai oedd yn ddi-waith (18 y cant i'r grŵp di-waith mewn gwrthgyferbyniad â 9 y cant i'r rhai oedd mewn gwaith). Fodd bynnag, hanerodd y gyfran o asesiadau llythrennedd ar Lefel Mynediad i ymatebwyr di-waith rhwng 2004 a 2010 o 36 y cant yn 2004 i 18 y cant yn 2010. Ni newidiodd lefelau rhifedd i'r un graddau, ac aseswyd 62 y cant o ymatebwyr di-waith ar Lefel Mynediad yn 2010, mewn gwrthgyferbyniad â 67 y cant yn 2004.

I'r ymatebwyr oedd mewn gwaith, nid oedd gwahaniaeth rhwng cyfrannau y gweithwyr amser llawn a'r rhai rhan-amser a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd (91 y cant ym mhob achos) er fod y rhai oedd yn gweithio'n llawn amser

---

[37] Neu gyfwerth, er enghraifft Lefel O.

[38] Er enghraifft, dengys Moser (2009) fod sgiliau sylfaenol gwael yn "un o'r rhesymau am y cynhyrchiant cymharol isel yn ein economi."

yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch nag ymatebwyr oedd yn gweithio rhan-amser (65 y cant o weithwyr llawn amser o'i gymharu â 60 y cant o weithwyr rhan-amser).

Mae cysylltiadau bras rhwng categorïau[39] Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) a sgiliau llythrennedd a rhifedd. Aseswyd 96 y cant neu fwy o'r rhai oedd yn gweithio mewn swyddogaethau rheoli, proffesiynol neu broffesiynol ategol ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd, ac roedd hyn yn wir hefyd am alwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol. Fodd bynnag, roedd rhai galwedigaethau yn amlwg yn dangos sgoriau isel ar gyfer llythrennedd (er enghraifft crefftwyr medrus), a rhifedd (gwasanaethau personol) .

Roedd y berthynas rhwng Dosbarthiad Economaidd Gymdeithasol (SEC) yr Ystadegau Gwladol (NS) [40], sydd wedi'i osod ar sylfaen mwy economaidd gymdeithasol, a llythrennedd a rhifedd yn fwy cyson yn nhermau hierarchaeth galwedigaethau, fodd bynnag, fel y gwelir yn y tabl isod.

**Llythrennedd fesul dosbarthiad economaidd gymdeithasol (NS-SEC)**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| Categori SEC | Asesiad Llythrennedd | | |
|---|---|---|---|
| | % Lefel Mynediad | % Lefel 1 | % Lefel 2 |
| Uwch-reolwyr a gweithwyr proffesiynol (210/191)[41] | 0 | 12 | 87 |
| Is-reolwyr a gweithwyr proffesiynol (520/506) | 4 | 25 | 71 |
| Canolradd (190/187) | 6 | 26 | 67 |
| Cyflogwyr bach a gweithwyr cyfrif eu hunain (171/168) | 12 | 33 | 55 |
| Is oruchwylwyr a gweithwyr technegol (230/205) | 14 | 41 | 45 |
| Galwedigaethau lled reolwaith (340/366) | 18 | 35 | 47 |
| Galwedigaethau rheolwaith (240/253) | 31 | 34 | 35 |
| Erioed wedi gweithio/ di-waith tymor hir (71/86) | 26 | 41 | 33 |
| Myfyriwr llawn amser (115/122) | 9 | 25 | 67 |
| Di-ddosbarth (28/32) | [14][42] | [23] | [63] |
| Sail a bwysolwyd | 252 | 623 | 1240 |

[39] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/index.html
[40] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/soc2010-volume-3-ns-sec--rebased-on-soc2010--user-manual/index.html
[41] Dynoda'r gwerthoedd mewn cromfachau seiliau a bwysolwyd ac na phwysolwyd yn ôl eu trefn.
[42] Mae cromfachau sgwâr yn dynodi sampl o lai na 50.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sail na phwysolwyd | 286 | 629 | 1201 |

Sail: Yr holl ymatebwyr a gwblhaodd asesiad llythrennedd

Roedd incwm y teulu yn perthyn yn agos i lefelau asesiadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn arolwg 2010. Roedd ymatebwyr oedd wedi’u hasesu ar Lefel 2 neu’n uwch am lythrennedd ag incwm cyfartalog y cartref o bron i ddwywaith y rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad neu’n is £31,791 i’r rhai ar Lefel 2 neu’n uwch, £16,383 i’r rhai ar Lefel Mynediad). Tra roedd gwahaniaethau cyfradd yn incwm y cartref yn 2004, nid oedd hyn cymaint ag yn 2010 (£29,608 ar gyfer Lefel 2 neu’n uwch, £17,442 ar gyfer Lefel Mynediad). Dim ond 1 y cant o ymatebwyr gydag incwm cartref o £50,000 neu’n fwy a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd, tra roedd y ffigwr yn 22 y cant i’r rhai oedd ag incwm o lai na £15,000.

*Sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn bywyd bob dydd*

Gofynnwyd i bawb o’r rhai a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg hunanasesu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Mae’n ymddangos fod unigolion wedi dod yn fwy realistig yn eu hunanasesiad o’u sgiliau llythrennedd ers 2004, gyda 10 y cant o’r rhai a asesodd eu sgiliau darllen eu hunain fel da iawn neu gweddol dda yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad yn asesiad llythrennedd 2010, ac roedd hyn yn ostyngiad ar y 23 y cant yn y categori hwn yn yr arolwg blaenorol.

**Llythrennedd a Hunanasesiad o allu darllen**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Hunanasesiad darllen** | **Da** | | **Is na’r cyfartaledd** | |
|---|---|---|---|---|
| | **% 2010** | **% 2004** | **% 2010** | **% 2004** |
| Aseswyd ar Lefel Mynediad | 10 | 23 | 67 | 58 |
| Aseswyd ar L1 | 30 | 38 | 20 | 24 |
| Aseswyr ar L2 neu’n uwch | 60 | 39 | 13 | 18 |
| Sail a bwysolwyd | 2076 | 2471 | 58 | 65 |
| Sail na phwysolwyd | 2076 | 2471 | 58 | 65 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

Cafodd 48 y cant o’r rhai wnaeth raddio eu mathemateg fel da iawn neu gweddol dda eu hasesu ar Lefel Mynediad, oedd yn debyg i’r gyfran o 51 y cant yn 2004. Roedd y gyfran o ymatebwyr wnaeth hunanasesu eu rhifedd fel “da iawn” neu “gweddol dda” yn 2010 1 y cant yn uwch na ffigwr arolwg 2004, er bod y gyfran oedd yn teimlo fod eu mathemateg yn “dda iawn” wedi codi o 49 y cant yn 2004 i 62 y cant yn 2010.

Gofynnwyd i bawb o'r ymatebwyr faint o lyfrau Saesneg oedd ganddynt yn eu cartref, gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod perthynas amlwg rhwng pobl yn darllen a'r nifer o lyfrau oedd ar gael iddynt yn eu cartref[43]. Roedd gan 81 y cant o'r ymatebwyr 25 neu'n fwy o lyfrau, er bod y gyfran yn sylweddol is (53 y cant) ymhlith y rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd. Roedd perchnogaeth llyfrau hefyd yn gysylltiedig â lefelau asesiad ar gyfer rifedd, gyda 90 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch yn meddu ar 25 neu fwy o lyfrau yn eu cartref o'i gymharu â a 75 y cant o'r ymatebwyr ar Lefel Mynediad. Yn gyffredinol roedd perchnogaeth llyfrau wedi gostwng ers 2004, pryd yr adroddodd 89 y cant o ymatebwyr yr arolwg fod ganddynt 25 neu fwy o lyfrau yn eu cartref.

*Cynhwysiant Digidol ac Allgáu Digidol*

Roedd y rheini â llythrennedd Lefel Mynediad yn llawer llai tebygol o gael mynediad at y Rhyngrwyd neu o gael defnydd cyfrifiadur na'r sampl gyfan o ymatebwyr. Roedd gan 68 y cant o ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd fynediad i'r Rhyngrwyd, tra bod y gyfran yn 94 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 neu uwch. Roedd y canlyniadau ar gyfer defnydd o gyfrifiadur mewn perthynas â sgoriau llythrennedd yn debyg, gyda 61 y cant o ymatebwyr a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad â defnydd o gyfrifiadur, o'i gymharu â 94 y cant o'r rhai ar Lefel 2. Roedd ymatebwyr gyda sgiliau llythrennedd Lefel Mynediad yn llawer llai tebygol na'r cyfartaledd i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer prosesu geiriau (38 y cant yn erbyn ffigwr sampl o 3 y cant), defnyddio taenlenni neu gronfeydd data (21 y cant yn erbyn 56 y cant ar gyfer y sampl cyfan).

*Hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd*

Dim ond cyfran fach o'r ymatebwyr (4 y cant) oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant mewn llythrennedd neu rifedd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, er fod y ffigwr ychydig yn uwch (6 y cant) i'r rhai oedd â sgiliau llythrennedd neu rifedd ar Lefel Mynediad. Roedd bron i dri chwarter y rhai oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu addysg mewn llythrennedd wedi llwyddo i ennill cymhwyster a theimlai 83 y cant eu bod wedi dysgu naill ai lawer iawn neu gryn dipyn. I'r rhai oedd yn gwneud defnydd o ddysgu rhifedd, roedd y ffigurau'n debyg.

[43] Er enghraifft, Scottish Adult Literacy Survey 2009.

Safleoedd addysg ffurfiol fel ysgol, coleg neu adeilad prifysgol a welid gan ymatebwyr fel y mannau mwyaf tebygol o fod wedi mynychu dysgu ac roeddynt yn fwyaf tebygol o fod wedi derbyn gwybodaeth am ddysgu gan naill ai goleg / prifysgol neu gan gyfeillion a theulu, er fod cyflogwyr hefyd yn cael eu gweld gan rai ymatebwyr fel rhai oedd yn hyrwyddo hyfforddiant mathemateg.

### Canlyniadau'r arolwg cyfrwng Cymraeg

*Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd a Phriodoleddau Demograffig ymysg Siaradwyr Cymraeg*[44]

Roedd gostyngiad bychan yn y lefelau a aseswyd o lythrennedd Cymraeg, o 67 y cant ar Lefel 1 neu uwch yn 2004 i 63 y cant yn 2010. Yn ogystal, fe wnaeth y gyfran o siaradwyr Cymraeg rhugl a aseswyd ar Lefel Mynediad bron ddyblu dros y chwe blynedd rhwng yr arolygon, o 14 y cant yn 2004 i 26 y cant yn 2010. Cafodd merched a ymatebodd ganlyniadau sylweddol well yn yr asesiad llythrennedd na dynion (69 y cant ar Lefel 1 neu uwch i ferched, 58 y cant ar y lefel honno i ddynion). Ymatebwyr iau, yn y categori 16-19 oed, oedd y lleiaf tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch (53 y cant o ymatebwyr), a rhai yn y grŵp 35-44 oedd y mwyaf tebygol (69 y cant o ymatebwyr).

Ar y lefel ranbarthol, roedd y sgoriau asesiadau llythrennedd uchaf ymhlith ymatebwyr o dde-ddwyrain Cymru, (74 y cant wedi eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch yn erbyn cyfanswm trwy Gymru o 63 y cant) ac roedd hyn yn wir hefyd yn arolwg 2004. Roedd y rhai a aned yng Nghymru'n fwy tebygol o gael eu sgorio ar Lefel 1 neu uwch na'r rheini a aned yn rhywle arall.

### Llythrennedd a'r defnydd o'r Gymraeg
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Gallu i siarad Cymraeg (hunanasesiad) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Rhugl** | **Rhugl** | **Gweddol Dda** | **Gweddol Dda / Rhywfaint** |
| | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** |
| Lefel Mynediad | 26 | 14 | 70 | 64 |
| L1 | 29 | 25 | 17 | 17 |
| L2 neu uwch | 45 | 61 | 12 | 18 |

[44] Y rhai a gyfwelwyd oedd y rhai oedd yn teimlo eu bod yn gallu siarad Cymraeg naill ai'n rhugl neu'n weddol dda.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sail a bwysolwyd | 772 | 845 | 229 | 518 |
| Sail na phwysolwyd | 784 | 772 | 216 | 591 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Roedd yr ymatebwyr hynny a siaradai Gymraeg yn bennaf yn y gwaith neu'r ysgol yn sgorio'n well yn gyffredinol yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg (78 y cant ar Lefel 1 neu uwch) na'r rheini a siaradai Saesneg mewn sefyllfaoedd o'r fath (49 y cant), neu a siaradai'r ddwy iaith fel ei gilydd (65 y cant).

*Priodoleddau'r cartref, iechyd a budd-daliadau*

Fel yn yr arolwg cyfrwng Saesneg, roedd rhywfaint o gysylltiadau rhwng lefelau uwch o asesiad Llythrennedd a phriodoleddau'r cartref. Yn gyffredinol, roedd 67 y cant o ymatebwyr yn berchen ar eu cartref eu hunain ond roedd hyn yn gostwng i 25 y cant i'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd Cymraeg. Roedd y rheini a aseswyd ar Lefel 1 neu uwch hefyd yn llai tebygol na chyfanswm y sampl cyfan o fod yn hawlio budd-daliadau[45], ac yn arbennig rhai'n ymwneud â budd-dal salwch neu anabledd. Atgyfnerthwyd hyn gan y canlyniad bod y rheini a oedd yn hunan adrodd iechyd da'n fwy tebygol o fod wedi sgorio'n uwch yn yr asesiad llythrennedd: cafodd 66 y cant o'r rhai wnaeth asesu eu hiechyd fel bod yn dda iawn eu hasesu ar lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd, tra roedd y ffigwr yn 38 y cant ymysg y rhai a ddwedodd fod eu hiechyd yn wael iawn[46].

*Addysg a chymwysterau*

Roedd y cysylltiadau rhwng y cymwysterau uchaf a llythrennedd Cymraeg yn llai amlwg nag yn achos y canlyniadau llythrennedd Saesneg, er bod yr egwyddor gyffredinol yn sefyll o ran bod yr ymatebwyr hynny gyda chymwysterau lefel uwch yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd na'r rheini gyda chymwysterau is neu ddim cymwysterau (er enghraifft, roedd 83 y cant o'r rhai oedd â gradd neu gyfwerth ar Lefel 1 neu'n uwch, tra roedd y ffigwr yn 42 y cant i'r rhai â chymwysterau is neu ddim cymwysterau. Roedd y rheini a addysgwyd yn gyfangwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg yn llawer mwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch (76 y cant o ymatebwyr) na'r rheini a dderbyniodd eu haddysg

[45] Ac eithrio budd-dal plant, y mae hawl cyffredinol iddo.
[46] Sylwer fod y ffigwr hwn wedi'i seilio ar sampl bach iawn ac ni ddylai gael ei drin fel pe bai yn ddangosol.

uwchradd naill ai yn y Saesneg (56 y cant ar Lefel 1 neu uwch) neu'r Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd (57 y cant).

Roedd 30 y cant o'r rhai a gyfwelwyd wedi gadael yr ysgol yn 16 neu'n iau, ac roedd yr ymatebwyr yma'n fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad (57 y cant) na'r sampl cyfan (36 y cant). Roedd lefelau llythrennedd Cymraeg ymhlith y rheini a adawodd ysgol yn 16 oed, ar eu uchaf yn y band oedran 45-54 (50 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch, o'i gymharu â 30 y cant ymhlith y grŵp oedran 20-34). Fodd bynnag, roeddent yn parhau o dan lefel y sampl cyfan o ymatebwyr ar bob pwynt oedran (67 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch yn yr ystod oedran 45-54 a 61 y cant ymhlith pobl 20-34 mlwydd oed). Roedd cysylltiad rhwng addysg rhieni a chanlyniadau asesiadau llythrennedd, gan fod mwy na hanner yr ymatebwyr yr oedd eu rhieni wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16 wedi cael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch, ond roedd y gyfran hon yn syrthio i draean yn unig o'r rhai nad oedd eu rhieni wedi gwneud hynny.

*Cyflogaeth ac incwm*

Mae canlyniadau'r arolwg yn arddangos cysylltiad rhwng statws cyflogaeth yr ymatebwyr a chanlyniadau eu hasesiadau llythrennedd Cymraeg. Cafodd 68 y cant o ymatebwyr a oedd mewn gwaith eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, o gyferbynnu â 54 y cant o'r rheini a oedd yn ddi-waith ar adeg yr arolwg. Ychydig o wahaniaeth, fodd bynnag, oedd rhwng lefelau asesiadau gweithwyr llawn amser a gweithwyr rhan-amser.

Fel gyda chanlyniadau'r arolwg a'r asesiadau Saesneg, roedd cysylltiad rhwng cyflogaeth sgiliau uwch a lefelau uwch o lythrennedd, gydag er enghraifft 80 y cant o "reolwyr a gweithwyr proffesiynol"[47] yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, ond 50 y cant o'r rheini mewn galwedigaethau gwaith yn cael eu hasesu ar y lefel hon. Fodd bynnag, roedd y berthynas yn llai amlwg yn y canlyniadau cyfrwng Cymraeg, gyda lefelau cymharol isel o lythrennedd ymysg y rheini mewn crefftau medrus, er enghraifft.

[47] Fel y diffiniwyd gan SOC 2000

Roedd cyfraddau uwch o lythrennedd Cymraeg yn cael eu cysylltu ag incwm uwch ymysg cartrefi ac unigolion, gyda'r ymatebwyr hynny a aseswyd ar Lefel 2, er enghraifft, â chyfartaledd incwm cartref o £31,791, tra bod y ffigur yn £16,383 ar gyfer ymatebwyr ar Lefel Mynediad.

*Sgiliau llythrennedd Cymraeg mewn bywyd bob dydd*

Roedd perthynas rhwng asesiadau llythrennedd ymatebwyr a'u hunanasesiad o'u gallu i siarad Cymraeg. Er enghraifft, o'r rheini a aseswyd ar Lefel 2 neu uwch mewn llythrennedd Cymraeg, teimlai 88 y cant fod eu Cymraeg llafar yn dda iawn, tra bod y gyfran yn llawer iawn is, sef 26 y cant, ymhlith y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad. Tra roedd cyswllt tebyg rhwng hunanganfyddiad a chanlyniadau asesiad yn nhermau sgiliau darllen Cymraeg, roedd braidd yn wannach.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ynghylch eu hyder wrth ddarllen Cymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau. Er bod 93 y cant o ymatebwyr yn hyderus ynghylch eu gallu i ddarllen llythyrau a negeseuon e-bost gan gyfeillion a theulu yn y Gymraeg, cafodd traean o'r rhain eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd, gan awgrymu elfen o or-hyder yn eu hunanasesiadau. Cysylltwyd sgoriau is mewn asesiadau llythrennedd yn gysylltiedig â lefelau is o berchnogaeth llyfrau, yn arbennig llyfrau Cymraeg. Roedd gan 82 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad lai na 25 o lyfrau Cymraeg yn eu cartref, tra bod y ffigwr i'r rhai ar Lefel 1 yn 60 y cant ac ar gyfer Lefel 2 neu'n uwch, 36 y cant o ymatebwyr oedd â llai na 25 o lyfrau Cymraeg. Roedd ymatebwyr yn llawer iawn mwy tebygol i gael 25 neu fwy o lyfrau Saesneg yn y tŷ, a 23 y cant o ymatebwyr ar Lefel 1ar gyfer llythrennedd Cymraeg oedd â llai na 25 o lyfrau Saesneg yn eu tŷ. Yn nhermau sgiliau ysgrifennu, aseswyd 21 y cant o rai oedd yn credu eu bod yn dda iawn am ysgrifennu Cymraeg ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd.

*Cynhwysiant Digidol ac Allgáu Digidol*

Yn nhermau cynhwysiant digidol, roedd cydberthynas wan rhwng lefelau asesiad llythrennedd Cymraeg a mynediad i'r Rhyngrwyd neu ddefnydd cyfrifiadur. Roedd gan 96 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 am lythrennedd ddefnydd o gyfrifiadur, tra roedd y ffigwr yn 80 y cant i'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad. Roedd ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd Cymraeg yn llai tebygol na'r sampl cyfan i ddefnyddio cyfrifiadur i brosesu geiriau (63 y cant o'i gymharu â 75 y cant ar

gyfer y sampl cyfan), gwaith taenlenni neu gronfa ddata (38 y cant o'i gymharu â 45 y cant) neu e-bost (84 y cant o'i gymharu â 91 y cant). Nid oedd gwahaniaeth, fodd bynnag, yn eu defnydd o gyfrifiadur ar gyfer cael mynediad i'r Rhyngrwyd (97 o ymatebwyr ar y naill lefel neu'r llall).

*Hyfforddiant Llythrennedd Cymraeg*

Roedd 9 y cant o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant mewn naill ai ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg yn ystod y ddwy flynedd cyn yr arolwg, er fod y ffigwr ychydig yn uwch (12 y cant) nag i'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd. O'r ymatebwyr hynny a oedd wedi asesu eu sgiliau llythrennedd eu hunain fel gweddol neu wael, roedd 12 y cant wedi ystyried cymryd rhan mewn dysgu / hyfforddiant mewn llythrennedd Cymraeg. Y prif resymau am beidio â defnyddio cyfleoedd hyfforddi oedd diffyg amser (49 y cant), ymrwymiadau gwaith (34 y cant). Ymrwymiadau gofal plant (16 y cant), ffioedd (11 y cant) a dim cyrsiau addas (11 y cant). Dywedodd 78 y cant o'r rhai a ddilynodd hyfforddiant eu bod wedi dysgu llawer iawn neu gryn dipyn o'r profiad.

## Crynodeb

Cyflwynodd yr adroddiad hwn ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010, gan gynnwys asesiadau o sgiliau llythrennedd Cymraeg a Saesneg, ynghyd â sgiliau rhifedd yng Nghymru. Mae'r arolwg wedi adeiladu ar yr wybodaeth a gasglwyd yn arolwg 2004 o sgiliau llythrennedd Saesneg a rhifedd, ac mae wedi darparu rhai cymaryddion eang ag arolwg Llythrennedd Cymraeg 2004. Cododd yr angen am arolwg yn rhannol mewn ymateb i'r targed a osodwyd yn Strategaeth Sgiliau Sylfaenol 2001, ar ôl hynny a gynhwyswyd yn yr ail Strategaeth yn 2005, y dylai 80 y cant o oedolion sy'n gweithio fod ag o leiaf Lefel 1 mewn llythrennedd a 55 y cant fod ag o leiaf Lefel 1 mewn rhifedd erbyn 2010.

Dengys y canlyniadau fod y targed ar gyfer llythrennedd Saesneg wedi'i basio, gydag 88 y cant o ymatebwyr yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd, sy'n gynnydd o 13 pwynt canran ers 2004. Bu cynnydd mewn rhifedd yn arafach, gyda'r canlyniad cyffredinol fod 50 y cant o ymatebwyr wedi'u hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, tri phwynt canran yn uwch nac yn 2004, ond pum pwynt canran yn is na tharged y Strategaeth. Gostyngodd canlyniadau'r asesiad ar gyfer

llythrennedd Cymraeg rhwng 2004 a 2010, o 67 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch yn 2004 i 63 y cant yn 2010.

# 1. Cefndir a chyd-destun

## 1.1 Cyflwyniad

Mae llythrennedd a rhifedd yn sgiliau hanfodol sydd eu hangen i weithredu a chynyddu'n broffesiynol ac yn gymdeithasol. Yn 1999 canfu Adroddiad Moser y canlyniadau niferus y gall sgiliau sylfaenol gwael eu cael ar enillion personol a theuluol, ar gymunedau a chymdeithas, ac ar yr economi[48]. Yn 2009, pwysleisiodd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau y cyswllt rhwng sgiliau sylfaenol, cyflogadwyedd unigolyn a datblygiad economaidd ehangach: "Gall diffyg sgiliau sylfaenol a/neu unrhyw gymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith godi rhwystr sylweddol i ymrwymiad unigol a llwyddiant ... i ddatblygu gweithlu o'r radd flaenaf, rhaid i ni drawsnewid uchelgais yr unigolyn, ei hyder a'i allu i ddysgu [49]."

Cyflwynwyd safoni lefelau llythrennedd a rhifedd yn 1999, pan arweiniodd gwaith Syr Claus Moser at ddatblygu set resymegol o safonau ar gyfer llythrennedd a rhifedd[50]. Rhestrodd y safonau hyn yn fanwl pa sgiliau roedd eu hangen ar gyfer pump lefel diffiniedig o allu: Lefel Mynediad 1, Lefel Mynediad 2, Lefel Mynediad 3, Lefel 1 a Lefel 2. Cyfunionwyd Lefel 1 a Lefel 2 â'r rhai roedd eu hangen am gymhwyster Lefel Un a Lefel Dau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol[51]. Lefel 1 felly a ddewiswyd i fod y safon ofynnol sydd ei angen er mwyn ennill cymhwyster ffurfiol.

Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru[52] wedi ymroi i godi safonau llythrennedd a rhifedd ymhlith poblogaeth Cymru, gan gydnabod bod diffygion llythrennedd a rhifedd yn effeithio ar unigolion yn ogystal ag ar gymdeithas yn gyffredinol[53].

Yn 2004 gwnaed arolwg o sgiliau llythrennedd a rhifedd yn Saesneg ymhlith y boblogaeth oedran gwaith yng Nghymru[54]. Mabwysiadodd yr arolwg dull cyffelyb i'r

---

48 Adroddiad Moser *A Fresh Start - improving literacy and numeracy* DfEE 1999.
49 Towards Ambition 2020: skills, jobs, growth. Comisiwn y DU ar Cyflogaeth a Sgiliau Hydref 2009, Tudalen16
50 Adroddiad Moser *A Fresh Start - improving literacy and numeracy* DfEE 1999.
51 Mae Lefel 1 a Lefel 2 nawr yn cael eu alinio i Lefel 1 a Lefel 2 (yn ôl eu trefn) o Fframwaith Cymwysterau a Chwricwlwm Cymru
52 Yn 2011, daeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael ei nabod fel Llywodraeth Cymru.
53 Trwy fabwysiadu dull pob oedran, yn benodol drwy'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol gyntaf a gyhoeddwyd yn 2001, a'i olynydd "Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri", o 2005 i 2010

dull a ddefnyddiwyd mewn arolwg o lythrennedd a rhifedd yn Lloegr yn 2002/03[55]. Y flwyddyn ganlynol comisiynwyd arolwg ar wahân oedd yn asesu gallu darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg gan yr hyn oedd yr adeg honno yn Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (BSA) Cymru[56].

Canfu canlyniadau arolwg 2004 ar sgiliau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru fod 25 y cant o bobl rhwng 16 oed a 65 oed dan Lefel 1 mewn llythrennedd, a doedd gan 53 y cant ddim Lefel 1 mewn sgiliau rhifedd. Yr ystadegau pennawd hyn a defnyddiwyd i godi ymwybyddiaeth o ddiffygion llythrennedd a rhifedd ymhlith poblogaeth Cymru ac i gynnal momentwm polisi sgiliau sylfaenol i Gymru.

### 1.2 Polisi Sgiliau Sylfaenol

Cyhoeddwyd Strategaeth Sgiliau Sylfaenol gyntaf Cymru yn 2001 ac roedd yn nodedig am ei ddull pob oedran, gan gynnig gweledigaeth am Gymru oedd yn gwbl llythrennog ac yn rhifog. Fe'i dilynwyd yn 2005 gan yr ail strategaeth pum mlynedd[57] oedd yn dilyn yr un amcanion sylfaenol â'r Strategaeth gyntaf, gyda nifer o elfennau newydd neu elfennau wedi'u hymestyn. Yn yr ail strategaeth, defnyddiwyd yr hyn a ganfuwyd o arolwg 2004 i dynnu sylw at ddifrifoldeb sgiliau sylfaenol gwael Cymru o'i gymharu â Lloegr ac i raddau pellach o'i gymharu â chenhedloedd eraill yn Ewrop. Yr un fath a'i ragflaenydd roedd "Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri" yn targedu cynulleidfa o bob oed, yn pontio'r Blynyddoedd Cynnar, Pobl Ifanc a darpariaeth ôl-16. Dyrannwyd ychydig dan £13 miliwn bob blwyddyn i Gynllun Cyflenwi'r strategaeth. Cefnogwyd amcanion y strategaeth gan ystod o dargedau wedi'u mesur mewn perthynas â sgiliau sylfaenol gan gynnwys:

- Erbyn 2010, dylai 80 y cant o oedolion sy'n gweithio fod â sgiliau Lefel 1 llythrennedd o leiaf a dylai 55 y cant fod ag o leiaf sgiliau rhifedd Lefel 1 :
- Dylai pob ysgol gynnal safonau'r Marc Safon Sgiliau Sylfaenol:
- Dylai pob darparwr dysgu ôl-16 fod yn dal y Marc Safon erbyn 2006, ac:

---

[54] Gwnaed arolwg 2004 gan y Biwro Ymchwil Farchnata Prydeinig ar ran Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, a llwyddwyd i gael 2,554 o gyfweliadau cyflawn. Am fanylion pellach edrychwch ar: Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru, 2004.
[55] The Skills for Life Survey: A national needs and impact survey of literacy, numeracy and ICT skills, Department for Education and Skills, 2003.
[56] Asesu Hyfedredd Darllen ac Ysgrifennu Cymraeg, Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru, 2004.
[57] Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Wella Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.

- Erbyn 2010 dylai 50 y cant o weithwyr fod yn gweithio i gyflogwyr sydd wedi arwyddo Adduned y Cyflogwr.

Fodd bynnag, ar adeg y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol gyntaf i Gymru[58], ychydig o wybodaeth oedd ar gael ynghylch anghenion sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg a phwysleisiwyd yn y strategaeth: *"Mae angen arloesi ac ymchwil arnom … ac i ganfod atebion i gwestiynau sydd heb eu hateb, gan gynnwys maint y broblem llythrennedd yn y Gymraeg."* Fe wnaeth ail Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru, Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri, dynnu sylw at y ffaith: "*Cyn sefydlu'r Strategaeth, ychydig o gymorth oedd ar gael i ddysgu sgiliau llythrennedd Cymraeg i oedolion …Mae prinder deunyddiau o ansawdd da i ategu'r gwaith o ddysgu sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig ar gyfer y sector ôl-16."* Cydnabyddir felly fod cymorth Sgiliau Sylfaenol wedi canolbwyntio'n helaeth ar lythrennedd a rhifedd yn yr iaith Saesneg, gyda llai o sylw'n cael ei roi i'r anghenion hynny yn y Gymraeg.

Gwnaed gwerthusiad tair blynedd o'r Strategaeth, sy'n ceisio asesu ei heffaith ar lefelau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru ac yn ei dro, unrhyw fudd economaidd a chymdeithasol i raglenni neu ymyriadau sydd wedi'u halinio â'r Strategaeth.[59]

Ers arolwg 2004, cafodd yr agenda'r sgiliau sylfaenol ei hamlygu'n weddol gyson fel un o'r sialensiau allweddol sy'n wynebu Cymru, yn nhermau addysg a dysgu gydol oes, a sut mae'r mater yn berthnasol i bryderon polisi ehangach, fel datblygiad economaidd, cynhwysiad cymdeithasol a gostwng tlodi. Er enghraifft, canfu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru gyswllt clir rhwng sgiliau sylfaenol â chydlyniad a'r angen i chwalu'r cylch o anfantais sy'n pontio'r cenedlaethau o bobl sydd â llythrennedd a rhifedd gwael. Yn fwy diweddar mae'r Strategaeth Tlodi Plant[60] wedi pwysleisio'r angen i fuddsoddi yn y rhaglen Adduned Cyflogwr, fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru ac o ddilyn agenda cyfiawnder cymdeithasol.

Bu cynnydd trawiadol yn y pwyslais ar sgiliau sylfaenol yng nghyd-destun gwaith, yn benodol yn y cyhoeddiad "*Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*" yng Ngorffennaf 2008 ac

[58] Ebrill 2001
[59] Mae'r adroddiad hwn i'w gyhoeddi'n gynnar yn 2012
[60] Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Chwefror 2011

yn yr adroddiad cyntaf[61] Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB)[62]. Roedd y ddau yn cefnogi ymroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yr adeg honno i ddarparu cyllid a chefnogaeth i Sgiliau Sylfaenol Oedolion, gan gynnwys hyrwyddo Adduned Cyflogwr.[63] Y cyntaf o'r chwech argymhelliad a gyflwynwyd yn adroddiad WESB oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ailddyblu eu hymdrechion i ddileu'r diffyg sgiliau sylfaenol yn y boblogaeth oedolion a sicrhau fod pob un o ddarparwyr addysg a sgiliau yn rhoi pwyslais llawer cryfach ar sgiliau sylfaenol a chyflogadwyedd [64].

Yng Ngorffennaf 2010, tynnwyd at ei gilydd y gydberthynas rhwng lefelau llythrennedd a rhifedd ymhlith y boblogaeth oedd yn gweithio a datblygiad economaidd mewn rhaglen newydd o adfywiad economaidd[65]. Roedd hon yn gosod ymrwymiad i sicrhau fod ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cymhwyso pobl ifanc â'r llythrennedd a'r rhifedd sylfaenol y mae gofyn amdanynt yn y gweithle. Roedd y cynllun hefyd yn blaenoriaethu Sgiliau Sylfaenol Adduned Cyflogwr fel ffordd o "helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â chostau a gwastraff potensial oedd yn codi o lefelau isel llythrennedd a rhifedd yn y gweithlu.[66]"

Fodd bynnag, ar waethaf uchelgais Cymru'n Un[67] i hyrwyddo Cymru fel cenedl "ddwyieithog ac aml ddiwylliannol"[68], bu llai o bwyslais strategol ar ddatblygu sgiliau sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd llythrennedd Cymraeg ei ddyrchafu fel thema yn "Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri" , ac ym Mis Ebrill 2010 cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg[69] oedd yn cydnabod yr angen i gynyddu

[61] Cymru: Gwlad sy'n Gweithio. Adroddiad Blynyddol Cyntaf Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, Ebrill 2009
[62] Corff Ymgynghorol Gweinidogaethol a sefydlwyd yn 2008 ac sydd, ymhlith pethau eraill, wedi'i siarsio i fonitro gweithredu "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru"
[63] Datblygwyd Adduned Cyflogwr yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Gosodwyd y cynllun yn ei le i hybu'r cyflogwyr i helpu eu gweithwyr i wella eu sgiliau, i gefnogi cyflogwyr tra roeddent yn datblygu Cynlluniau Gweithredu i ddatblygu sgiliau llythrennedd a/neu rhifedd eu gweithwyr, ac i ddarparu cysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant lleol.
[64] Cymru: Gwlad sy'n Gweithio – Adroddiad Blynyddol Cyntaf Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, Ebrill 2009 tud. 20.
[65] Adnewyddu'r Economi; cyfeiriad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2010.
[66] Adnewyddu'r Economi; cyfeiriad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2010, tud. 24.
[67] Roedd Cymru'n Un yn agenda blaengar a gynhyrchwyd ym Mis Mehefin 2007, oedd yn canolbwyntio ar wella ansawdd byw a sicrhau lles yn gyffredinol. Roedd yn gytundeb clymblaid ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru a gytunwyd ym Mis Mehefin 2007 gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru ac arweinydd Llafur Cymru, ac Ieuan Wyn Jones, arweinydd Plaid Cymru.
[68] Cymru'n Un, tud. 5.
[69] Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2010

dealltwriaeth a chefnogi mynd i’r afael â diffygion sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2007, tua hanner ffordd drwy ail gyfnod strategaeth sgiliau sylfaenol daeth y cyn Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru yn rhan o Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) oedd yr adeg honno yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a daeth yn Sgiliau Sylfaenol Cymru (SSC). Mae’r cyfuno hwn yn gyffredinol wedi cefnogi’r symud tuag at fwy o integreiddio â darpariaeth prif ffrwd, a dros gyfnod y tair mlynedd canlynol, cafodd gwahanol elfennau o *Geiriau’n Galw*: *Rhifau’n Cyfri* naill ai eu dileu neu eu plannu yn adrannau perthnasol y DfES. Mae hyn yn cynrychioli ymwahanu arwyddocaol o’r dull pob oedran gwreiddiol a geir yn *Geiriau’n Galw: Rhifau’n Cyfri*.

Cyhoeddwyd Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn Chwefror 2011 pan amlinellodd y Gweinidog Addysg, Leighton Andrews gynllun pum mlynedd i wella safonau llythrennedd yn ysgolion Cymru, i’w weithredu o fis Medi 2011. Mae strategaeth debyg i fynd i’r afael â rhifedd yn ysgolion Cymru yn cael ei ddatblygu.

### 1.3 Pwrpas yr Arolwg hwn

Bu dau amcan i’r gwaith ymchwil hwn; yn gyntaf bu’n arolwg o agwedd pobl o oedran gweithio yng Nghymru i gasglu eu safbwyntiau ar eu datblygiad o sgiliau llythrennedd a rhifedd. Ail amcan y gwaith ymchwil oedd asesu rhifedd, a sgiliau llythrennedd Cymraeg a Saesneg ymatebwyr yr arolwg, er mwyn amcangyfrif hyd a lled yr angen am sgiliau sylfaenol ymhlith y cohort hwn o’r boblogaeth yng Nghymru.

Amcan pellach i’r gwaith oedd mesur, cyn belled ag sy’n bosibl, sut mae lefelau sgiliau wedi newid ers 2004 ac i ddeall pa mor bell y mae hyn yn amrywio rhwng is-grwpiau daearyddol, oedran a lefel sgiliau.

## 2. Methodoleg

### 2.1 Cyflwyniad

Cynlluniwyd yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010 cyn belled ag roedd yn ymarferol bosibl i ddyblygu'r ddau arolwg a wnaed yn 2004[70]. Cynlluniwyd yr arolwg gan gonsortiwm Miller Research a TNS-BMRB, mewn ymgynghoriad â Grŵp Llywio'r Arolwg[71]. Roedd TNS-BMRB yn gyfrifol am gasglu a phrosesu'r data, a Miller Research oedd yn gyfrifol am y dadansoddi ac adrodd yn ôl.

Roedd yr arolwg yn cynnwys dwy ran ar wahân ond wedi'u cysylltu:

- arolwg i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd sampl cynrychiadol cenedlaethol o 2134 o oedolion(16 oed i 65 oed) yng Nghymru drwy gyfrwng y Saesneg a chwblhaodd 2009 ohonynt yr asesiad llythrennedd a 2012 gwblhau'r asesiad rhifedd; ac
- arolwg i asesu sgiliau llythrennedd[72] 1001 o oedolion sy'n siarad Cymraeg[73] (16 - 65 oed) yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg

Cyfeirir at y ddau arolwg fel yr 'arolwg Saesneg' a'r 'arolwg Cymraeg' yn yr adroddiad hwn, ac yn yr Adroddiad Technegol.

### 2.2 Cynllun yr Arolwg

Yn y ddau arolwg, roedd dwy elfen ar wahân i'w cyflawni gan yr ymatebydd:

- Holiadur cyd-destunol, gan gynnwys cwestiynau agweddol a demograffig yn cael eu gofyn i'r ymatebydd gan yr holwr; a
- Naill ai un neu ddau asesiad hunan lenwi i'w gwblhau gan yr ymatebydd gyda'r holwr yn goruchwylio, yn asesu lefelau sgiliau sylfaenol

[70] Roedd nifer o resymau pam nad oedd yr arolwg yn gallu dyblygu'n llawn arolygon 2004, sy'n cael eu trafod mewn mwy o fanylder isod ac yn yr Adroddiad Technegol.
[71] Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg
[72] Rhoddwyd ystyriaeth i gynnal asesiad rhifedd drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg ond penderfynwyd na fyddai hyn yn ymarferol nac yn angenrheidiol am nifer o resymau, a drafodir yn yr Adroddiad Technegol.
[73] Dosbarthwyd yr ymatebwyr oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn "weddol dda" neu'n "rhugl" fel rhai oedd yn siarad Cymraeg.

Roedd y mwyafrif o'r holiadur cyd-destunol yr un fath i'r arolwg Saesneg a'r arolwg Cymraeg[74]; fodd bynnag gwnaed y ddau arolwg gan ddefnyddio gwahanol fethodoleg o samplo a gwahanol asesiadau. Cynhaliwyd yr arolwg cyfrwng Saesneg gan ddefnyddio methodoleg tebygolrwydd ar hap[75] a'r arolwg cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio methodoleg tebygolrwydd hybrid/ sampl cwota[76]. Cyfrifwyd graddfa ymateb cyffredinol yr arolwg cyfrwng Saesneg yn 60 y cant[77]. Cafwyd cyfanswm o 1,001 o gyfweliadau llawn yn yr arolwg Cymraeg, gan fynd dros y targed o 1,000. Mewn nifer fach o achosion gwrthododd yr ymatebydd barhau â'r cyfweliad ar hanner yr asesiad, neu roedd llyfrynnau tasgau wedi mynd ar goll yn y post, ac felly ni ddefnyddiwyd y data o'r cyfweliadau hyn ac roedd yr ymatebydd yn cael ei gyfnewid am gyfwelydd arall o'r un gell cwota ble bynnag roedd hynny bosibl.

Yn y sampl cyflawn a gynhwyswyd yn y set ddata derfynol, fe fethodd saith unigolyn â chychwyn yr asesiad (am nad oeddynt yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg o gwbl) ac roedd 30 wedi gadael rhai cwestiynau yn wag. Yn yr achos cyntaf, rhoddwyd lefel ragosodedig i'r ymatebydd ar Lefel Mynediad neu'n is, ac yn yr ail achos am nad oedd unrhyw ffordd o wybod os oedd yr ymatebydd wedi ceisio gwneud pob tasg hyd eithaf ei allu, felly roedd unrhyw dasgau oedd yn cael eu gadael yn wag yn cael eu marcio fel rhai anghywir. Ceir manylion pellach ar gynllun y sampl yn Adran 3 o'r Adroddiad Technegol.

### *2.2.1 Holiadur Cyd-destunol*

Dyluniwyd yr holiadur cyd-destunol gan gonsortiwm mewn ymgynghoriad â Grŵp Llywio'r Arolwg, a chafodd ei seilio ar holiaduron cyd-destunol o'r ddau arolwg yn 2004 yn ogystal â holiadur cyd-destunol oedd yn cael ei ddefnyddio mewn arolwg cydamserol o sgiliau oedolion yn Lloegr.

[74] Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y ddau arolwg. Er enghraifft, gofynnwyd mwy o gwestiynau i'r ymatebwyr oedd yn cwblhau'r arolwg drwy gyfrwng y Gymraeg am eu gallu yn yr iaith Gymraeg a llai o gwestiynau am eu gallu yn yr iaith Saesneg o ystyried fod eu sgiliau llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hasesu.

[75] Roedd hyn yn golygu'n anochel y byddai cyfartaledd o'r sampl yn siaradwyr Cymraeg; fodd bynnag nid oedd hyn yn penderfynu eu bod yn anghymwys.

[76] Gwnaethpwyd yr arolwg drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio dulliau samplo cwota, yn gyntaf am mai dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn 2004, ac yn ail am nad oedd rhestr gyflawn o siaradwyr Cymraeg ar gael ac felly roedd angen sgrinio'n eang, gan wneud y dull sampl hwn y dull mwyaf cost effeithiol a'r mwyaf effeithiol.

[77] Gan gymryd i ystyriaeth y ffaith fod cartrefi yn cael eu sgrinio a chymryd yn ganiataol y byddai cyfran o gartrefi heb eu sgrinio wedi bod yn anghymwys petaent wedi cael gofyn iddynt.

Roedd cynnwys yr arolwg yn cynnwys y canlynol; dosbarthiad iaith, strwythur cartref; ieithoedd ac ethnigrwydd (gan gynnwys hyder a gallu mewn unrhyw iaith a siaredir); gwlad enedigol, hunaniaeth cenedlaethol ac ethnigrwydd; sgiliau TGCh, defnydd o gyfrifiadur a gallu; hanes addysgol a chymwysterau (gan gynnwys addysg y rhieni); hunan asesiad o sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg a/neu Cymraeg; amlder defnyddio sgiliau darllen ac ysgrifennu Saesneg/Cymraeg; yr hyfforddiant a wnaed i wella eu sgiliau a gwerth unrhyw hyfforddiant a wnaed; hunan asesiad o sgiliau mathemateg a sgiliau rhif, yr hyfforddiant a wnaed i wella'r sgiliau hyn a gwerth unrhyw hyfforddiant a wnaed; cyflogaeth gyfredol/ cyflogaeth ddiweddaraf; cyflogaeth diweddaraf Person Cyfeiriadol y Cartref[78] (os nad yw'r ymatebydd); iechyd; a daliadaeth tŷ, budd-daliadau ac incwm[79].

Cafodd yr ymatebwyr i'r ddau arolwg y dewis o gwblhau'r holiadur cyd-destunol yn Saesneg neu yn Gymraeg[80.] Cyfartaledd o ryw 22 munud oedd ei angen i gwblhau'r arolwg Saesneg (15 munud ymhlith yr ymatebwyr ifanc ychwanegol) a 25 munud i gwblhau'r arolwg Cymraeg[81].

### *2.2.2 Asesiadau Llythrennedd a Rhifedd*

Roedd angen i'r ymatebwyr oedd yn ateb yr arolwg Saesneg gwblhau dau asesiad ar gyfrifiadur; un ar lythrennedd ac un ar rifedd drwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Cwblhaodd ymatebwyr yr arolwg Cymraeg un asesiad oedd yn asesiad papur drwy gyfrwng y Gymraeg, wedi'u cynorthwyo drwy wrando ar ffeiliau sain yn Gymraeg, wedi'u recordio ymlaen llaw, a oedd yn cynnig cyfarwyddiadau llafar.

Er fod yr asesiadau a ddefnyddiwyd wedi eu cynllunio er mwyn eu cymharu â'r asesiadau a ddefnyddiwyd yn arolygon 2004[82], nid oedd yr asesiadau Cymraeg a Saesneg yn debyg i'w gilydd ac felly ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol

---

[78] Diffiniwyd person cyfeiriadol y Cartref yn adran strwythur y Cartref fel rhywun yn y cartref sy'n berchen neu'n rhentu'r cartref, yr un gyda'r incwm uchaf (os yw'n denantiaeth/perchnogaeth ar y cyd), neu'r person hynaf (os yw'r incwm yr un fath).

[79] Gellid canfod yr holiadur cyd-destunol llawn yn Atodiad A o'r Adroddiad Technegol.

[80] Roedd hyn er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth Llywodraeth Cymru i ganiatáu dinasyddion Cymru i gymryd rhan mewn unrhyw arolwg gan y Llywodraeth yn Gymraeg neu Saesneg.

[81] Mae pob amseriad cyfartalog yn yr adroddiad yn eithrio ychydig o gyfweliadau a oedd yn hir iawn

[82] Gwnaethpwyd newidiadau bach a chywiriadau i'r asesiad papur drwy gyfrwng y Gymraeg a ddisgrifiwyd yn adran 4.3.2

rhwng canlyniadau llythrennedd drwy gyfrwng y Saesneg a chanlyniadau llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg[83].

Ni chafodd yr asesiadau eu cyfieithu, ac roedd angen i'r ymatebwyr eu cwblhau yn yr iaith berthnasol (gan ddibynnu ar ba arolwg yr oeddent wedi'u dewis ar ei chyfer) a hynny ar sail fod yr asesiadau'n profi sgiliau penodol yn un iaith neu'r llall.

Roedd yr asesiadau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg Saesneg yn gopïau o'r asesiadau a ddefnyddiwyd yn arolwg 2004[84.] Roedd yr asesiadau eu hunain wedi'u gweinyddu'n gyfangwbl gan yr holwr; h.y. y cyfwelydd oedd yn mewnbynnu'r holl atebion; byddent yn llywio eu ffordd drwy asesiadau'r ymatebydd ac yn rheoli'r gliniadur a llygoden y cyfrifiadur yr holl amser. Byddai'r ymatebwyr yn darllen y dasg o sgrin y cyfrifiadur ac yn cyfeirio'r holwr at ba ymateb y byddent yn hoffi ei wneud.

Cymerwyd yr asesiad llythrennedd Cymraeg a ddefnyddiwyd yn 2010 o'r llyfryn tasgau a ddefnyddiwyd yn arolwg 2004 o hyfedredd darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Cyn y gwaith maes, cafodd y llyfryn tasgau ei arolygu a gwnaed newidiadau bach iawn. Ailgynlluniwyd yr asesiad Cymraeg i'r arolwg hwn i ganiatáu iddo gael ei weinyddu gan holwyr nad oedd yn siarad Cymraeg[85], drwy ddefnyddio ffeiliau sain wedi'u recordio ymlaen llaw o'r holl gwestiynau  roedd angen eu holi'n llafar.

### 2.3 Gwaith Maes

Cafodd gwaith maes i'r ddau arolwg ei wneud yn y cartref drwy gyfweld personol wedi'i gynorthwyo gan gyfrifiadur (CAPI). Cynhaliwyd peilot ar gyfer y ddau arolwg rhwng 7fed Rhagfyr  a'r 13eg Rhagfyr 2009[86].  Gwnaed y gwaith maes i'r arolwg Saesneg rhwng 29ain Mawrth 2010 a'r 14eg Tachwedd 2010. Roedd yr arolwg Saesneg yn cynnwys ymatebwyr ifanc ychwanegol  rhwng 16 a 19 mlwydd oed[87].

[83] Roedd y methodoleg samplo gwahanol rhwng y ddau arolwg ei hun yn golygu na fyddai'n bosibl gwneud y gymhariaeth hon, ond hefyd teimlwyd fod manylion technegol iaith yn Gymraeg a Saesneg, a'r ffordd mae'r ddwy iaith wedi'u strwythuro a'u defnyddio yn ddigon gwahanol i rwystro cymhariaeth ystyrlon rhwng y ddau arolwg.

[84] Am ragor o wybodaeth ar Asesiad, Datblygiad a Strwythur, gweler Adran 4.3 o'r Adroddiad Technegol.

[85] Yn 2004 gofynnwyd unrhyw gwestiynau oedd angen eu gofyn ar lafar gan yr holwr (yn Gymraeg).

[86] Am fanylion canlyniadau a chanfyddiadau allweddol o'r raglenni peilot, gweler Adran 4.5 o'r Adroddiad Technegol.

[87] Gweler yr Adroddiad Technegol am fwy o fanylion ar yr ymatebwyr ifanc ychwanegol.

Gwnaed y gwaith maes i'r arolwg Cymraeg rhwng 29ain Mawrth a'r 25ain Hydref 2010. Defnyddiwyd yr un cwestiwn sgrinio ag a ddefnyddiwyd yn 2004 i sicrhau'r gallu i siarad Cymraeg (ac felly cymhwyster i gymryd rhan yn yr arolwg) yn 2010. Roedd pob un o'r ymatebwyr oedd yn mynnu eu bod yn gallu siarad Cymraeg "yn rhugl" neu'n "weddol dda" yn gymwys i'r arolwg. Edrychwch ar adran 5.4.1 o'r Adroddiad Technegol am fwy o fanylion ar ddosbarthu iaith a sgrinio.

Roedd yr asesiadau llythrennedd a rhifedd Saesneg wedi eu gosod ar hap yn y sgript fel bod 50 y cant o'r sampl wedi derbyn yr asesiad llythrennedd yn gyntaf a 50 y cant wedi derbyn eu hasesiad rhifedd yn gyntaf[88], fel y dull a ddefnyddiwyd yn 2004. I'r ddau arolwg roedd dewis wedi'i raglennu i'r sgript fel y gellid hepgor y ddau asesiad[89].

Ar gyfer y ddau arolwg ble roedd yr ymatebydd dan 18 mlwydd oed ac yn byw yn yr un cartref a'i rieni neu'u gwarcheidwaid, roedd angen i'r holwyr gael caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni i'w mab/merch gymryd rhan yn y cyfweliad. Cynigiwyd taleb rhodd stryd fawr o £10 i ymatebwyr y ddau arolwg fel sbardun i gymryd rhan.

### 2.4 Prosesu Data a Dadansoddiad

Mesurwyd lefelau terfynol llythrennedd a rhifedd Saesneg a llythrennedd Cymraeg yn wahanol. Ar gyfer yr asesiad llythrennedd Saesneg, cysylltwyd y 'lefel' terfynol â pha mor anodd oedd y cwestiynau ar y cam terfynol[90]. Seiliwyd lefel y rhifedd, fodd bynnag, ar sgôr cyfanswm a bwysolwyd o bob eitem unigol[91].

Marciwyd y sgriptiau cyfrwng Cymraeg â llaw gan arholwyr annibynnol gyda phrofiad o farcio sgriptiau arholiad cyfrwng Cymraeg ar ran Cyd Bwyllgor Addysg Cymru. Defnyddiodd yr arholwyr yr un system sgorio â'r un a ddefnyddiwyd yn 2004;

---

[88] Disgwylid i flinder yr ymatebydd fod yn ffactor anochel ond llwyddodd y cynllun hwn i gydraddoli'r effeithiau rhwng y ddau asesiad.

[89] Rhoddwyd y dewis i barhau â'r asesiad i bob un o'r ymatebwyr oedd wedi dweud na allent ddarllen Cymraeg/Saesneg pan ofynnwyd iddynt yn yr holiadur cyd-destunol; ymatebwyr a ddwedodd fod eu darllen yn Gymraeg/Saesneg yn wael ac oedd angen cyfieithiad llafar llawn i fynd drwy'r holiadur cyd-destunol, a'r ymatebwyr oedd angen cymorth gyda'r holiadur cyd-destunol am fod eu golwg yn wael.

[90] H.y. pe bai'r ymatebydd yn mynd i'r afael â chwestiynau cymharol anodd ar y diwedd, byddai hi/ef yn fwy tebygol o gael ei ddosbarthu ar lefel uwch na rhywun oedd yn ateb cwestiynau cymharol hawdd ar y diwedd.

[91] E.e. roedd ateb cwestiwn Lefel 2 yn llwyddiannus yn sgorio 5 pwynt, tra roedd ateb cwestiwn Mynediad Lefel 1 yn llwyddiannus yn sgorio 1 pwynt.

diweddarwyd y canllawiau marcio gwreiddiol ychydig ar gyfer arolwg 2010 a chynhwyswyd peth eglurhad a rhai cyfarwyddiadau am gofnodi data.

Cyfunwyd y data o'r ddau arolwg i un set data Pecyn Ystadegol i'r Gwyddorau Cymdeithasol (SPSS) a chynhyrchwyd y ddwy set ddilynol o dablau data a bwysolwyd:

- Set A: Yr holl ddata o'r arolwg cyfrwng Saesneg, gan gynnwys y sgoriau o'r asesiadau Saesneg, i'w defnyddio ar gyfer amcangyfrifon cenedlaethol;
- Set B: Yr holl ddata o'r arolwg cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys sgoriau o'r asesiad Cymraeg) wedi'u cyfuno â data o'r holiadur cyd-destunol o'r sampl o aelodau oedd yn siarad Cymraeg o'r arolwg cyfrwng Saesneg, i'w defnyddio mewn dadansoddiad mwy trylwyr ymhlith siaradwyr Cymraeg.

Defnyddiwyd y croes-doriadau a gynhwyswyd ar dablau yn y ddau arolwg yn 2004 fel sail i ystyriaeth ar gyfer arolwg 2010. Edrychwch ar adran 6.5.2 yn yr Adroddiad Technegol am restr lawn o'r newidynnau a ddefnyddiwyd fel croes-doriadau yn 2010. Am fanylion technegol pellach o gynllun yr arolwg, holiadur ac asesiadau, pwysoli a phrosesu data, gwelwch yr Adroddiad Technegol.

# 3. Canlyniadau'r Arolwg Cyfrwng Saesneg

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn trafod canlyniadau'r arolwg cyfrwng Saesneg a'r asesiadau llythrennedd a rhifedd perthynol. Gan ddechrau gyda thrafodaeth am y prif ganlyniadau llythrennedd a rhifedd yn 2010 o'i cymharu â rhai arolwg 2004, â'r bennod hon ymlaen i ystyried sgiliau mewn perthynas â ffactorau demograffig, fel oed, rhyw a ble mae pobl yn byw yng Nghymru. Dadansoddir canlyniadau'r arolwg yn nhermau ble cafodd ymatebwyr eu geni, eu cymwysterau neu nodweddion eu cyflogaeth ac i ystyried os yw'r rhain yn gysylltiedig â lefelau llythrennedd a rhifedd,.

Wedyn edrychir ar ganlyniadau asesiad llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun nodweddion y cartref, i chwilio am unrhyw gysylltiadau posibl rhwng y canlyniadau a maint teuluoedd yr ymatebwyr, eu statws priodasol neu ddaliadaeth eu cartref. Edrychodd arolwg 2010 ar ganlyniadau'r asesiadau yn nhermau canfyddiadau'r ymatebwyr am eu hiechyd eu hunain ac oedden nhw'n hawlio unrhyw fudd-daliadau gan y wladwriaeth neu gredydau treth a thrafodir y rhain hefyd.

Mae ail adran y bennod yn archwilio canlyniadau asesiad drwy gefndir addysgol, y cyswllt â chymwysterau ffurfiol ac effeithiau oed gadael ysgol a hanes addysgol y rhieni. Dilynir hyn yn yr adran nesaf gan arolwg o'r canlyniadau yn eu perthynas â chyflogaeth a bod yn ddi-waith, gweithio amser llawn neu ran amser ymhlith y rhai â gwahanol lefelau llythrennedd a rhifedd. Â'r dadansoddiad ymlaen i edrych ar y cysylltiadau rhwng sgiliau sylfaenol a phroffiliau galwedigaethol ac yn olaf ystyried y mater o enillion yn eu perthynas â llythrennedd a rhifedd.

Mae adran pedwar y bennod hon yn ystyried yr arolwg ac asesiad canlyniadau yng nghyd-destun canfyddiadau'r ymatebwyr eu hunain am eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ac effeithiau hynny ar eu cysylltiad â chyflogaeth a chyfathrebu yn eu hamgylchiadau bob dydd. Archwilir hefyd agweddau'r ymatebwyr at berchnogaeth llyfrau a materion yn ymwneud â chynhwysiad digidol yng nghyd-destun canlyniadau'r asesiad. Mae adran olaf y bennod yn edrych ar brofiadau hyfforddiant llythrennedd a rhifedd, a ffynonellau cyngor a chymorth.

## 3.2 Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd a Nodweddion Demograffig

Mae adran hon yr adroddiad yn edrych ar brif ganlyniadau llythrennedd a rhifedd ac yn cymharu'r canlyniadau hyn â rhai o'r arolwg blaenorol a wnaed yn 2004. Â yn ei flaen i edrych mewn mwy o fanylder ar ganlyniadau'r asesiad mewn perthynas â nodweddion demograffig y cartrefi ble maent yn byw.

*Casgliadau Allweddol*

- Mae lefelau llythrennedd wedi gwella'n sylweddol ers 2004. Cafodd 88 y cant o bobl yn yr arolwg eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch. (O'i gymharu â 75 y cant yn 2004).
- Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua 234,000 yn nifer yr unigolion gyda diffyg llythrennedd sylfaenol yng Nghymru (o 450,000 yn 2004 i 216,000 yn 2010).
- Cynyddodd lefelau rhifedd hefyd, gyda 50 y cant o ymatebwyr yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (o'i gymharu â 47 y cant yn 2004).
- Fodd bynnag lledodd y bwlch rhwng llythrennedd a rhifedd. Dosbarthwyd pedair gwaith gymaint o bobl ar Lefel Mynediad am rifedd ag a wnaed am lythrennedd yn arolwg 2010 - yn cynrychioli tua 918,000 o bobl ledled Cymru.
- Roedd merched ychydig yn fwy tebyg o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch na dynion am lythrennedd, er nad oedd y bwlch yn ystadegol arwyddocaol.
- Fodd bynnag roedd y bwlch rhyw mewn rhifedd yn hollol amlwg, gyda 60 y cant o ferched yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad, tra roedd y ffigwr i ddynion yn 41 y cant.
- Cysylltir daliadaeth tai hefyd â lefel sgiliau. Roedd y rhai â lefelau isaf llythrennedd a rhifedd yn llai tebyg o fod yn berchen ar eu cartrefi ac yn fwy tebyg o fod yn byw mewn tai'r awdurdod lleol neu gymdeithas dai o'u cymharu â'r ymatebwyr i gyd.
- Roedd y rhai â'r lefelau uchaf o lythrennedd a rhifedd yn llai tebyg na'r ymatebwyr yn gyffredinol o hawlio ryw fath o fudd-dal y wladwriaeth neu gredyd treth. Yn gyffredinol roedd 40 y cant o'r sampl yn hawlio budd-daliadau o ryw fath.

### *3.2.1 Lefelau llythrennedd a rhifedd Saesneg yn gyffredinol*

Aseswyd y rhai oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg am eu sgiliau llythrennedd Saesneg a rhifedd a dosbarthwyd y canlyniadau fesul Lefel[92]. Dengys y canlyniadau, a ddangosir yn Nhabl 1 isod fod 88 y cant o'r rhai oedd yn cymryd rhan yn Saesneg wedi'u dosbarthu ar Lefel 1 neu'n uwch am lythrennedd. Gwelir Lefel 1 fel isafswm y sgiliau y mae eu hangen ar unigolion ar gyfer bywyd bob dydd, er enghraifft galluogi

[92] Gweler adran 1.2 o'r adroddiad am drafodaeth ar Lefelau.

unigolyn i ymdopi â gofynion darllen ac ysgrifennu bob dydd[93]. Mae'r canlyniad yn welliant trawiadol ar 75 y cant a gofnodwyd yng nghanlyniadau arolwg 2004 ar Lefel 1 neu'n uwch. Ar y cyfan mae hyn yn gyfwerth â 216,000 o oedolion oed gweithio ledled Cymru â lefelau llythrennedd dan Lefel 1 yn 2010, o'i gymharu ag amcangyfrif o 450,000 yn arolwg 2004.

**Tabl 1 Lefelau llythrennedd a rhifedd yn gyffredinol[94]**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Lefel Llythrennedd | | Lefel Rhifedd | |
|---|---|---|---|---|
| | % 2010 | % 2004 | % 2010 | % 2004 |
| Lefel Mynediad 1 (EL1) neu'n is | 3 | 4 | 5 | 7 |
| Lefel Mynediad 2 (EL2) | 2 | 3 | 17 | 20 |
| Lefel Mynediad 3 (EL3) | 7 | 18 | 29 | 26 |
| Cyfanswm Lefel Mynediad | 12 | 25 | 51 | 53 |
| Lefel 1 (L1) | 29 | 37 | 29 | 25 |
| Lefel 2 (L2) neu'n uwch | 59 | 38 | 21 | 22 |
| Sail a bwysolwyd | 2115 | 2555 | 2119 | 2555 |
| Sail na phwysolwyd | 2116 | 2555 | 2117 | 2555 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiadau llythrennedd a rhifedd

O edrych ar y canlyniadau yn Nhabl 1 yn fwy manwl, aseswyd 59 y cant o ymatebwyr ar Lefel 2 neu'n uwch mewn llythrennedd ac roedd hyn yn cyfrif am y newid mwyaf mewn lefelau asesiad ers arolwg 2004, gyda chynnydd o 21 pwynt canran yn y gyfran o unigolion oedd yn cyrraedd y lefel hwn. Cafodd y symudiad hwn ei ategu gan ostyngiad yn y ganran o unigolion ar bob lefel oedd yn is na Lefel 2, gan gynnwys gostyngiad o 11 pwynt canran yn y gyfran o asesiadau ar Lefel Mynediad 3, y lefel uchaf oedd yn is na Lefel 1.

Dengys Tabl 1 fod canlyniadau'r asesiad rhifedd yn well yn arolwg 2010 nag yn 2004, gyda 50 y cant yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, cynnydd o'r 47 y cant a recordiwyd yn2004, er efallai nad oedd y ffin hon yn ddigon i gael ei hystyried yn ystadegol arwyddocaol. Gwelwyd symudiad yn y canlyniadau yn Lefel 1, gyda chynnydd o 25 i 29 y cant, a gyda chanran ar Lefel 2 neu'n fwy yn syrthio ychydig (o 22 i 21 y cant). Roedd hefyd ychydig o symudiad i fyny yng nghanlyniadau Lefel

[93] Er enghraifft Bynner a Parsons, dyfynnwyd yn Adroddiad Moser, 1999.
[94] Dylid nodi nad yw'r canrannau yn rhai o'r colofnau'n yn gwneud cyfanswm o 100%. Canlyniad talgrynnu yw hyn a gall ddigwydd yn y tablau i gyd gan gynnwys y seiliau sydd wedi'u pwysoli. Er enghraifft, cyfanswm 49.5% a 50.5% yw 101% os caiff ei dalgrynnu at y rhif cyflawn agosaf.

Mynediad Rhifedd, gyda chynnydd yn y ganran o unigolion sy’n cael eu dosbarthu ar Lefel Mynediad 3 a chwymp cyfatebol yn Lefelau Mynediad isaf.

Fodd bynnag mae’r gwahaniaeth yng nghanlyniadau llythrennedd a rhifedd yn drist, gyda mwy na phedair gwaith gymaint o ymatebwyr yn cael eu dosbarthu ar Lefel Mynediad am rifedd nag am lythrennedd. Mae’r bwlch hwn wedi dyblu ers yr arolwg blaenorol ac y mae’n awgrymu fod tua 918,000 o unigolion ledled Cymru â lefel rhifedd sy’n is na Lefel 1, er bod hyn yn dal i fod yn 72,000 yn llai na’r arolwg blaenorol. O’r rhain, byddai 396,000 yn cael eu dosbarthu yn y ddau lefel isaf, Lefelau Mynediad 1 a 2.

Nid yn unig mae lefelau rhifedd yn is na rhai llythrennedd yn gyffredinol, ond mae’n ymddangos o Dabl 2 fod unigolion yn debyg o gael eu hasesu ar lefel is am rifedd, hyd yn oed er fod eu sgiliau llythrennedd a Lefel Mynediad Rhifedd, yn gymharol dda. Felly er bod 90 y cant o’r rhai â Lefel Mynediad llythrennedd hefyd â Lefel Mynediad rhifedd, canfuwyd fod 70 y cant o’r rhai â Lefel 1 llythrennedd a 33 y cant â Lefel 2 llythrennedd â sgiliau rhifedd Lefel Mynediad. Dim ond 30 y cant o’r rhai a gafodd eu hasesu ar Lefel 2 am lythrennedd oedd hefyd wedi’u hasesu ar y lefel honno am rifedd a dim ond 2 y cant o’r ymatebwyr a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd gafodd eu hasesu ar Lefel 2 am rifedd.

**Tabl 2 Lefelau Rhifedd mewn Lythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Lefel Llythrennedd | | |
|---|---|---|---|
| **Lefel Rhifedd** | **% Lefel Mynediad** | **% Lefel 1** | **% Lefel 2 neu’n Uwch** |
| Lefel Mynediad | 90 | 70 | 33 |
| L1 | 8 | 21 | 37 |
| L2 neu’n uwch | 2 | 9 | 30 |
| Sail a bwysolwyd **2104** | 248 | 622 | 1234 |
| Sail na phwysolwyd **2102** | 282 | 626 | 1194 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiadau llythrennedd a rhifedd

Gellir edrych ar y canlyniadau hyn mewn ffordd ychydig yn wahanol, drwy fynegi’r data ymhob cell fel cyfran o gyfanswm yr ymatebwyr (Tabl 3). Dengys hyn y gyfran o ymatebwyr sydd â chyfuniad sgoriau asesiad llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae Tabl 3 yn dangos fod 18 y cant o’r ymatebwyr yn gyffredinol wedi’u hasesu ar

Lefel 2 neu'n uwch mewn llythrennedd a rhifedd - oedd yn gynnydd o 3 pwynt canran yn uwch na chanlyniad 2004. Ar ben arall y raddfa, aseswyd 11 y cant ar Lefel Mynediad i'r ddau. Tra bod hyn yn dal i fod yn rhif sylweddol (cyfwerth â thua 198,000 o oedolion oed gweithio), mae'n cynrychioli llai na hanner y gyfran o'r rhai a aseswyd yn 2004 ar y lefel hon am lythrennedd a rhifedd

**Tabl 3 Lefelau llythrennedd cyffredinol yn erbyn lefelau rhifedd**
**Allwedd: Darllen ar draws y tabl cyfan**

| | Lefel Llythrennedd | | |
|---|---|---|---|
| **Lefel Rhifedd** | **% Lefel Mynediad** | **% Lefel 1** | **% Lefel 2 neu'n Uwch** |
| Lefel Mynediad | 11 | 21 | 19 |
| L1 | 1 | 6 | 22 |
| L2 neu'n uwch | <1 | 3 | 18 |
| Sail a bwysolwyd 2104 | 248 | 622 | 1234 |
| Sail na phwysolwyd 2102 | 282 | 626 | 1194 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiadau llythrennedd a rhifedd

Yn nhermau'r berthynas rhwng sgoriau llythrennedd a rhifedd, mae gwrthgyferbyniad sylweddol rhwng y llai nag 1 y cant a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch am rifedd ond ar Lefel Mynediad i llythrennedd, a'r 19 y cant a gafodd eu hasesu ar Lefel 2 mewn llythrennedd, ond ar Lefel Mynediad am rifedd.

*3.2.2 Rhyw*

Gellir torri i lawr ganlyniadau'r asesiad i ddangos y gwahaniaeth yng nghanlyniadau'r dynion a'r merched, am lythrennedd a rhifedd. Mae'r canlyniadau yn Nhabl 4 yn dangos mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng cyfran y gwrywod a'r menywod a gafodd eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch yn 2010 (89 y cant o fenywod ac 87 y cant o wrywod). Er bod merched ychydig yn fwy tebygol yn gyffredinol o gyrraedd Lefel 1 neu'n uwch yn yr asesiadau llythrennedd, roedd dynion ychydig yn fwy tebygol o gael eu hasesu naill ai ar Lefel 2 neu'n uwch (60 y cant o'i gymharu â 57 y cant i ferched) neu ar Lefel Mynediad (13 y cant i ddynion, 11 y cant i ferched). Fodd bynnag nid yw'r gwahaniaethau hyn rhwng y rhywiau yn ystadegol arwyddocaol.

Cynyddodd sgoriau dynion a merched mewn ffigyrau digon tebyg rhwng 2004 a 2010, gyda chynnydd o 12 pwynt canran yng nghyfran y dynion a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch (o 75 y cant yn 2004 i 87 y cant yn 2010). Roedd 13 pwynt canran o

gynnydd yn y gyfran o ferched a aseswyd ar Lefel 1 neu’n uwch (o 76 y cant yn 2004 i 89 y cant yn 2010). Gweler Tabl 4.

**Tabl 4 Rhyw a Llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Rhyw | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **% Cyfanswm** | | **% Gwrywod** | | **% Menywod** | |
| | **2010** | **2004** | **2010** | **2004** | **2010** | **2004** |
| Lefel Mynediad | 12 | 25 | 13 | 25 | 11 | 24 |
| L1 | 29 | 37 | 27 | 35 | 32 | 39 |
| L2 neu’n uwch | 59 | 38 | 60 | 40 | 57 | 37 |
| Sail a bwysolwyd | 2115 | 2555 | 1041 | 1257 | 1075 | 1298 |
| Sail na phwysolwyd | 2116 | 2555 | 882 | 1092 | 1234 | 1463 |

Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad llythrennedd

Roedd, fodd bynnag, llawer mwy o wahaniaeth rhwng perfformiad y dynion a merched yn yr asesiad rhifedd, fel y dangosir yn Nhabl 5. Yn arolwg 2010, aseswyd 60 y cant o ddynion ar Lefel 1 neu’n uwch am rifedd, tra bod 40 y cant o ferched wedi’u hasesu ar y lefel honno. Yn y ffigyrau hyn, aseswyd 29 y cant o ddynion ar Lefel 2 neu’n uwch, yn erbyn 13 y cant o ferched. Roedd y gwahaniaeth hwn hefyd yn yr arolwg blaenorol ac yn yr asesiadau yn Lloegr yn 2003[95], sy’n awgrymu nad yw hyn i’w briodoli i gamgymeriad arolwg, ond yn ffenomenon weladwy.

**Tabl 5 Rhyw a rhifedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Rhyw | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **% Cyfanswm** | | **% Gwrywod** | | **% Benywod** | |
| | **2010** | **2004** | **2010** | **2004** | **2010** | **2004** |
| Lefel Mynediad | 51 | 53 | 41 | 46 | 60 | 61 |
| L1 | 29 | 25 | 31 | 24 | 27 | 25 |
| L2 neu’n uwch | 21 | 22 | 29 | 30 | 13 | 14 |
| Sail a bwysolwyd | 2119 | 2555 | 1043 | 1257 | 1075 | 1298 |
| Sail na phwysolwyd | 2117 | 2555 | 884 | 1092 | 1233 | 1463 |

Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad rhifedd

[95] Arolwg Sgiliau Bywyd: arolwg o anghenion cenedlaethol ac effaith llythrennedd, rhifedd a sgiliau TGCh. DfES, 2003

Mae'r gwahanu parhaol hwn yn arbennig o bwysig gan fod gwaith ymchwil cynharach yn Lloegr wedi dod i'r casgliad fod "*merched â sgiliau rhifedd gwael dan fwy o anfantais na dynion (gyda'r un sgiliau rhifedd)*"[96] a bod sgiliau rhifedd gwael yn gosod problemau arbennig i gyflogadwyedd: "*Mae merched â sgiliau rhifedd gwael yn llai tebyg o fod mewn gwaith amser llawn, yn fwy tebyg o fod mewn swyddi lled-fedrus neu swyddi di-grefft os ydynt wedi'u cyflogi, neu'n debycach o fod yn ymwneud â gofalu yn y cartref ac yn fwy tebygol o fod mewn teulu sy'n ddi-waith*".[97]

*3.2.3 Oed*

Casglodd yr arolwg ddata ar y rhai o oedran 16-65 a dengys dadansoddiad yn ôl grŵp oedran fod tuedd i'r rhai iau (16-19 mlwydd oed)[98] a'r rhai hŷn (55-65 mlwydd oed) gael eu hasesu ar lefel is na'r rhai mewn grwpiau oed eraill, am lythrennedd a rhifedd. Roedd hyn yn wir hefyd yn arolwg 2004 yng Nghymru ac Arolwg Sgiliau Bywyd yn Lloegr yn 2003[99].

Dengys Tabl 6 fod gwelliannau yn sgoriau asesiad llythrennedd ym mhob un o fandiau oedran rhwng 2004 a 2010, er bod y gwelliannau mwyaf sylweddol yn nhermau canran yn y bandiau canol oed, oedd hefyd â'r lefelau uchaf o lythrennedd a aseswyd. Er enghraifft, syrthiodd y canran o'r rhai 35-44 mlwydd oed a aseswyd dan Lefel 1 i lai nag 8 y cant yn 2010 o 21 y cant yn 2004, cwymp o fwy na 60 y cant o 2004.

**Tabl 6 Llythrennedd fesul oedran**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | | | | | | | **Oed** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **16-19** | | **20-24** | | **25-34** | | **35-44** | | **45-54** | | **55-65** | |
| **Lefel Llythrennedd** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** |
| Lefel Mynediad | 20 | 26 | 9 | 19 | 12 | 19 | 8 | 21 | 11 | 30 | 15 | 32 |
| L1 | 29 | 44 | 30 | 42 | 24 | 35 | 28 | 40 | 31 | 34 | 34 | 33 |
| L2 neu'n uwch | 51 | 30 | 61 | 44 | 64 | 46 | 64 | 39 | 58 | 36 | 52 | 35 |

Sail a bwysolwyd 2115/2555
Sail na phwysolwyd 2116/2555
Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad llythrennedd

[96] Does Numeracy Matter More? Samantha Parsons a John Bynner, NRDC, 1998.
[97] New Light on Numeracy J.Bynner a S.Parsons, NRDC 2006.
[98] Dewiswyd bandiau oed i ganiatáu cymariaethau ag arolygon blaenorol.
[99] Op cit

Yn yr asesiadau llythrennedd (Tabl 6), aseswyd 20 y cant o bobl ifanc 16-19 mlwydd oed ar Lefel Mynediad, yn erbyn ffigwr pob oedran o 12 y cant. Roedd hyn yn welliant ar ganlyniadau arolwg 2004, pan gafodd 26 y cant o grŵp 16-19 eu hasesu ar Lefel Mynediad. Fodd bynnag, roedd lefelau asesiad llythrennedd ymhlith y grŵp oedran 16-19 yn 2004 yn is na'r ffigwr pob oedran yn yr un ffordd ag yr oeddent yn arolwg 2010.

Felly mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu fod unigolion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd ar ôl gadael ysgol - pwynt a wnaed yn Arolwg Sgiliau Bywyd 2003 yn Lloegr [100], a ddwedodd fod "*peth tystiolaeth i awgrymu y gellid disgwyl i ymatebwyr ifanc berfformio ar lefel is na grwpiau oedran hŷn, am fod eu sgiliau'n parhau i ddatblygu ar ôl diwedd eu haddysg amser llawn, yn arbennig os yw'r gwaith yn mynnu hynny.*"

Roedd darlun tebyg yn nhermau asesiadau rhifedd, gyda lefelau is o sgiliau wedi'u hasesu ymhlith y grwpiau oedran iau a'r grwpiau oedran hŷn. Dengys Tabl 7 fod yr ymatebwyr o oedran 25 hyd at 55 yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar lefelau tebyg yn yr asesiad rhifedd, tra bod eraill ar ddau ben graddfa oedran eto'n fwy tebygol yn gyffredinol na'r ymatebwyr eraill o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad. Dangosodd yr asesiadau ymhlith y grŵp oed 16-19 eto fod y gyfran isaf o unigolion ar Lefel 1 neu'n uwch (40 y cant), tra roedd gan y rhai yng nghategorïau 35- 44 a 45-54 y gyfran uchaf (54 y cant). Ymddengys fod ymatebwyr eto'n adeiladu ar eu lefelau sgiliau ar ôl oedran 19, er i raddau llai nag yn achos llythrennedd.

**Tabl 7 Rhifedd fesul Oedran**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Oedran | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16-19 | | 20-24 | | 25-34 | | 35-44 | | 45-54 | | 55-65 | |
| **Lefel Llythrennedd** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** | **2010 %** | **2004 %** |
| Lefel Mynediad | 60 | 60 | 56 | 53 | 47 | 45 | 46 | 53 | 47 | 53 | 54 | 61 |
| L1 | 25 | 25 | 27 | 23 | 30 | 29 | 31 | 24 | 31 | 24 | 28 | 23 |
| L2 neu'n uwch | 15 | 14 | 17 | 24 | 23 | 26 | 23 | 23 | 23 | 23 | 18 | 17 |

Sail a bwysolwyd 2115/2555

Sail na phwysolwyd 2116/2555


[100] Op cit

Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad llythrennedd

### *3.2.4 Oedran a Rhyw*

Gellir dadansoddi canlyniadau'r arolwg ymhellach i ganfod unrhyw wahaniaethau mewn effeithiau oed rhwng dynion a merched. Dengys Ffigur 1y gwahaniaeth yng nghanlyniadau asesiad llythrennedd rhwng 2004 a 2010 yn ôl grŵp oed a rhyw, ac mae'r canlyniadau'n dangos fod gwelliannau yn sgoriau llythrennedd yn y grwpiau oedran 16-34 a 35-65, a'r ddau ryw rhwng 2004 a 2010

**Ffigur 1 – Rhyw, oedran a llythrennedd**





Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad llythrennedd

Roedd, fodd bynnag, wahaniaeth clir ym mherfformiad cymharol dynion a merched. Cynyddodd graddau asesiad dynion ar Lefel 1 neu'n uwch i raddau tebyg ar draws y ddau fand oedran (13 pwynt canran i oed 16-34 a 12 pwynt canran i oed 35-65). Roedd gwahaniaeth, fodd bynnag, ym mherfformiad y merched, gyda'r asesiad ar Lefel 1 neu'n uwch yn y band hŷn yn cynyddu o 19 pwynt canran, tra mai dim ond 3 pwynt canran o gynnydd oedd i grŵp oed 16-34 mlwydd oed.

Mae Ffigur 2 yn edrych ar gymhariaeth debyg mewn perthynas ag asesiadau rhifedd a ddadansoddwyd yn ôl oed a rhyw. Dengys y graff mai ychydig iawn sy'n newid ym mherfformiad dynion gydag oed yn eu hasesiadau rhifedd, ond eto roedd merched yn y grŵp oed iau yn perfformio'n salach na'u cymheiriaid hŷn. Sgoriodd y rhai rhwng

16 a 34 mlwydd oed yn is yn 2010 (36 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch) na merched o'r grŵp oed hwnnw yn 2004 (43 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch), tra roedd gwelliant yn sgoriau'r grŵp merched hŷn (35-65) dros y cyfnod hwnnw, o 37 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch yn 2004 i 45 y cant yn 2010.

**Ffigur 2 – Rhyw, oedran a rhifedd**




Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad rhifedd

*3.2.5 Llythrennedd, rhifedd a rhanbarth*

Mae adran hon o'r adroddiad yn trafod llythrennedd a rhifedd yn ôl rhanbarth. Trwy leoliad mae'r adroddiad yn cyfeirio at ble roedd pobl oedd yn cymryd rhan yn byw adeg yr arolwg ac nid yw o anghenraid yn golygu eu bod wedi'u geni yno. Y rhanbarthau a ddefnyddiwyd yw rhanbarthau safonol y DfES yng Nghymru (Canolbarth, Gogledd, De Ddwyrain a'r De Orllewin).[101] Nid oedd yn bosibl cynnig dadansoddiad yn ôl y 22 ardal awdurdod lleol sy'n creu'r rhanbarthau gan nad oedd digon o sampl arolwg i gynnig set ddata cadarn i bob un o'r ardaloedd hyn.

Dengys Tabl 8 fod gwahaniaeth amlwg ym mherfformiad ymatebwyr yn yr asesiad llythrennedd yn ôl y rhanbarth ble roeddent yn byw, er efallai mai nad y lleoliad ei hun oedd y prif ffactor yn effeithio hyn. Mae'r canlyniadau'n dangos fod ymatebwyr

[101] Ffurfiwyd y rhanbarthau hyn yn 2010 yng Nghymru, gan gymryd lle yr ardaloedd blaenorol – Gogledd Cymru, De Orllewin a Chanolbarth Cymru, De Cymru a De Ddwyrain Cymru.

Canolbarth Cymru yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (92 y cant yn erbyn cyfanswm Cymru o 88 y cant), tra mai'r ymatebwyr oedd yn byw yng Ngogledd Cymru oedd y rhai tebycaf i gael eu hasesu ar Lefel Mynediad (14 y cant yn erbyn cyfanswm Cymru o 12 y cant). Yn y ffigyrau hyn ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru oedd y rhai tebycaf i berfformio ar y lefel uchaf mewn llythrennedd: 68 y cant yn cyrraedd Lefel 2 neu'n uwch, o'i gymharu â ffigwr i Gymru gyfan o 59 y cant.

Yn gyffredinol roedd lefelau asesiadau i ymatebwyr oedd yn byw yng ngogledd Cymru yn debyg iawn i'r rhai oedd yn byw yn Ne Orllewin Cymru, tra roedd canlyniadau o Ogledd Ddwyrain Cymru, sy'n tra arglwyddiaethu o ran poblogaeth, yn debyg iawn i gyfanswm Cymru gyfan.

**Tabl 8 – Llythrennedd a rhanbarth**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| | Lefel Llythrennedd a Aseswyd | | |
|---|---|---|---|
| | **5% Lefel Mynediad** | **% Lefel 1** | **% Lefel 2 neu'n uwch** |
| Cymru | 12 | 29 | 59 |
| Gogledd Cymru | 14 | 31 | 55 |
| Canolbarth Cymru | 8 | 24 | 68 |
| De Orllewin Cymru | 12 | 32 | 56 |
| De Ddwyrain Cymru | 12 | 29 | 60 |
| Sail a bwysolwyd 2115 | | | |
| Sail na phwysolwyd 2116 | | | |

Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad llythrennedd

Dangosodd canlyniadau rhifedd yn ôl rhanbarth (Tabl 9) broffil tebyg (er ar lefel llawer is yn gyffredinol), gan fod ymatebwyr oedd yn byw yng Nghanolbarth Cymru yn llawer tebycach o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (61 y cant) na chyfanswm Cymru (50 y cant), tra roedd y rhai yn Ne Orllewin Cymru â'r sgoriau rhifedd isaf (55 y cant ar Lefel Mynediad yn erbyn cyfanswm Cymru o 50 y cant). Fel gydag asesiadau llythrennedd, roedd proffil Gogledd Cymru a De Orllewin Cymru'n debyg, tra roedd proffil De Ddwyrain Cymru yn agos at y ffigwr i Gymru gyfan.

**Tabl 9 – Rhifedd a rhanbarth**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| | Lefel rhifedd a aseswyd | | |
|---|---|---|---|
| | **% Lefel** | **% Lefel 1** | **% Lefel 2** |

| | Mynediad | | neu’n Uwch |
|---|---|---|---|
| Cymru | 50 | 29 | 21 |
| Gogledd Cymru | 53 | 27 | 19 |
| Canolbarth Cymru | 39 | 34 | 27 |
| De Orllewin Cymru | 55 | 29 | 17 |
| De Ddwyrain Cymru | 49 | 29 | 22 |
| Sail a bwysolwyd 2119 | | | |
| Sail na phwysolwyd 2117 | | | |

Sail: Pawb a gwblhaodd yr asesiad rhifedd

### *3.2.6 Lythrennedd, rhifedd a ble ganed yr ymatebydd*

Gofynnwyd i’r rhai oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg a oeddent wedi’u geni yng Nghymru, y tu allan i Gymru ond yn y DU, neu tu allan i’r DU ac wedyn roedd y canlyniadau yn cael eu perthnasu i’w sgoriau llythrennedd a rhifedd Saesneg. Dengys Tabl 10 fod pobl a aned yn y DU y tu allan i Gymru wedi’u hasesu â lefel uwch o lythrennedd (94 y cant Lefel 1 neu’n uwch ) na’r rhai a aned yng Nghymru (87 y cant Lefel 1 neu’n uwch) ac oedd yn llawer tebycach i gael eu hasesu ar Lefel 2 neu’n uwch (72 y cant yn erbyn 55 y cant i Gymru).

**Tabl 10 Llythrennedd a ble ganed yr ymatebydd**
Allwedd: Darllenwch i lawr y colofnau

| | Ble ganed yr ymatebydd | | |
|---|---|---|---|
| | **% Cymru** | **% Arall DU** | **% Tu Allan i’r DU** |
| Lefel Mynediad | 13 | 7 | 18 |
| L1 | 32 | 22 | 31 |
| L2 neu’n uwch | 55 | 72 | 51 |
| Sail a bwysolwyd 2134 | 1486 | 526 | 121 |
| Sail na phwysolwyd 2134 | 1493 | 524 | 116 |

Sail: Holl ymatebwyr

I’r gwrthwyneb aseswyd yr ymatebwyr a aned y tu allan i’r DU fel rhai â lefelau llythrennedd Saesneg is na’r rhai a aned yng Nghymru (82 y cant Lefel 1 neu’n uwch) sy’n ddealladwy, o ystyried fod tri chwarter o’r grŵp hwn yn dweud mai nid Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

### *3.2.7 Rhifedd a ble ganed yr ymatebydd*

Mae’r data yn Nhabl 11 yn dangos fod yr ymatebwyr a aned tu allan i Gymru hefyd yn fwy tebygol o ennill Lefel 1 neu’n uwch mewn rhifedd (61 y cant) na’r rhai a aned yng Nghymru (46 y cant).

**Tabl 11 Rhifedd a ble ganed yr ymatebydd**
**Allwedd : Darllen i lawr y colofnau**

| | Ble ganed yr ymatebydd | | |
|---|---|---|---|
| | **% Cymru** | **% Arall DU** | **% Tu allan i'r DU** |
| Lefel Mynediad | 54 | 40 | 54 |
| L1 | 28 | 31 | 29 |
| L2 neu'n uwch | 18 | 30 | 17 |
| Sail a bwysolwyd | 1475 | 522 | 120 |
| Sail na phwysolwyd | 1482 | 519 | 115 |

Sail: Yr ymatebwyr i gyd

Dangosodd yr ymatebwyr a aned tu allan i'r DU broffil rhifedd tebyg i'r rhai a aned yng Nghymru (54 y cant dan Lefel 1 ym mhob achos)

Nid oedd yn ymddangos fod perthynas glir rhwng sgoriau asesiad llythrennedd a rhifedd a'r oedran pryd y symudodd y rhai a aned mewn mannau eraill yn y DU i Gymru.

*3.2.8 Y defnydd o iaith ar wahân i Saesneg.*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ieithoedd roeddent yn eu siarad yn ddigon da i gynnal sgwrs ynddynt. Dywedodd y sampl cyfan eu bod yn siarad Saesneg, a dilynwyd hyn gan Gymraeg (19 y cant), Ffrangeg (9 y cant), Almaeneg (4 y cant) a Sbaeneg (3 y cant). Roedd ieithoedd eraill a siaredir yn cynnwys Pwyleg, Rwsieg ac Eidaleg ymhlith llawer o rai eraill, pob un yn cael ei siarad gan gyfran fach o'r sampl.

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn gallu siarad mwy nag un iaith beth oedd yr iaith gyntaf iddynt ei dysgu. I'r mwyafrif Saesneg oedd yr iaith honno (65 y cant), yn cael ei dilyn gan Gymraeg (25 y cant) a gan ganrannau llai o ystod eang o ieithoedd. Roedd llythrennedd Saesneg ymhlith y rhai a ddysgodd Saesneg yn gyntaf yn well (94 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch) na'r rhai a ddysgodd Gymraeg yn gyntaf (85 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch). Fodd bynnag roedd mwy o wahaniaeth yn nhermau sgiliau rhifedd; roedd gan 60 y cant o'r ymatebwyr a ddysgodd Saesneg yn gyntaf sgiliau rhifedd ar Lefel 1 neu'n uwch, tra roedd 44 y cant o'r rhai a ddysgodd Gymraeg yn gyntaf â sgiliau rhifedd ar y lefel honno.

*3.2.9 Llythrennedd a'r defnydd o'r Iaith Gymraeg*

Roedd lefel llythrennedd Saesneg ymhlith yr ymatebwyr oedd yn defnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith ar yr aelwyd gartref yn uwch yn 2010 nag oedd yn 2004. Mae Tabl 12 yn cymharu'r ymatebwyr a ddwedodd mai'r Gymraeg oedd y brif iaith a ddefnyddiwyd gartref yn arolwg 2010 a 2004.

**Tabl 12 Llythrennedd Saesneg a defnydd o'r Iaith Gymraeg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Y Gymraeg yn brif iaith yn y cartref** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **% Llythrennedd Saesneg 2010** | **% Llythrennedd Saesneg 2004** | **% Rhifedd 2010** | **% Rhifedd 2004** |
| Lefel Mynediad | 17 | 28 | 59 | 58 |
| L1 | 31 | 31 | 23 | 21 |
| L2 neu'n uwch | 53 | 42 | 19 | 20 |
| Sail a bwysolwyd | 576 | 165 | 577 | 166 |
| Sail na phwysolwyd | 562 | 340 | 561 | 340 |

Sail: Pob un oedd â'r Gymraeg fel y brif iaith yn y cartref

Roedd y gyfran a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch mewn llythrennedd yn 84 y cant yn 2010, gan gynyddu o 73 y cant yn 2004 ac yn fras rhywbeth yn debyg i'r newid yn yr holl sampl a aseswyd. Roedd lefelau rhifedd yn gymharol ddigyfnewid ymhlith y grŵp hwn dros y cyfnod.

**Tabl 13 Llythrennedd Saesneg a defnydd o'r iaith Gymraeg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Y Gymraeg yn brif iaith yn y cartref** | | |
|---|---|---|---|
| | **% Y Gymraeg yn brif iaith yn y cartref** | **%Y Gymraeg fel y brif iaith yn y gwaith/ ysgol** | **% yn fwy cyfforddus yn defnyddio'r iaith Gymraeg** |
| Lefel Mynediad | 17 | 18 | 15 |
| L1 | 31 | 24 | 32 |
| L2 neu'n uwch | 53 | 57 | 53 |
| Sail a bwysolwyd | 127 | 134 | 68 |
| Sail na phwysolwyd | 122 | 117 | 64 |

Sail: Pob un oedd â'r Gymraeg fel y brif iaith yn y cartref

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, er enghraifft gartref ac yn y gwaith/ysgol, ac ai'r Gymraeg oedd yr iaith roedden nhw'n teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio (Tabl 13). Doedd dim llawer o wahaniaeth yng nghanlyniadau'r asesiad llythrennedd Saesneg ar draws y tri

chategori; er y gyfran uchaf o ganlyniadau Lefel 2 oedd ymhlith y rhai oedd â'r Gymraeg fel eu prif iaith yn y gwaith ac yn yr ysgol.

### 3.3 Priodoleddau'r cartref

Yn yr adran hon, archwilir canlyniadau'r asesiad llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun prif nodweddion y cartref, er enghraifft y rhai sy'n byw mewn cartrefi oedolyn sengl, (gyda neu heb blant), statws priodasol, daliadaeth a mynediad i fudd-daliadau'r wladwriaeth. Dengys Tabl 14 fod cyfran uchel o asesiadau ar Lefel Mynediad i lythrennedd a rhifedd ymhlith y rhai oedd yn byw mewn cartref i oedolyn sengl.

**Tabl 14 Deiliad cartref oedolyn sengl a lefelau asesiad**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Pob cartref | | Deiliad cartref oedolyn sengl (16+) | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Asesiad llythrennedd** | **% Asesiad Rhifedd** | **% Asesiad llythrennedd** | **% Asesiad Rhifedd** |
| Lefel Mynediad | 12 | 50 | 18 | 57 |
| L1 | 29 | 29 | 29 | 26 |
| L2 neu'n uwch | 59 | 21 | 53 | 17 |
| Sail a bwysolwyd | 2134 | 2119 | 304 | 304 |
| Sail na phwysolwyd | 2134 | 2117 | 558 | 558 |

Sail: Pob un a gwblhaodd asesiad llythrennedd Saesneg

Roedd yr ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad hefyd yn debycach nag ymatebwyr yn gyffredinol i fod yn sengl ac erioed wedi priodi, wedi gwahanu/ysgaru, neu o fod yn weddw (Tabl 15). Ni fydd effeithiau oedran yn cael eu hystyried yma, dim ond fod y rhai iau yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad a bod y rhain hefyd yn fwy tebygol o fod yn sengl. Roedd 98 y cant o'r rhai rhwng 16-19 mlwydd oed a 93 y cant o'r rhai rhwng 20-24 mlwydd oed yn y sampl yn sengl a heb briodi erioed yn erbyn y cyfanswm o 35 y cant o bob oedran. Ar ben arall y raddfa, roedd 77 y cant o'r rhai oedd yn disgrifio eu hunain fel rhai gweddw yn yr oedran 55-65, sydd eto ag effaith ar y lefel asesiad tebygol. Roedd y rhai oedd wedi gwahanu neu wedi ysgaru'n fwy tebygol o fod yn y grŵp oedran 35-54, oedd yn debycach o gael eu hasesu ar Lefel 1neu'n uwch yn eu hasesiadau llythrennedd na'r rhai o grwpiau oedran eraill.

**Tabl 15 Statws Priodasol a lefelau asesiad llythrennedd**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Statws Priodasol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Sengl ac erioed wedi priodi** | **% Wedi priodi; yn byw gyda'i briod/phriod** | **% Wedi gwahanu/ ysgaru** | **% Gweddw** | **% Gwrthod / ddim yn gwybod** |
| Lefel Mynediad | 14 | 9 | 15 | 24 | 0 |
| L1 | 26 | 31 | 31 | 43 | [20][102] |
| L2 neu'n uwch | 59 | 60 | 54 | 34 | [80] |
| Sail a bwysolwyd | 749 | 1070 | 226 | 41 | 25 |
| Sail na phwysolwyd | 796 | 914 | 313 | 66 | 21 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd Saesneg

Roedd canlyniadau asesiadau rhifedd (Tabl 16) yn debyg, yn yr ystyr fod y rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad yn debycach nag ymatebwyr ar draws holl lefelau rhifedd i fod yn sengl, wedi gwahanu/wedi ysgaru neu'n weddwon.

**Tabl 16 Statws priodasol a lefelau asesiad rhifedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | Statws Priodasol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Sengl ac erioed wedi priodi** | **% Wedi priodi ac yn byw gyda'r priod** | **% wedi gwahanu, ysgaru** | **% Gweddw** | **% Gwrthod / ddim yn gwybod** |
| Lefel Mynediad | 53 | 48 | 54 | 74 | [27] [103] |
| L1 | 28 | 29 | 29 | 21 | [61] |
| L2 neu'n uwch | 19 | 23 | 17 | 5 | [12] |
| Sail a bwysolwyd | 747 | 1077 | 226 | 41 | 25 |
| Sail na phwysolwyd | 794 | 918 | 313 | 66 | 21 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

### *3.3.1 Daliadaeth*

Mae cysylltiadau hefyd rhwng Lefelau llythrennedd a rhifedd a pherchnogaeth cartref. Mae Arolwg Sgiliau Bywyd yn Lloegr[104], er enghraifft, yn nodi fod perchnogion eu tai eu hunain "*yn tueddu i berfformio ar lefel uwch yn y prawf*

[102] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.
[103] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.
[104] Op cit.

*llythrennedd na'r rhai sy'n rhentu*", tra roedd y gwaith ymchwil yn Lloegr ar rifedd [105] yn adrodd fod: "*Dynion gyda sgiliau sylfaenol gwael yn llai tebyg o fod yn berchnogion eu tai eu hunain ac o fod yn rhan o gartref ble nad oedd unrhyw un yn gweithio.*" Dengys Tabl 17 ganlyniadau arolwg 2010 yng Nghymru, sy'n cadarnhau y pwynt cyntaf. Roedd yr ymatebwyr oedd yn berchnogion eu tai eu hunain yn debycach o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch i lythrennedd (93 y cant, yn erbyn cyfanswm o 88 y cant),ac yn llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad (8 y cant yn erbyn y cyfanswm cyffredinol o 12 y cant). O fynegi'r data mewn ffordd arall, tra bod 64 y cant o ymatebwyr yn gyffredinol yn berchnogion eu tai eu hunain, syrthiodd y gyfran hon i 42 y cant o'r rhai gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad i lythrennedd, ac roedd 45 y cant o'r rhai gyda llythrennedd Lefel Mynediad yn byw mewn eiddo wedi'i rentu yn erbyn 26 y cant o ymatebwyr yn gyffredinol.

**Tabl 17 Daliadaeth cartref a lefelau asesiad llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | **Daliadaeth** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Yn berchen eu Cartref eu hunain yn llwyr neu gyda morgais** | **% Perchnogaeth wedi'i rannu** | **% Wedi'i rentu** | **% Byw yn ddi-rent** | **% Gwrthod / Ddim yn gwybod** | **% Pawb** |
| Lefel Mynediad | 8 | 18 | 20 | 17 | [12][106] | 12 |
| L1 | 29 | 26 | 34 | 24 | [18] | 29 |
| L2 neu'n uwch | 64 | 46 | 45 | 59 | [70] | 59 |
| Sail a bwysolwyd | 1352 | 55 | 550 | 138 | 20 | 2115 |
| Sail na phwysolwyd | 1301 | 46 | 618 | 131 | 20 | 2116 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd Saesneg

Ymhellach, o'r rhai sy'n byw mewn eiddo wedi'i rentu, roedd y rhai gyda lefelau sgiliau is yn fwy tebygol o fod yn byw mewn un o stoc dai'r awdurdod lleol neu gymdeithas dai, tra roedd y rhai gafodd eu hasesu fel Lefel1 neu'n uwch yn fwy tebyg o fod yn rhentu gan landlord preifat. Dengys Tabl 18 ganlyniadau asesiadau rhifedd yng nghyd-destun daliadaeth. Roedd yr ymatebwyr oedd yn rhannu eu perchnogaeth neu oedd yn berchen ar eu heiddo eu hunain yn debycach o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (57 y cant a 56 y cant yn y drefn honno) tra roedd

[105] Does Numeracy Matter More? Samantha Parsons a John Bynner, NRDC, 1998.
[106] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.

dwy ran o dair o'r rhai mewn eiddo wedi'i rentu wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd, yn erbyn ffigwr o 50 y cant i'r holl ymatebwyr.

**Tabl 18 Daliadaeth Cartref a lefelau asesiad rhifedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | **Daliadaeth** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Yn berchen Cartref y llwyr neu gyda Morgais** | **% Rhannu perchnog aeth** | **% Rhentu** | **% byw'n ddi-rent** | **% Gwrthod/ Ddim yn gwybod** | **% Pawb** |
| Lefel Mynediad | 44 | 44 | 65 | 54 | [60][107] | 50 |
| L1 | 32 | 27 | 22 | 27 | [30] | 29 |
| L2 neu'n uwch | 24 | 30 | 13 | 19 | [10] | 21 |
| Sail a bwysolwyd | 1353 | 55 | 555 | 135 | 20 | 2119 |
| Sail na phwysolwyd | 1300 | 47 | 622 | 128 | 20 | 2117 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

### *3.3.2 Budd-daliadau a chredydau treth*

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn hawlio unrhyw fath o fudd-dal neu gredyd treth gan y wladwriaeth.

**Tabl 196 Hawlwyr budd-daliadau fesul y math o fudd-dal a hawliwyd a lefelau asesiad llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Lefelau Asesiad Llythrennedd** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o Fudd-dal** | % Lefel Mynediad | % Lefel 1 | % Lefel 2 | % Cyfanswm l |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) | [0] | [1] | [1] | [1][108] |
| Budd-daliadau sy'n ymwneud â'r teulu (ac eithrio Budd-dal plant a Chredydau Treth) | 3 | 6 | 7 | 6 |
| Budd-dal Tai neu Dreth Cyngor | 27 | 18 | 10 | 15 |
| Cymhorthdal Incwm (nid fel person di-waith) | 17 | 14 | 7 | 11 |
| Credyd Pensiwn | [<1] | [1] | [<1] | [<1] |
| Budd-daliadau Salwch neu Anabledd | 30 | 20 | 11 | 17 |
| Pensiwn y Wladwriaeth | 17 | 16 | 9 | 12 |
| Credydau Treth | 28 | 33 | 41 | 36 |

[107] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.
[108] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Budd-daliadau sy'n ymwneud â diweithdra, neu Gredydau Yswiriant Gwladol | 13 | 10 | 7 | 8 |
| Arall, Ddim yn Gwybod, Gwrthod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Sail a bwysolwyd | 147 | 322 | 553 | 1022 |
| Sail na phwysolwyd | 181 | 352 | 563 | 1096 |

Sail: Pawb oedd yn hawlio budd-daliadau a chredydau treth y wladwriaeth

Gan adael budd-dal plant, sy'n hawl gyffredinol, o'r neilltu y budd-daliadau a hawlid yn fwyaf cyffredin oedd credydau treth (36 y cant o'r ymatebwyr), budd-dal salwch/anabledd (17 y cant) a budd-dal tai / rhyddhad treth cyngor (15 y cant).[109] Roedd y rhai a aseswyd ar lefelau is o lythrennedd a rhifedd yn debycach o fod yn hawlio budd-daliadau na'r sampl cyfan. Er enghraifft, dengys Tabl 19 fod y rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd yn fwy tebygol o hawlio budd-daliadau neu gymorth treth cyngor (27 y cant o'i gymharu â 15 y cant i'r holl ymatebwyr), budd-dal salwch/anabledd (30 y cant o'i gymharu â 17 y cant i'r holl ymatebwyr) neu budd-dal di-waith (13 y cant o'i gymharu ag 8 y cant o bob ymatebydd).

**Tabl 20 Hawlwyr budd-daliadau fesul y math o fudd-dâl a lefelau asesiad rhifedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| Math o fudd-dâl | Lefelau Asesiad Rhifedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | % Lefel Mynediad | % Lefel 1 | % Lefel 2 | % Cyfanswm |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) | [1] | [1] | [1] | [1][110] |
| Budd-daliadau sy'n ymwneud â'r teulu (ac eithrio Budd-dal plant a Chredydau Treth) | 8 | 4 | 4 | 6 |
| Budd-dal Tai neu Dreth Cyngor | 19 | 9 | 9 | 15 |
| Cymhorthdal Incwm (nid fel person di-waith) | 14 | 9 | 2 | 11 |
| Credyd Pensiwn | [1] | [<1] | [0] | [1] |
| Budd-daliadau Salwch neu Anabledd | 20 | 14 | 10 | 17 |
| Pensiwn y Wladwriaeth | 14 | 9 | 10 | 12 |
| Credydau Treth | 37 | 36 | 36 | 36 |
| Budd-daliadau sy'n ymwneud â diweithdra, neu Gredydau Yswiriant Gwladol | 10 | 9 | 4 | 9 |
| Arall, Ddim yn Gwybod, Gwrthod | 2 | 3 | 5 | 3 |
| Sail a bwysolwyd | 589 | 269 | 165 | 1023 |
| Sail na phwysolwyd | 655 | 283 | 157 | 1095 |

[109] Sylwer y gallai ymatebwyr fod yn hawlio mwy nag un math o fudd-dal.
[110] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.

Sail: Pawb oedd yn hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth a chredydau treth

Dengys Tabl 20 fod sefyllfa debyg yn digwydd mewn perthynas â budd-daliadau a rhifedd. Roedd y rhai a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad yn eu rhifedd yn fwy tebygol na'r sampl cyfan o fod wedi hawlio budd-dal tai/ budd-dal treth cyngor (19 y cant yn erbyn 15 y cant ar gyfer y sampl cyfan), cymhorthdal incwm (14 y cant yn erbyn 11 y cant ar gyfer y sampl cyfan) neu fudd-dal salwch/anabledd (20 y cant yn erbyn 17 y cant).


### *3.3.3 Iechyd*

Mae cyfeiriadau helaeth mewn ymchwil cyfredol at y cysylltiadau rhwng lefelau llythrennedd a rhifedd isel ac iechyd gwael neu anabledd ymhlith unigolion. Nodwyd, er enghraifft gan werthusiad Sgiliau Bywyd yn Lloegr[111] "*fod, er enghraifft, cydgysylltiad clir rhwng sgiliau sylfaenol gwael ac anableddau dysgu, a rhwng sgiliau sylfaenol gwael ac iechyd gwael."* Sylwodd Adroddiad Mosser[112] hefyd fod cyswllt rhwng salwch corfforol a meddyliol â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd.

Yn arolwg 2010, gofynnwyd i'r ymatebwyr i hunanasesu cyflwr eu hiechyd, a gofynnwyd iddynt yn ddiweddarach a oeddent yn dioddef o salwch tymor hir neu anabledd. Gofynnwyd iddynt hefyd am anawsterau dysgu, a allai effeithio ar eu gallu i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Dangosodd y canlyniadau fod 83 y cant o'r rhai a holwyd yn ystyried eu bod mewn iechyd da a bod y gyfran o hunanasesiadau heb newid ers arolwg 2004.

[111] Evaluation of the Impact of Skills for Life Learning Ymchwil Cymdeithasol, NIESR / BMRB 2009.
[112] *Op Cit*

**Ffigur 3 – Hunanasesiad o iechyd fesul lefelau llythrennedd a aseswyd**





Sail: Pob ymatebydd

Dengys canlyniadau'r arolwg yn Ffigur 3 fod cyswllt rhwng hunan asesiadau iechyd a chanlyniadau asesiad llythrennedd a rhifedd. O'r rhai a holwyd oedd yn credu eu bod mewn iechyd da, aseswyd 10 y cant ar Lefel Mynediad llythrennedd, tra roedd y ffigwr am y rhai oedd yn hunanasesu eu bod mewn iechyd gwael yn 2010, yn 28 y cant. Mewn gwaith ymchwil blaenorol, edrychodd Bynner a Parsons[113] ar y cyswllt rhwng y rhai mewn iechyd da neu'r rhai mewn iechyd gwael o ddimensiwn arall, gan ddweud fod gan "*bobl sydd â sgiliau llythrennedd yn is na Lefel 1 ddwywaith yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael neu iechyd gwael iawn â phobl gyda sgiliau ar Lefel 2*".

Roedd y sefyllfa yn debyg ar gyfer asesiadau rhifedd (Ffigur 4), gyda bron dwy ran o dair o'r rhai oedd yn teimlo eu bod mewn iechyd gwael yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad, tra fod llai na hanner y rhai oedd yn teimlo eu bod mewn iechyd da ar y lefel hon. Eto cynyddodd y gyfran o ymatebwyr a lwyddodd i gael Lefel 1 neu'n uwch yn fwy rhwng 2004 a 2010 ymhlith y rhai oedd yn teimlo eu bod mewn iechyd gwael nag ymhlith y rhai oedd mewn iechyd da.

[113] Op cit

**Ffigur 4 – Hunanasesiad o iechyd gan y rhai yr aseswyd eu lefelau rhifedd**





Sail: Pob ymatebydd

Bydd y cyswllt rhwng iechyd a lefelau asesiad llythrennedd / rhifedd yn cael eu dylanwadu gan effaith oedran. Er enghraifft tyfodd yr hunanasesiad iechyd yn waeth o ganlyniad i oedran, gyda 36 y cant o grŵp oedran 55-65 yn dweud fod eu hiechyd yn wael, o'i gymharu â'r sampl cyfan gyda ffigwr o 17 y cant. Yn ychwanegol, dangosodd Tabl 7 o'r adroddiad hwn fod ymatebwyr yn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol na'r sampl cyfan o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Nid yw'n bosibl, fodd bynnag, i ddweud i ba raddau y bu i'r amcangyfrif hwn o iechyd gwael gyfrannu at lefelau asesiad is i lythrennedd a rhifedd ymhlith y grŵp oedran 55-65.

Yn ychwanegol at yr asesiad iechyd cyffredinol, gofynnwyd i'r ymatebwyr os oedd ganddynt anawsterau dysgu o unrhyw fath. Dywedodd 5 y cant o'r ymatebwyr i arolwg 2010 fod ganddynt, yn bennaf dyslecsia (70 y cant o'r rhai ag anhawster). Cysylltwyd anawsterau dysgu gyda perfformiad is yn yr asesiad llythrennedd (Ffigur 5), er fod y rhai yn y grŵp hwn wedi perfformio'n well yn 2010 nac yn 2004.

**Ffigur 5 – Anawsterau dysgu a nodwyd fesul lefelau asesiad llythrennedd**




Sail: Pob ymatebydd.

O’r rhai ag anawsterau dysgu, teimlai 40 y cant ei fod yn cyfyngu eu gweithgareddau mewn rhyw ffordd. Tra na fu i arolwg 2010 edrych ymhellach ar hyn, mae tystiolaeth o arolwg gwerthusiad Sgiliau Bywyd yn Lloegr[114] yn awgrymu fod yr effaith ar ragolygon gwaith yn gryf, gan ddweud fod “*Anawsterau dysgu yn debyg o gael dylanwad pwysig neilltuol ar ganlyniadau cyflogaeth. Mae cyflogwyr yn y sector gyhoeddus a’r sector breifat yn cyfaddef eu bod yn amharod i gyflogi pobl ag anawsterau dysgu, ac nid oes disgwyl i rhai ag anawsterau dysgu dwys i ddod o hyd i waith cyflogedig.”*

Roedd anawsterau dysgu hefyd yn cael eu cysylltu â chanlyniadau asesiad rhifedd gwaeth, gan fod 74 y cant o’r rhai a ddwedodd fod ganddynt rhyw ffurf ar anhawster dysgu wedi’u hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd (Tabl 21) yn erbyn ffigur o 51 y cant i’r ymatebwyr i gyd. O’i osod mewn ffordd arall roedd 8 y cant o’r ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd hefyd gydag anhawster dysgu, tra roedd cyfran y rhai a gafodd asesiad Lefel 2 mewn rhifedd yn 2 y cant.

---

[114] Op cit

**Tabl 21  Anhawsterau dysgu a rhifedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Anhawsterau dysgu | | |
|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Ie** | **% Na** | **% Cyfanswm** |
| Lefel Mynediad | 74 | 49 | 51 |
| L1 | 17 | 30 | 29 |
| L2 neu'n uwch | 9 | 21 | 21 |
| Sail a bwysolwyd | 108 | 2006 | 2119 |
| Sail na phwysolwyd | 105 | 2007 | 2117 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd (ac eithrio "Ddim yn gwybod" = 5 ymatebydd)

Yn gyffredinol, dywedodd 24 y cant o ymatebwyr fod ganddynt salwch hir dymor, anabledd neu wendid, yn bennaf yn ymwneud â phroblemau gyda'u breichiau, coesau, dwylo neu draed, yn cael ei ddilyn gan broblemau â'r cefn neu'r gwddw, brest neu'r galon. Roedd hyn yn agos iawn at y lefel o salwch yn 2004 (23 y cant).

**Tabl 22 Salwch/ anabledd tymor hir a llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Salwch, anabledd neu wendid tymor hir | | |
|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Ie** | **% Na** | **% Cyfanswm** |
| Lefel Mynediad | 15 | 11 | 12 |
| L1 | 33 | 28 | 30 |
| L2 neu'n uwch | 52 | 61 | 59 |
| Sail a bwysolwyd | 506 | 1608 | 2115 |
| Sail na phwysolwyd | 546 | 1568 | 2116 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd Saesneg

Dengys Tabl 22 fod y rhai oedd â salwch neu anabledd  hir dymor yn fwy tebygol na'r holl sampl a aseswyd o fod ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd (15 y cant yn erbyn12 y cant i'r sampl cyfan), er nid i'r un graddau â'r rhai gydag anawsterau dysgu. Dywedodd dwy ran o dair o'r rhai gyda salwch hir dymor ei fod yn cyfyngu eu gweithgareddau mewn rhyw ffordd, oedd eto yn debyg fesul cyfran i ganlyniad 2004 (70 y cant).

**Tabl 23 Salwch/anabledd hir dymor a rhifedd**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Salwch/ anabledd neu wendid hir dymor | | |
|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **% Ie** | **% Na** | **% Cyfanswm** |
| Lefel Mynediad | 54 | 49 | 51 |
| L1 | 31 | 28 | 29 |
| L2 neu'n uwch | 15 | 22 | 21 |
| Sail a bwysolwyd | 510 | 1607 | 2119 |
| Sail na phwysolwyd | 550 | 1565 | 2117 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

Dengys dadansoddiad o ganlyniadau asesiad y rhai a ddwedodd fod ganddynt salwch neu anabledd hir dymor (Tabl 23) fod 54 y cant o'r rhai a ddwedodd fod ganddynt salwch neu anabledd hir dymor wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd, yn erbyn 49 y cant o'r rhai na ddwedodd fod ganddynt salwch neu anabledd, 51 y cant ar draws yr holl sampl. Aseswyd 15 y cant o'r rhai oedd yn dweud fod ganddynt salwch neu anabledd ar Lefel 2 ar gyfer rhifedd, tra roedd y ffigwr yn 22 y cant i'r rhai oedd heb salwch neu anabledd a 21 y cant ar gyfer yr holl sampl.

*3.3.4 Crynodeb*

Dengys canlyniadau'r arolwg fod gwelliant sylweddol wedi'i wneud mewn lefelau llythrennedd ers arolwg 2004. Aseswyd 88 y cant o ymatebwyr ar Lefel 1 neu'n uwch yn 2010 a gydag amcangyfrif o chwarter miliwn yn llai o bobl oedran gweithio yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad. Ychydig o newid oedd yn lefelau rhifedd, ac mae'r canlyniadau'n awgrymu fod hanner oedolion o oedran gweithio yng Nghymru ar Lefel Mynediad neu'n is.

Un o'r nodweddion mwyaf trawiadol o'r canlyniadau yw fod y bwlch rhwng Lefelau Asesiad ar gyfer llythrennedd a'r rhai ar gyfer rhifedd wedi lledu ers yr arolwg blaenorol, gyda mwy na phedair gwaith o'r ymatebwyr wedi'u dosbarthu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd a llythrennedd.

Nid oedd bwlch arwyddocaol yn asesiad lefelau llythrennedd rhwng dynion a merched, ond nid oedd hyn yn wir yn achos rhifedd. Roedd dynion unwaith a hanner yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch nag yr oedd merched. Yn nhermau oedran, y grŵp ieuengaf (16-19) a'r grŵp hynaf (55-65) oedd y rhai lleiaf

tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch ar gyfer llythrennedd. Roedd y sefyllfa’n debyg ar gyfer rhifedd, er fod canlyniadau ar gyfer grŵp oedran 20-24 ymhlith yr isaf yn unrhyw grŵp oedran.

Roedd yr asesiad o ganlyniadau’r arolwg fesul rhanbarth yn dangos fod gwahaniaethau yn lefelau asesiad, gydag ymatebwyr yng Nghanolbarth Cymru yn llai tebyg na’r rhai mewn rhanbarthau eraill o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer naill ai llythrennedd neu rifedd. Yn nhermau nodweddion cartref, dengys canlyniadau’r asesiad fod ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd neu rifedd yn fwy tebygol o fod wedi gwahanu neu wedi ysgaru na’r sampl cyfan a bod y rhai sy’n byw mewn cartrefi i oedolion sengl yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Yn nhermau daliadaeth tai, roedd yr ymatebwyr a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad i naill ai llythrennedd neu rifedd yn fwy tebygol o fod mewn eiddo wedi’i rentu ac yn llai tebyg o fod yn berchen eu tŷ eu hunain. O ran hawlio budd-daliadau’r wladwriaeth nid oedd perthynas rhwng y nifer oedd yn hawlio budd-dal plant a Lefelau Asesiad, ond yr oedd yn nhermau budd-daliadau eraill, er enghraifft budd-daliadau salwch/anabledd neu fudd-dal tai.
Yn olaf, mae’r dadansoddiad o asesiad llythrennedd a rhifedd yn awgrymu fod cydgysylltiad rhwng canlyniadau’r asesiad isaf ar gyfer llythrennedd a rhifedd ac iechyd gwael/anawsterau dysgu.

## 3.4 Addysg

Mae’r adran hon o’r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau’r arolwg yn nhermau cyflawniadau addysgol yr ymatebwyr a’r cysylltiadau rhwng y rhain a chanlyniadau eu hasesiadau am lythrennedd a rhifedd. Mae’n dechrau drwy gyflwyno penawdau canlyniadau llythrennedd a rhifedd ymhlith y rhai sydd â graddau A*-C yn eu TGAU yn Saesneg a mathemateg[115]. Mae’r adran wedyn yn mynd ymlaen i edrych ar ganlyniadau asesiad y rhai a adawodd ysgol cyn bod yn un ar bymtheg oed, yr oedran statudol cyfredol o adael ysgol, ac yn ystyried a ellir dod i unrhyw gasgliadau oddi wrth hyn. Yn olaf, yn yr adran hon archwilir canlyniadau llythrennedd a rhifedd yr ymatebwyr yng nghyd-destun a wnaeth eu rhieni aros ymlaen ym myd addysg ar ôl un ar bymtheg oed ai peidio.

*Canfyddiadau Allweddol*

- Roedd cyfran asesiadau llythrennedd ar Lefel 2 neu’n uwch wedi gwella ar bob lefel cymhwyster rhwng 2004 a 2010
- Mae’r angen mwyaf am lefelau sgiliau sylfaenol ymhlith y rhai heb gymwysterau (17 y cant o’r sampl yn gyffredinol)
- Dim ond 69 y cant o ymatebwyr â chymwysterau hyd at Lefel 2 neu’n uwch gyrhaeddodd y lefel honno mewn asesiadau llythrennedd , er bod y ffigwr yn 73 y cant i’r rhai â graddau A*-C TGAU neu gyfwerth yn Saesneg.
- O’r canlyniadau, ymddengys fod unigolion yn datblygu eu sgiliau ar ôl gadael ysgol a mynd i fyd gwaith.
- Dylanwadir ar sgoriau asesiad yr unigolyn gan hanes addysgol ei rieni


### *3.4.1 Cymwysterau a pherfformiad asesiad llythrennedd*

Mae’r paragraffau canlynol yn edrych ar y berthynas rhwng canlyniadau’r ymatebwyr yn yr asesiad llythrennedd a’u cymwysterau uchaf. Dengys Ffigur 6 isod fod cyfran uwch o ymatebwyr wedi’u hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch am lythrennedd ymhlith y rhai â lefel uwch o gymwysterau na’r sampl yn gyffredinol. Roedd lefelau llythrennedd a aseswyd i ryw raddau mewn cyfrannedd gwrthdro â lefelau cymhwyster. Er enghraifft, roedd 82 y cant o’r rhai oedd â’u cymhwyster uchaf ar lefel gradd wedi’u hasesu ar Lefel 2 neu’n uwch, tra roedd y gyfran ymhlith y rhai

[115] Neu’n gyfwerth

oedd wedi cymhwyso i Lefel 1 yn 42 y cant. Roedd yr ymatebwyr heb gymwysterau yn cael eu nodweddu gan fod yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp arall o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer lythrennedd (33 y cant o'i gymharu â chanlyniad y sampl cyfan o 12 y cant).

**Ffigur 6 Lefel cymhwyster a llythrennedd**




Sail: Pob un oedd wedi cwblhau asesiad llythrennedd (ac eithrio'r rhai sy'n parhau mewn addysg)

Roedd gostyngiad yng nghyfran yr ymatebwyr gydag asesiadau llythrennedd ar Lefel Mynediad ymhlith y rhai â chymwysterau ffurfiol. Roedd hyn yn wir am bob lefel ac eithrio'r rhai â lefel gradd, ble roedd ychydig o gynnydd o 1 y cant i 2 y cant. Fodd bynnag, hyd yn oed ymhlith y rhai heb gymwysterau, roedd gostyngiad llym yn y gyfran o ymatebwyr a gafodd eu hasesu dan Lefel 1 rhwng 2004 a 2010 (o 55 y cant yn 2004 i 33 y cant yn 2010). Oddi fewn i hyn, y newid mwyaf oedd y gostyngiad yn yr asesiadau ar Lefel Mynediad 3, o 33 y cant yn 2004 i 15 y cant yn 2010.

Mae Ffigur 6 hefyd yn dangos y berthynas rhwng y rhai a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch am lythrennedd a'r gyfran o'r sampl â chymhwyster ar Lefel 2 neu'n uwch sydd yn cyfateb i radd A*-C yn TGAU. Ar draws yr ymatebwyr i gyd, roedd 71 y cant wedi'u cymhwyso i'r lefel honno mewn mwy nag un pwnc (ac eithrio'r rhai sy'n parhau mewn addysg). Fodd bynnag, dim ond 55 y cant o'r rhain gyrhaeddodd Lefel 2 neu'n uwch yn yr asesiad llythrennedd.

Bu, fodd bynnag, welliant amlwg ers 2004 ym mherfformiad lefelau'r rhai oedd â'u cymhwyster uchaf ar Lefel 2. Er enghraifft yn 2010, cyrhaeddodd 55 y cant o'r grŵp hwn Lefel 2 mewn asesiad llythrennedd , tra yn 2004 dim ond 39 y cant oedd y ffigwr cyfatebol.

O gymryd y dadansoddiad ychydig ymhellach, cafodd 73 y cant o'r rhai â graddau A*-C yn TGAU eu hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch am Lythrennedd a 3 y cant yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad (i lawr o 9 y cant yn 2004). Tra mae TGAU yn Saesneg yn golygu ystod ehangach o ddeunydd pwnc na chyflwyno llythrennedd sylfaenol gall fod yn rhesymol i ddisgwyl i'r rhai sy'n ennill y cymhwyster i gael Lefel 2 llythrennedd er mwyn cyrraedd y lefel hwn mewn meysydd eraill o gwricwlwm iaith Saesneg.

Os archwilir y canlyniad hwn yn nhermau oedran a chymwysterau, yr hyn sy'n amlwg yw bod y rhai sy yn y grŵp oedran 16-19 (a oedd yn ddiweddar wedi ennill y radd A*-C mewn TGAU) yn llawer llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch na'r rhai mewn grwpiau oedran hŷn (Tabl 24). Ac eithrio'r grŵp oedran 35-44, a sgoriodd yn arbennig o dda yn yr asesiadau, roedd canlyniadau cymharol gyson ymhlith y grwpiau oedran 20+.

Dyma hefyd oedd yr achos yn arolwg 2004, pan oedd 16 y cant o rai 16-19 mlwydd oed wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad. Roedd yr ymatebwyr oedd yn yr ystod oedran hwn adeg arolwg 2004 yn debyg o syrthio i fand oedran 20-24 pe baent yn cael eu harchwilio eto. O gymryd fod canlyniadau'r arolwg blaenorol yn cynrychioli'r grŵp oedran i gyd, yna gellid disgwyl i'r band oedran 20-24 ar hyn o bryd gynhyrchu canlyniadau tebyg yn arolwg 2010 i'r grŵp 16-19 yn arolwg 2004. Fel mater o ffaith dim ond yn 3 y cant oedd y gyfran a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad ymhlith y grŵp oedran hwn, sy'n awgrymu fod unigolion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau

llythrennedd ar ôl gadael yr ysgol, naill ai drwy ddysgu ym mhellach neu fel rhan o fywyd bob dydd.

**Tabl 24 Asesiadau llythrennedd ymhlith y rhai oedd â graddau A*-C mewn TGAU, Iaith Saesneg, fesul oedran**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | | Oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefelau Asesiad | 16-19 % | 20-24 % | 25-34 % | 35-44 % | 45-54 % | 55-65 % | Cyfanswm % |
| Lefel Mynediad | 12 | 3 | 4 | 2 | 3 | 2 | 3 |
| L1 | 27 | 23 | 22 | 21 | 27 | 25 | 24 |
| L2 neu'n uwch | 61 | 74 | 74 | 78 | 71 | 73 | 73 |
| Sail a bwysolwyd | 105 | 134 | 224 | 282 | 258 | 222 | 1,228 |
| Sail na phwysolwyd | 126 | 86 | 220 | 280 | 247 | 246 | 1,206 |

Sail: Pawb oedd â TGAU mewn Iaith Saesneg, A*-C


### *3.4.2 Cymwysterau a pherfformiad asesiad rhifedd*

Efallai y gellid disgwyl i sgiliau rhifedd fod wedi'u cysylltu'n llai agos â lefelau cymwysterau, gan ei fod yn bosibl i gyrraedd cymwysterau lefel uwch mewn disgyblaethau sydd heb fod yn rhifog heb yr angen am sgiliau rhifedd, tra mewn gwrthgyferbyniad mae bron pob pwnc yn gofyn am lefel rhesymol o lythrennedd er mwyn i'r ymgeiswyr fod yn llwyddiannus.

Dengys Ffigur 7 mai ychydig o welliant oedd mewn lefelau sgiliau rhifedd rhwng 2004 a 2010 ar draws lefelau cymwysterau ac eithrio lefel AB heb radd, ble mae'r canlyniadau'n dangos cynnydd yng nghanran yr ymatebwyr ar Lefel neu'n uwch yn ogystal â chynnydd i'r rhai yn y categori cymwysterau amrywiol yr "eraill anadnabyddus".

Yn wrthgyferbyniol, o'i gymharu â chanlyniadau 2004, gwneud yn arbennig o wael wnaeth yr ymatebwyr â chymhwyster gradd, gyda 24 y cant yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad yn 2010, tra roedd y ffigwr yn 10 y cant yn 2004. Aseswyd 81 y cant o'r rhai heb gymwysterau ar Lefel Mynediad mewn rhifedd yn 2010, yr un fath ag yn 2004.

**Ffigur 7 Lefel cymhwyster a rhifedd**




Sail: Pob un wnaeth gwblhau'r asesiad rhifedd (ac eithrio'r rhai sy'n parhau mewn addysg)

Ymhlith pob un o'r ymatebwyr â chymhwyster ar Lefel 2 neu'n uwch, dim ond 28 y cant lwyddodd i gyrraedd Lefel 2 neu'n uwch yn yr asesiad rhifedd. Yn creu mwy o bryder efallai yw'r ffaith fod 30 y cant o'r rhai oedd â mathemateg TGAU, A* i C wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer rhifedd a dim ond traean a aseswyd ar Lefel 2. Tra nad yw mathemateg TGAU wedi'i gyfyngu at adeiladu sgiliau rhifedd, gellir disgwyl yn rhesymol y byddai'r rhai sydd wedi llwyddo i ennill y cymhwyster yn cyrraedd Lefel 2 yn y maes hwn o Fathemateg, o ystyried fod Mosser[116] yn dweud *"Mae safonau ar gyfer Lefel 1 a Lefel 2 yn gyfwerth â'r rhai a fynnir am gymhwyster Lefel Un neu Lefel Dau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol "ac fel yr awgrymwyd yn* adroddiad arolwg 2004:[117] "*Os yw rhywun yn cael ei ddosbarthu ar Lefel Mynediad mae'n awgrymu ei bod hi/ef yn ddiffygiol yn y sgiliau llythrennedd neu rifedd i gael cymhwyster ffurfiol. "*

---

[116] Op Cit.

[117] "Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru", BMRB i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004.

Fel gydag asesiadau llythrennedd, mae'n ddiddorol fod y rhai sy'n 25 mlwydd oed ac yn hŷn gyda gradd A*-C TGAU mewn mathemateg yn sylweddol yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch na'r rhai yn y grwpiau oedran is (Tabl 25). Gall y ffaith fod y grŵp sydd wedi llwyddo mewn TGAU yn fwy diweddar fod â'r sgoriau asesiad rhifedd isaf fod yn syndod, ond mae'n ffaith mai dyma hefyd oedd yr hanes yn arolwg 2004[118] pan nodwyd fod unigolion yn parhau i adeiladu ar eu sgiliau rhifedd drwy eu hugeiniau a'u tridegau. Yn arolwg 2010, mae'r duedd hon yn parhau ar hyd bywydau gwaith yr ymatebwyr.

**Tabl 25 Asesiadau rhifedd ymhlith y rhai â mathemateg TGAU, A*-C, fesul oedran**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | **Oedran** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefelau Asesiad | **16-19** | **20-24** | **25-35** | **35-44** | **45-54** | **55-65** |
| | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| Lefel Mynediad | 47 | 32 | 30 | 29 | 27 | 25 |
| L1 | 32 | 41 | 35 | 36 | 36 | 37 |
| L2 neu'n uwch | 21 | 27 | 34 | 35 | 36 | 38 |
| Sail a bwysolwyd | 101 | 124 | 199 | 249 | 222 | 181 |
| Sail na phwysolwyd | 120 | 73 | 191 | 248 | 200 | 192 |

Sail: Pawb oedd â mathemateg TGAU, A*-C

### *3.4.3 Llythrennedd ymhlith y rhai sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed neu'n iau*

Roedd lefelau asesiad llythrennedd ymhlith y rhai a adawodd yr ysgol yn un ar bymtheg oed neu'n iau yn is nag ar draws y sampl cyfan, er bod canlyniadau asesiad i'r grŵp hwn yn well nac i'r grŵp cyfatebol yn 2004, fel y dangosir yn Nhabl 26. I ryw raddau, mae hyn yn gysylltiedig ag oedran, gan fod ymatebwyr hŷn yn llawer mwy tebygol o fod wedi gadael yr ysgol yn 16 neu'n iau. Codwyd yr oedran gadael ysgol i'r lefel bresennol o 16 oed yn 1972, er bod cyfran y bobl oedd yn aros mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser yn hŷn nac un ar bymtheg oed wedi codi'n raddol yn y cyfnod hwn, i fan ble mae 80 y cant o rai 16-18 mlwydd oed a 39 y cant o rai 19-24 mlwydd oed yn aros mewn rhyw ffurf o addysg neu hyfforddiant yng Nghymru yn 2010[119]. Roedd cyfran y sampl cyffredinol yn 2010 oedd wedi gadael yr ysgol yn 16 neu'n iau yn sylweddol is nag yn 2004.

[118] Op Cit
[119] Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Addysg a'r Farchnad Lafur, 2009 a 2010 (dros dro). Llywodraeth Cymru, 2011.

**Tabl 26 Llythrennedd ymhlith y rhai oedd yn gadael ysgol yn 16 oed neu'n iau**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Cyfanswm | Y rhai sy'n Gadael yr Ysgol yn 16 oed neu'n iau | |
|---|---|---|---|
| | **2010** | **2010** | **2004** |
| | **%** | **%** | **%** |
| Lefel Mynediad | 12 | 19 | 36 |
| L1 | 29 | 38 | 38 |
| L2 neu'n uwch | 59 | 43 | 27 |
| Sail a bwysolwyd | 2115 | 991 | 1496 |
| Sail na phwysolwyd | 2116 | 991 | 1496 |

Sail: Pawb wnaeth adael yr ysgol yn 16 neu'n iau[120]

Mae lefelau llythrennedd y rhai wnaeth orffen eu haddysg yn 16 yn cael ei ddangos fesul eu hoedran cyfredol, ar adeg yr arolwg, fel y dangosir yn Nhabl 27. Fel gyda'r holl sampl, roedd lefelau llythrennedd yn uwch ymhlith y rhai oedd wedi bod allan o'r ysgol ers peth amser na'r rhai oedd wedi gadael yn ddiweddar.

**Tabl 27 Llythrennedd ymhlith y rhai sy'n gadael ysgol yn 16 oed neu'n iau, fesul grŵp oedran**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | | Oed yr Ymatebydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesiad** | **16-19 %** | **20-24 %** | **25-34 %** | **35-44 %** | **45-54 %** | **55-65 %** | **Cyfanswm %** |
| Lefel Mynediad | [44][121] | 11 | 13 | 13 | 18 | 19 | 18 |
| L1 | [33] | 40 | 41 | 41 | 36 | 41 | 38 |
| L2 neu'n uwch | [23] | 49 | 46 | 46 | 46 | 40 | 44 |
| Sail a bwysolwyd | 45 | 74 | 122 | 199 | 223 | 195 | 997 |
| Sail na phwysolwyd | 53 | 63 | 120 | 198 | 215 | 223 | 1017 |

Sail: Pawb wnaeth orffen addysg yn 16 oed


Fodd bynnag, er bod y rhai wnaeth adael ysgol ar oedran cynharach yn gwella eu sgiliau ar ôl gadael yr ysgol, nid oedd graddfa gwelliant yn ddigon i'w codi i safon y sampl cyfan.

### *3.4.4 Addysg y rhieni*

[120] Roedd maint sampl y rhai sy'n gadael yn yr oedran 10-14 yn annigonol i gyflwyno'r canlyniadau hyn ar wahân.
[121] Cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl sy'n is na 50.

Dengys canlyniadau'r arolwg yn ffigurau 8 a 9 fod yna berthynas sy'n pontio'r cenedlaethau rhwng canlyniadau asesiadau llythrennedd a rhifedd unigolion a hanes addysg eu rhieni. Ble roedd y ddau riant wedi aros mewn addysg y tu hwnt i un ar bymtheg oed, roedd yr unigolyn hanner mor debygol â'r rhai nad oedd eu rhieni wedi aros mewn addysg o gael ei asesu yn is na Lefel 1 ar gyfer llythrennedd.

**Ffigur 8 Addysg y rhieni a llythrennedd**




Sail: Pawb a wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd

Tra gall achos y berthynas hon gael ei briodoli i amgylchiadau cymdeithasol neu ffactorau eraill yn hytrach na'r ffaith fod rhieni wedi aros ym myd addysg fel y cyfryw, dangosodd astudiaethau blaenorol gysylltiadau tebyg. Er enghraifft, adroddodd astudiaeth yn 2008[122] fod: *"Mae llenyddiaeth yn cytuno fod statws economaidd ac addysg yn bositif gydberthnasol ar draws y cenedlaethau; mae hefyd yn dangos drosodd a throsodd fod rhieni sydd â lefelau addysgol uwch yn cael plant sydd â lefelau addysgol uwch. Yn gyffredinol mae plant sy'n tyfu mewn teuluoedd sydd wedi eu haddysgu i lefelau uwch yn tueddu i gael gwell canlyniadau fel oedolion yn addysgol ac yn y farchnad lafur na phlant sy'n tyfu mewn teuluoedd sydd wedi derbyn llai o addysg."*


Dylid nodi fod y tebygolrwydd o un neu fwy o rieni fod wedi aros ymlaen mewn addysg yn gostwng gydag oed yr ymatebydd. Roedd unigolion hŷn yn llawer iawn llai

---

[122] Parents' Basic Skills and Children Cognitive Outcomes: de Coulon, Meschi and Vignoles. Canolfan Economeg Addysg. Rhagfyr 2008.

tebygol o fod wedi cael rhieni oedd wedi parhau gyda'u haddysg tu hwnt i un ar bymtheg oed.

**Ffigur 9 Addysg y rhieni a rhifedd**




Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

Roedd y rhai nad oeddynt yn gwybod os oedd eu rhieni wedi parhau gyda'u haddysg (7 y cant o'r sampl cyfan) yn arbennig o debygol o gael eu hasesu islaw Lefel 1 am lythrennedd a rhifedd, fel y dangosir yn Ffigur 9.

*3.4.5 Crynodeb*

Dangosodd yr adran hon o'r adroddiad fod perthynas rhwng lefelau cymwysterau ymatebwyr a'u sgoriau asesiadau am lythrennedd a rhifedd.

Roedd y gyfran o asesiadau llythrennedd ar Lefel 2 neu'n uwch wedi gwella ar gyfer pob lefel o gymhwyster rhwng 2004 a 2010 ac roedd gostyngiad sylweddol yn y gyfran o asesiadau ar Lefel Mynediad neu'n is ymhlith y rhai oedd heb gymwysterau.

Aseswyd 73 y cant o'r rhai oedd â TGAU mewn iaith Saesneg â graddau A* i C ar Lefel 2 neu'n uwch am lythrennedd, ble mai dim ond traean o'r rhai oedd â gradd A*-C mewn mathemateg a gyrhaeddodd Lefel 2 mewn asesiad rhifedd.

Roedd y rhai wnaeth adael yr ysgol yn 16 oed neu'n iau yn parhau i ddatblygu eu sgiliau drwy gydol eu bywyd gwaith, ond ar lefel is na'r rhai sy'n parhau mewn addysg. Mae hefyd dystiolaeth fod record y rhieni mewn addysg yn adlewyrchu lefelau llythrennedd a rhifedd eu plant.

## 3.5 Statws Cyflogaeth

### *3.5.1 Cyflwyniad*

Cydnabyddir yn eang fod cysylltiad rhwng lefelau sgiliau sylfaenol isel a chanlyniadau cyflogaeth isel, ac yn ei dro â pha mor gystadleuol yw'r wlad. Yn 1999, dangosodd Adroddiad Moser[123], oedd yn greiddiol i'r Strategaethau Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru a Lloegr, y gall anfantais cymdeithasol godi o sgiliau gwael, gan ddweud fod safon isel o lythrennedd a rhifedd ymarferol yn "*un o'r rhesymau am y cynhyrchiant cymharol isel yn ein economi, a'i fod yn crebachu bywydau miliynau o bobl*". Fe wnaeth Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru [124] amlygu maint y broblem: *"mae sgiliau'r gweithlu yng Nghymru yn dal i gymharu'n anffafriol â llawer o rannau eraill o'r DU. Mae gan Gymru gyfran uwch o oedolion â chymwysterau isel na'r Alban a mwyafrif rhanbarthau Lloegr, er ein bod yn uwch na Gogledd Iwerddon. Gellid dadlau mai'r her fwyaf yw i fynd i'r afael â diffyg sgiliau sylfaenol: mae sgiliau sylfaenol yng Nghymru yn salach nag yn unrhyw ranbarth yn Lloegr*".

Ar lefel unigolyn, gall sgiliau sylfaenol gwael effeithio er gwaeth ar ragolygon cyflogaeth ac enillion potensial. Tynnodd Adroddiad Leitch[125] sylw at y ffaith fod llythrennedd a rhifedd yn gynyddol bwysig mewn cyd-destun cyflogaeth, nid yn unig er mwyn cyflawni tasgau sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ond hefyd er mwyn addasu i newid a chyfrannu'n llawn i'r economi fyd-eang. Yn 2009 fe wnaeth adroddiad i'r Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau yn Lloegr ddangos manteision cael safon resymol o sgiliau sylfaenol, gan ddatgan: *"Wrth gymharu'r rhai sydd â sgiliau sylfaenol fel oedolion â'r rhai sydd ddim, mae tystiolaeth ddiymwad o effaith bositif, hyd yn oed ar ôl defnyddio rheolydd ar gyfer cefndir, gallu blaenorol a nodweddion eraill sy'n effeithio enillion a chyflogaeth."*[126]

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar y cysylltiad rhwng canlyniadau asesiadau sgiliau sylfaenol a statws cyflogaeth ac enillion yr ymatebwyr. Dechreua drwy edrych ar gyflogaeth a diweithdra, gwaith amser llawn a rhan-amser ymhlith y rhai sydd â gwahanol lefelau o lythrennedd a rhifedd. Mae'r dadansoddiad yn mynd

[123] AdAS, 1999.
[124] Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008.
[125] Prosperity for all in the global economy – world class skills, Trysorlys ei Mawrhydi, 2006.
[126] Economic Impact of Training and Education in Basic Skills: Crynodeb o dystiolaeth. NRDC. 2009.

rhagddo i edrych ar y cysylltiadau rhwng sgiliau sylfaenol a phroffil galwedigaethol ac yn olaf y mater o enillion mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd.


*Canfyddiadau Allweddol*

- Bu cynnydd cadarn mewn asesiadau llythrennedd ymysg y di-waith, rhwng 2004 a 2010.
- Fodd bynnag, roedd mwy na 60 y cant o'r rhai di-waith a aseswyd am rifedd yn is na Lefel 1.
- Mae'r cyfrannau o weithwyr llawn amser a'r rhai rhan-amser a aseswyd ar Lefel Mynediad wedi cydgyfeirio ers 2004.
- Mae lefelau llythrennedd yn gysylltiedig iawn â chategori galwedigaethol gydag, er enghraifft, 87 y cant o staff sy'n uwch-reolwyr ac yn staff proffesiynol yn cael eu hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch.
- Mae'r math o ddiwydiannau mae pobl yn gweithio ynddynt hefyd yn gysylltiedig â lefelau llythrennedd, gyda'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus a phroffesiynol, gwasanaethau gwybodaeth ac arian yn cael y marciau uchaf mewn lefelau llythrennedd.
- Caiff incwm hefyd ei effeithio gan lefelau sgiliau. Dim ond 1 y cant o'r rhai oedd yn ennill £50,000 neu fwy y flwyddyn oedd â lefelau llythrennedd oedd yn is na Lefel 1, ond roedd y ffigwr yn 70 y cant o'r rhai oedd yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn.

*3.5.2 Cyflogedig a di-waith*

Awgrymwyd mewn penodau cynharach fod unigolion yn parhau i adeiladu eu sgiliau sylfaenol unwaith maent yn dechrau gweithio, drwy ddefnyddio eu llythrennedd a'u rhifedd mewn sefyllfaoedd go iawn. Cefnogwyd y casgliad hwn i ryw raddau gan ganlyniadau'r asesu (Ffigur 10) oedd yn dangos fod ymatebwyr nad oedd yn gweithio pan gynhaliwyd yr arolwg, ddwywaith mor debygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad neu'n is â'u cymheiriaid oedd yn gyflogedig (18 y cant o'r grŵp di-waith o'i gymharu â 9 y cant o'r rhai cyflogedig). Er nad oedd 32 y cant o'r ymatebwyr yn gweithio pan gynhaliwyd yr arolwg, dim ond 4 y cant o'r rhain oedd yn chwilio am waith. Roedd y gweddill yn bennaf yn gymysgedd o fyfyrwyr, gofalwyr, y rhai â salwch tymor hir neu anableddau a'r rhai wedi ymddeol.

**Ffigur 10 Statws cyflogaeth a llythrennedd**





Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd

Roedd y rhai oedd yn wael tymor hir neu'n anabl yn arbennig yn sefyll allan fel rhai oedd â lefelau isel o lythrennedd, gyda 28 y cant o'r grŵp hwn yn cael eu hasesu ar Lefel Mynediad. Er gwaethaf hyn, bu cynnydd o 18 pwynt canrannol yn y gyfran cyffredinol o ymatebwyr di-waith a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch ers 2004 (o 64 y cant i 82 y cant). O'i gymharu, fe wnaeth ymatebwyr cyflogedig a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch gynyddu o gyfran lai dros y cyfnod (o 81 y cant i 91 y cant).

Bu newid llai dwys yn lefelau rhifedd ymatebwyr a aseswyd gydag, er enghraifft, 5 pwynt canrannol o godiad yn y gyfran o asesiadau ar Lefel 1 neu'n uwch ymysg ymatebwyr di-waith ers 2004, (Ffigur 11). Erys y broblem yn 2010, fod 62 y cant o'r grŵp di-waith wedi eu hasesu yn is na Lefel 1 ar gyfer rhifedd. Mae hyn yn atgyfnerthu amrywiaeth eang o dystiolaeth ymchwil ar y cysylltiadau rhwng lefelau isel o rifedd a chanlyniadau cyflogaeth isel[127].

[127] Er enghraifft, canfu McIntosh a Vignoles (2001): "cysylltir cael Lefel 1 neu'n uwch mewn sgiliau rhifedd fel cael 4-8 pwynt canrannol yn uwch o'r tebygolrwydd o fod yn gyflogedig."

**Ffigur 11 Statws cyflogaeth a rhifedd**





Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

### *3.5.3 Gweithwyr llawn amser a rhan-amser*

Dengys Ffigur 12 nad oedd gwahaniaeth, ymhlith y rhai oedd yn gyflogedig yn 2010, rhwng cyfrannau gweithwyr llawn amser a rhai rhan-amser a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd (91 y cant ym mhob achos). Yn 2004, fodd bynnag, roedd gweithwyr llawn amser ychydig yn llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch – ar 75 y cant o'i gymharu â 78 y cant i weithwyr rhan-amser.

**Ffigur 12 Gweithwyr amser llawn, rhan-amser a llythrennedd**





Sail: Pawb oedd yn gyflogedig wnaeth gwblhau'r asesiad llythrennedd

Mae pob ymatebwr 'myfyrwyr a chyflogedig' o arolwg 2010 wedi'u categoreiddio fel 'rhan-amser' ar gyfer y gymhariaeth hon.

Yn 2010 a 2004 roedd yr ymatebwyr oedd yn gweithio amser llawn yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch na'r ymatebwyr oedd yn gweithio rhan-amser.

Dengys y siart yn Ffigur 13 fod y bwlch yn cau rhwng canlyniadau asesiadau rhifedd i weithwyr amser llawn a rhan-amser. Yn 2010, aseswyd 57 y cant o weithwyr amser llawn a 50 y cant o weithwyr rhan-amser ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer rhifedd. Yn 2004, fodd bynnag, roedd y bwlch yn llawer iawn mwy, gyda 53 y cant o weithwyr amser llawn wedi'u hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, o'i gymharu â dim ond 33 y cant o weithwyr rhan-amser ar y lefel yna.

**Ffigur 13 Gweithwyr amser llawn, rhan-amser a rhifedd**





Sail: Pawb oedd yn gyflogedig a wnaeth gwblhau asesiad rhifedd
Mae pob ymatebwr 'myfyrwyr a chyflogedig' o arolwg 2010 wedi'u categoreiddio fel 'rhan-amser' ar gyfer y gymhariaeth hon.

Mae'r gyfran o ymatebwyr sy'n weithwyr rhan-amser a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch wedi codi o 5 pwynt canrannol rhwng 2004 a 2010 (o 15 y cant i 20 y cant), tra roedd y gyfran wedi aros yr un fath ymhlith y rhai oedd yn gweithio'n llawn amser (25 y cant ym mhob achos).

*3.5.4 Llythrennedd/rhifedd a statws galwedigaethol*

Gellir dadansoddi canlyniadau'r arolwg yn fras drwy gategori galwedigaethol yr ymatebwyr wedi'i seilio ar gategorïau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC)[128]. Mae'r rhain yn cynnig dulliau o wahaniaethu rhwng galwedigaethau yn ôl y math o waith a gyflawnwyd, yn ymestyn o uchel reolwyr i alwedigaethau elfennol di-grefft.

**Ffigur 14 Statws galwedigaethol a llythrennedd yr ymatebwyr**




Sail: Pawb oedd yn gweithio ac oedd wedi cwblhau asesiad llythrennedd


Fel y gellid disgwyl, roedd perthynas glos rhwng y swyddi uchel eu sgiliau a sgoriau llythrennedd uchel. Dengys Ffigur 14 fod 96 y cant neu fwy o'r rhai'n gweithio fel rheolwyr  proffesiynol, neu'r rhai  mewn swyddi cyswllt proffesiynol wedi'u hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch,  ac roedd hyn yn parhau drwy alwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol

Ymatebwyr oedd yn gweithio mewn galwedigaethau oedd yn cyfarfod cwsmeriaid, galwedigaethau sector gwasanaethau gwerthiant, gwasanaeth cwsmeriaid a gwasanaethau personol oedd y rhai oedd yn y safle canol mewn asesiadau

[128] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/index.html

llythrennedd, tra’r rhai oedd mewn galwedigaethau elfennol ac yn gweithio fel gweithredwyr proses, offer a pheiriannau oedd y rhai oedd yn lleiaf tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch (75 y cant a 78 y cant yn ôl eu trefn). Roedd ymatebwyr oedd yn gweithio fel crefftwyr (megis seiri, plymwyr a bricwyr) â sgiliau llythrennedd cymharol isel, gyda 79 y cant yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch.

**Ffigur 15 Statws Galwedigaethol a Rhifedd**




Sail: Pawb oedd yn gweithio ac oedd wedi cwblhau asesiad rhifedd

Dengys Ffigur 15 fod yna hefyd berthynas rhwng statws galwedigaethol a rhifedd, gyda chanlyniadau uwch yn yr asesiad eto yn cael eu cysylltu’n fras â galwedigaethau ble roedd angen sgiliau da. Er enghraifft, roedd 68 y cant o’r ymatebwyr yn gweithio fel rheolwyr ac uwch swyddogion. Aseswyd 78 y cant o weithwyr proffesiynol ar Lefel 1 neu’n uwch ar gyfer rhifedd, o’i gymharu â dim ond 29 y cant o’r rhai oedd yn gweithio mewn galwedigaethau elfennol. Roedd ymatebwyr oedd yn gweithio mewn galwedigaethau gwasanaethau personol (megis trinwyr gwallt, gweithwyr harddwch a gofal plant) â sgiliau rhifedd cymharol isel, gyda 28 y cant wedi’u hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch.

I ddarparu manylion pellach am broffiliau economaidd gymdeithasol yr ymatebwyr, edrychwyd ar ganlyniadau arolwg a'r asesiadau gan NS-SEC (Dosbarthiad Economaidd Gymdeithasol, Ystadegau Cenedlaethol)[129]. Mae hyn yn ddosbarthiad arall, sy'n anelu at greu ffordd fwy disgrifiadol a hyblyg o ddisgrifio'r hyn mae pobl yn ei wneud yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n caniatáu mwy o fewnwelediad i'r gwahanol nodweddion o fathau gwahanol o swyddi, yn ogystal â chynnwys y rhai hynny sydd ddim yn gweithio. Atgyfnertha'r canlyniadau yn Nhabl 28 rai o'r canfyddiadau sy'n seiliedig ar SOC uchod, gan bwysleisio'r cyswllt rhwng hierarchaeth sgiliau a chanlyniadau asesiadau llythrennedd. Er enghraifft, aseswyd rhwng 93 y cant a 99 y cant o ymatebwyr yn y categorïau SEC rheolaethol, gweithwyr proffesiynol a chanolradd ar Lefel 1 neu'n uwch i lythrennedd, tra i'r rhai oedd mewn galwedigaethau rheolwaith, y cyfran oedd 69 y cant.

**Tabl 28 Llythrennedd fesul dosbarthiad economaidd gymdeithasol (NS-SEC)**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| **Categori SEC** | **Asesiad Llythrennedd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Lefel Mynediad %** | **Lefel 1 %** | **Lefel 2 %** |
| Uwch-reolwyr a gweithwyr proffesiynol (210/191)[130] | 0 | 12 | 87 |
| Is-reolwyr a gweithwyr proffesiynol (520/506) | 4 | 25 | 71 |
| Canolradd (190/187) | 6 | 26 | 67 |
| Cyflogwyr bach a gweithwyr cyfrif eu hunain (171/168) | 12 | 33 | 55 |
| Is oruchwylwyr a gweithwyr technegol (230/205) | 14 | 41 | 45 |
| Galwedigaethau lled reolwaith (340/366) | 18 | 35 | 47 |
| Galwedigaethau rheolwaith (240/253) | 31 | 34 | 35 |
| Erioed wedi gweithio/ di-waith tymor hir (71/86) | 26 | 41 | 33 |
| Myfyriwr llawn amser (115/122) | 9 | 25 | 67 |
| Di-ddosbarth (28/32) | [14][131] | [23] | [63] |
| Sail a bwysolwyd | 252 | 623 | 1240 |
| Sail na phwysolwyd | 286 | 629 | 1201 |

Sail: Yr holl ymatebwyr a gwblhaodd asesiad llythrennedd

Roedd ymatebwyr nad oedd erioed wedi gweithio neu oedd yn ddi-waith tymor hir ychydig yn llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad neu'n is na'r rhai oedd mewn galwedigaethau rheolwaith (26 y cant a 31 y cant yn ôl eu trefn). Mae grŵp y

[129] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/soc2010-volume-3-ns-sec--rebased-on-soc2010--user-manual/index.html
[130] Dynoda'r gwerthoedd mewn cromfachau seiliau a bwysolwyd ac na phwysolwyd yn ôl eu trefn.
[131] Mae cromfachau sgwâr yn dynodi sampl o lai na 50.

di-waith yn anodd i'w ddadansoddi am y bydd yn cwmpasu pobl sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau a gallu ond ag amgylchiadau personol allai gael mwy o effaith yn y cyd-destun hwn na lefelau eu sgiliau, gan gynnwys y rhai â chyfrifoldebau gofal, pobl â gwaeledd tymor hir neu anabledd a'r rhai sy'n edrych am waith, er enghraifft.

Wrth edrych ar ganlyniadau'r asesiad am rifedd gan NS-SEC yn Nhabl 29, gellir gweld ei fod yn dilyn patrwm tebyg i'r un llythrennedd, er gyda chyfran is o asesiadau ar Lefel 1 neu'n uwch a gyda amrediad ehangach o ganlyniadau, o 81 y cant o uwch reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch i ddim ond 15 y cant o'r rhai sy'n ddi-waith tymor hir a'r rhai na weithiodd erioed.

**Tabl 29 Rhifedd fesul galwedigaeth (NS-SEC)**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| Categori SEC | Asesiad Rhifedd | | |
|---|---|---|---|
| | Lefel Mynediad % | Lefel 1 % | Lefel 2 % |
| Uwch-reolwyr a gweithwyr proffesiynol (211/191)[132] | 19 | 37 | 44 |
| Is-reolwyr a gweithwyr proffesiynol (519/505) | 35 | 37 | 28 |
| Canolradd (191/188) | 44 | 38 | 18 |
| Cyflogwyr bach a gweithwyr cyfrif eu hunain (172/170) | 51 | 28 | 21 |
| Is oruchwylwyr a gweithwyr technegol (229/205) | 60 | 25 | 15 |
| Galwedigaethau lled-reolwaith (342/367) | 69 | 21 | 11 |
| Galwedigaethau rheolwaith (241/252) | 77 | 15 | 8 |
| Erioed wedi gweithio/ di-waith tymor hir (71/86) | 85 | 14 | 1 |
| Myfyriwr llawn amser (115/121) | 43 | 32 | 25 |
| Di-ddosbarth (28/32) | [31][133] | [45] | [23] |
| Sail a bwysolwyd | 1069 | 615 | 434 |
| Sail na phwysolwyd | 1112 | 595 | 410 |

Sail: Pob ymatebydd

Roedd sgôr asesiadau llythrennedd a rhifedd yn amrywio ar draws diwydiant cyflogaeth yr ymatebwyr, fel y dangosir yn Nhabl 30. Y gweithgareddau ble roedd dros 75 y cant o'r ymatebwyr â sgôr llythrennedd ar Lefel 2 neu'n uwch[134] oedd:

- gwybodaeth a chyfathrebu;

[132] Dynoda'r gwerthoedd mewn cromfachau seiliau a bwysolwyd ac na phwysolwyd yn ôl eu trefn.
[133] Mae cromfachau sgwâr yn dynodi sampl o lai na 50.
[134] Ble roedd digon o sampl i ddyfynnu canlyniadau.

- gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol;
- addysg a;
- gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn.

**Tabl 30 Llythrennedd fesul sector diwydiant (SIC)**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| **Grŵp SIC yr ymatebwyr** | **Asesiad Llythrennedd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Lefel Mynediad** | **Lefel 1** | **Lefel 2** |
| | **%** | **%** | **%** |
| Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd (143/151)[135] | 15 | 39 | 47 |
| Gweithgareddau Sefydliadau a Chyrff Alldiriogaethol (2/2) | [][136] | [] | [][137] |
| Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaethau Cymorth (80/76) | 27 | 25 | 48 |
| Amaeth, Coedwigaeth a Physgota (16/15) | [24] | [35] | [40] |
| Y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden (37/35) | [10] | [35] | [56] |
| Adeiladu (116/104) | 17 | 28 | 56 |
| Addysg (206/210) | 3 | 20 | 77 |
| Cyflenwi Trydan, Nwy, Ager ac Aer Dymheru (9/7) | [40] | [31] | [29] |
| Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant (42/43) | [1] | [24] | [75] |
| Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (298/312) | 10 | 36 | 54 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu (54/40) | 4 | 12 | 84 |
| Cynhyrchu (235/224) | 20 | 31 | 49 |
| Mwyngloddio a Chwarela (9/10) | [20] | [42] | [39] |
| Gweithgareddau Gwasanaethau Eraill (39/41) | [25] | [28] | [47] |
| Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol (78/74) | 0 | 22 | 78 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn (180/174) | 4 | 20 | 75 |
| Gweithgareddau Eiddo Tiriog (11/13) | [0] | [27] | [73] |
| Cludiant a Storio (64/62) | 13 | 38 | 49 |
| Cyflenwi Dŵr (17/15) | [15] | [37] | [47] |
| Masnach Cyfanwerthu a Mân-werthu (264/261) | 12 | 32 | 56 |
| Sail a bwysolwyd 1962 | | | |
| Sail na phwysolwyd 1936 | | | |

Roedd y gyfran uchaf o ymatebwyr ag asesiadau ar Lefel Mynediad neu’n is ar gyfer llythrennedd, yn gweithio yn y gwasanaethau gweinyddol neu’r gwasanaethau cefnogol, cynhyrchu ac adeiladu. Dylid nodi y cafwyd sgôr asesiadau isel mewn

[135] Dynoda’r gwerthoedd mewn cromfachau seiliau a bwysolwyd ac na phwysolwyd yn ôl eu trefn.
[136] Mae cromfachau sgwâr yn dynodi sampl o lai na 50.
[137] Mae’r eitem ddata yn disclosive neu heb fod yn ddigon cadarn i’w gyhoeddi

diwydiannau eraill, rhai sylfaenol yn bennaf, ond nid oedd digon o sampl o ymatebwyr i ddarparu data cadarn ar gyfer y sectorau hyn.

Roedd y cyfrannau uchaf o ymatebwyr ar Lefel 2 am rifedd yn yr un pedwar sector ag am lythrennedd, er ar lefel llawer is. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu yn symud i fyny'r safleoedd am rifedd o'i gymharu â llythrennedd, gan adlewyrchu'r ffaith, efallai, fod mwy o angen rhifedd yn eu sectorau priodol (Tabl 31).

**Tabl 31 Rhifedd fesul sector diwydiant (SIC)**

**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| **Grŵp SIC yr ymatebwyr** | | **Asesiad Rhifedd** | |
|---|---|---|---|
| | **Lefel Mynediad** | **Lefel 1** | **Lefel 2** |
| | **%** | **%** | **%** |
| Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd (143/151)[138] | 67 | 14 | 19 |
| Gweithgareddau Sefydliadau a Chyrff Alldiriogaethol (2/2) | [][139] | [[140]] | [0] |
| Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaethau Cymorth (80/76) | 56 | 25 | 19 |
| Amaeth, Coedwigaeth a Physgota (16/15) | [51] | [36] | [13] |
| Y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden (37/35) | [40] | [43] | [17] |
| Adeiladu (116/104) | 47 | 29 | 24 |
| Addysg (206/210) | 38 | 34 | 28 |
| Cyflenwi Trydan, Nwy, Ager ac Aer Dymheru (9/7) | [71] | [29] | [0] |
| Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant (42/43) | [32] | [46] | [22] |
| Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (298/312) | 58 | 28 | 13 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu (54/40) | 22 | 35 | 43 |
| Cynhyrchu (235/224) | 54 | 24 | 22 |
| Mwyngloddio a Chwarela (9/10) | [77] | [4] | [19] |
| Gweithgareddau Gwasanaethau Eraill (39/41) | [76] | [13] | [12] |
| Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol (78/74) | 37 | 34 | 30 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn (180/174) | 32 | 37 | 32 |
| Gweithgareddau Eiddo Tiriog (11/13) | [29] | [51] | [20] |
| Cludiant a Storio (64/62) | 60 | 22 | 18 |
| Cyflenwi Dŵr (17/15) | [63] | [24] | [13] |

[138] Dynoda'r gwerthoedd mewn cromfachau seiliau a bwysolwyd a rhai na phwysolwyd yn ôl eu trefn.
[139] Mae cromfachau sgwâr yn dynodi sampl o lai na 50.
[140] Mae'r eitem ddata yn disclosive neu heb fod yn ddigon cadarn i'w gyhoeddi

| | | | |
|---|---|---|---|
| Masnach Cyfanwerthu a Mân-werthu (264/261) | 55 | 32 | 13 |
| Sail a bwysolwyd 1966 | | | |
| Sail na phwysolwyd 1937 | | | |

*3.5.5 Galwedigaeth a rhyw*

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dangoswyd fod yna raniad llym rhwng y ddau ryw mewn asesiadau rhifedd yn arbennig. Mae'r adran hon yn ystyried a yw hyn yn cael effaith ar lefelau sgiliau galwedigaethol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn datgan mai'r sefyllfa o hyd yw mai dynion sydd yn y mwyafrif o swyddi rheoli ac uwch swyddogion (15 y cant o ddynion cyflogedig yn erbyn 11 y cant o ferched cyflogedig yng Nghymru[141], gweler Tabl 32). Ar yr un pryd mae gor-gynrychiolaeth o ferched mewn galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol, ac o ddynion sy'n grefftwyr ac yn weithredyddion prosesau, offer a pheiriannau.

**Tabl 32 Galwedigaeth fesul rhyw (SOC)**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**


| **Categori SOC** | | | **Rhyw** |
|---|---|---|---|
| | **Gwrywod %** | **Benywod %** | **Cyfanswm %** |
| Rheolwyr ac Uwch-swyddogion | 15 | 11 | 13 |
| Galwedigaethau Proffesiynol | 13 | 13 | 13 |
| Gweithiwyr Proffesiynol Ategol a Gweithrediadau Technegol | 13 | 16 | 15 |
| Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 5 | 17 | 11 |
| Galwedigaethau Crefftwyr | 20 | 2 | 12 |
| Galwedigaethau Gwasanaethau Personol | 4 | 18 | 10 |
| Galwedigaethau Gwasanaethau Gwerthu a Chwsmeriaid | 4 | 11 | 8 |
| Gweithredwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau | 13 | 2 | 8 |
| Galwedigaethau Elfennol | 12 | 11 | 11 |

Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2010, ONS.

Mae Ffigur 16 yn rhoi canlyniadau asesiadau llythrennedd fesul galwedigaeth a rhyw, sy'n dangos fod gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn y mwyafrif o alwedigaethau. Yn benodol, mae dynion yn fwy tebygol na merched o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch ym mhob galwedigaeth ac eithrio gweithwyr proffesiynol ategol / technegol, crefftwyr (yn eironig categori galwedigaethol ble mae gwrywod yn tra arglwyddiaethu) ac mewn galwedigaethau di-grefft, elfennol.

[141] Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2010, ONS.


**Ffigur 16 – Galwedigaeth (SOC), rhyw a llythrennedd**




Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd

Yn Ffigur 17, dangosir y canlyniadau rhifedd fesul rhyw a galwedigaeth. Yn yr achos hwn mae rhaniad llawer iawn amlycach rhwng y gyfran o ddynion a merched a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch, ym mhob categori galwedigaethol, gyda'r eithriad o weithredwyr offer a pheiriannau prosesu, ble roedd y canlyniadau'n gyfartal.

**Ffigur 17 – Galwedigaeth (SOC), rhyw a rhifedd**




Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

Roedd yr arolwg hefyd yn edrych ar lythrennedd a rhifedd mewn perthynas â galwedigaeth y pen teulu, fel mesur bras o ddosbarth cymdeithasol ble nad oedd y pen teulu wedi'i gyfweld/ei chyfweld. Fodd bynnag, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna rhwng y canlyniadau yma a'r rhai yn y sampl cyffredinol i ymatebwyr, fel y dangosir yn Nhabl 33, gan ddangos fod proffil y sampl cyfan wedi'i gysylltu'n agos iawn i'w cartrefi unigol.

**Tabl 33 Llythrennedd: Galwedigaeth yr ymatebydd vs. Galwedigaeth y penteulu**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**


| | **% Rheolwyr a phroffesiynol** | | **% Galwedigaethau canolradd** | | **% Galwedigaethau gweithiol** | | **% Dim gwaith sylweddol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymate.** | **Pen** | **Ymate.** | **Pen** | **Ymate.** | **Pen** | **Ymate.** | **Pen** |
| Lefel Mynediad | 3 | 2 | 9 | 10 | 21 | 20 | 15 | 17 |
| L1 | 22 | 23 | 29 | 27 | 37 | 36 | 30 | 32 |
| L2 neu'n uwch | 76 | 74 | 62 | 63 | 43 | 43 | 55 | 51 |
| Sail a bwysolwyd | 697 | 747 | 355 | 370 | 824 | 745 | 240 | 135 |
| Sail na phwysolwyd | 730 | 773 | 362 | 368 | 809 | 715 | 215 | 132 |

Ymate.= Galwedigaeth yr ymatebydd 2010. Pen = Galwedigaeth y pen teulu 2010
Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad llythrennedd

### *3.5.6 Llythrennedd/rhifedd ac incwm y cartref*

Yn gynharach yn yr adran hon, nodwyd fod galwedigaethau ble roedd angen gwell sgiliau yn fwy tebygol o gael eu cysylltu â sgôr asesiad llythrennedd a rhifedd uwch. Gellir gweld fod enillion cartrefi sy'n uwch ar gyfartaledd yn gysylltiedig â lefelau sgiliau a aseswyd. Dengys Ffigur 18 fod y rhai a aseswyd ar Lefel 2 am lythrennedd gydag incwm cartref o bron i £32,000 ar gyfartaledd yn 2010 – cynnydd o tua £2,500 ers arolwg 2004.

**Ffigur 18 Llythrennedd ac incwm teuluol**[142]





Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd

142 Cyfanswm incwm y cartref cyn treth na didyniadau

Fodd bynnag, roedd incwm cartref y rhai a aseswyd am lythrennedd yn is na Lefel 1 yn ddim ond ychydig yn fwy na hanner y ffigwr hwnnw, ar £16,400. Ymhellach, roedd incwm cartref cyfartalog i ymatebwyr yn y grŵp hwn wedi disgyn ers 2004. Felly mae'r bwlch mewn enillion rhwng y sgôr uchaf a'r isaf mewn llythrennedd wedi tyfu yn ystod y cyfnod 2004-2010.

Roedd perthynas glir rhwng sgôr asesiad rhifedd yr ymatebwyr a'u enillion cartref ar gyfartaledd (Ffigur 19). Fodd bynnag, roedd enillion y cartref wedi codi i bob grŵp ers 2004. Efallai y gall y ffaith fod ychydig yn llai o unigolion wedi'u hasesu ar Lefel 2 rhifedd (21 y cant) nag mewn llythrennedd (59 y cant), egluro'r canlyniad fod enillion y grŵp hwn ar gyfartaledd yn uwch, ar bron i £36,500. Mae'r gwahaniaeth rhwng incwm y cartref ar Lefel Mynediad ac yn is, a'r rhai ar Lefel 1 yn sylweddol fwy na'r rhai a aseswyd ar Lefelau 1 a 2 yn ôl eu trefn.

**Ffigur 19 Rhifedd ac incwm y cartref**




Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiad rhifedd

Dengys Tabl 34 sut mae'r berthynas rhwng incwm unigolyn a lefelau llythrennedd a aseswyd yn dilyn patrwm tebyg i incwm y cartref. Roedd y rhai oedd wedi'u hasesu ar lefelau uwch o'r naill neu'r llall ag incwm cyfartalog uwch. Fodd bynnag, er fod gan ymatebwyr, ar bob lefel sgiliau ag incwm uwch na'u cymheiriaid yn 2004, roedd y duedd at ei fyny yn amlycach yn nhermau rhifedd ar y lefelau sgiliau uwch. Er enghraifft, ymysg y rhai a aseswyd ar Lefel 1 rhifedd, cododd incwm cyfartalog o dros £4,500 rhwng 2004 a 2010 tra i ymatebwyr Lefel 2 roedd codiad o dros £5,600 mewn incwm cyfartalog yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn yn cymharu â chodiad

ymysg y rhai a aseswyd ar Lefel 1 mewn llythrennedd o lai na £1,800 ac ymysg y rhai a aseswyd ar Lefel 2 llythrennedd, codiad o ychydig dros £3,450.

**Tabl 34 Incwm cyfartalog unigolyn, llythrennedd a rhifedd**


| | **Llythrennedd** | | **Rhifedd** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **2004** | **2010** | **2004** |
| Lefel Mynediad | £14,494 | £12,153 | £16,751 | £12,541 |
| L1 | £17,624 | £15,825 | £22,576 | £18,004 |
| L2 neu'n uwch | £23,296 | £19,845 | £28,852 | £23,189 |
| Sail a bwysolwyd | 2134 | 2555 | 2134 | 2555 |
| Sail na phwysolwyd | 2134 | 2555 | 2134 | 2555 |

Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiadau llythrennedd a rhifedd

Yn ogystal â Lefelau sgiliau uchel yn cael eu cysylltu ag enillion cyfartalog neu incwm y cartref uwch dengys Ffigur 20 fod yna hefyd gysylltiad rhwng y sgôr asesiadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar bob lefel o incwm y cartref. Gan hynny, tra mai dim ond 1 y cant o ymatebwyr o gartrefi oedd ag incwm blynyddol o £50,000 neu fwy a aseswyd ar Lefel Mynediad neu'n is am lythrennedd; roedd y gyfran yn 22 y cant i ymatebwyr o gartrefi oedd ag incwm o lai na £15,000. Yn nhermau rhifedd, roedd 19 y cant o ymatebwyr o gartrefi ble roedd y band enillion uchaf wedi'u hasesu ar Lefel Mynediad neu'n is, ond roedd 69 y cant o'r rhai yn y band incwm isaf wedi'u hasesu ar y lefel sgiliau isaf.

Mae'n symptomatig o'r rhaniad rhwng perfformiad cymharol ymatebwyr mewn llythrennedd a rhifedd fod proffil asesiad llythrennedd o'r rhai yn y band incwm cartref isaf yn agos iawn at broffil rhifedd y rhai yn y band incwm uchaf, gyda 42 y cant yn cael eu hasesu ar Lefel 2 ym mhob achos.

**Ffigur 20 Llythrennedd, rhifedd ac amrywiaeth incwm cartrefi**




Sail: Pawb wnaeth gwblhau asesiadau llythrennedd a rhifedd

*3.5.7 Crynodeb*

Mae'r adran hon o'r adroddiad wedi dangos fod cyfran yr asesiadau llythrennedd ar Lefel Mynediad i ymatebwyr di-waith wedi haneru ers 2004. Fodd bynnag, roedd y rhai mewn gwaith yn dal i fod hanner mor debygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd ag ymatebwyr oedd yn ddi-waith. Nid yw Lefelau Rhifedd wedi newid i'r un graddau, ac aseswyd 62 y cant o ymatebwyr di-waith ar Lefel Mynediad yn 2010. Nid oedd gwahaniaeth yn y gyfran o'r asesiadau ar Lefel Mynediad am lythrennedd rhwng gweithwyr amser llawn a rhan-amser ac ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn nhermau eu lefelau  rhifedd priodol.

Mae cysylltiadau bras rhwng lefelau galwedigaethol SOC a sgiliau llythrennedd a rhifedd, er fod rhai galwedigaethau yn sefyll allan fel rhai sy'n dangos sgôr isel am lythrennedd (fel crefftwyr), a rhifedd (gwasanaethau personol). Roedd y berthynas rhwng y Dosbarthiad Economaidd Gymdeithasol a llythrennedd a rhifedd yn fwy cyson, fodd bynnag.

Mae incwm y teulu yn perthyn yn agos i lefelau asesiadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, roedd ymatebwyr oedd wedi'u hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch am lythrennedd ag incwm cyfartalog cartref o bron i ddwywaith y rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad neu'n is. Dim ond 1 y cant o ymatebwyr gydag incwm cartref o £50,000 neu'n fwy a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd, tra roedd y ffigwr yn 22 y cant i'r rhai oedd ag incwm o lai na £15,000.

### 3.6 Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd mewn Bywyd Bob Dydd

*3.6.1 Cyflwyniad*

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar Gydlyniant Cymunedol[143] yn datgan bod "y gallu i ddarllen, ysgrifennu a defnyddio rhifau'n sgil allweddol yn y gymdeithas fodern. Mae'n ategu bron pob sgil arall sy'n allweddol i bobl yn eu bywydau teuluol, gwaith a chymunedol." Mae'r polisi hwn yn crynhoi canlyniadau pellgyrhaeddol sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael ar allu unigolyn i chwarae rhan lawn a gweithgar yn eu cymuned. Yr ochr arall i hyn yw y gall unigolion eu hunain brofi ansawdd bywyd is ac wynebu anawsterau wrth gyflawni tasgau bob dydd os ydynt heb y sgiliau sylfaenol i gyflawni gweithgareddau o'r fath.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn mynd trwy ganlyniadau'r arolwg a'r asesiadau yng nghyd-destun canfyddiadau'r ymatebwyr eu hunain o'u sgiliau llythrennedd a rhifedd ac effeithiau'r rhain ar eu cyflogaeth a'u ffordd o gyfathrebu mewn gwahanol sefyllfaoedd bob dydd. Caiff agweddau ymatebwyr at berchnogaeth llyfrau a phroblemau'n ymwneud â chynhwysiant digidol eu harchwilio hefyd yng nghyd-destun canlyniadau'r asesiadau.

*Canfyddiadau Allweddol*

- Ymddengys fod unigolion wedi dod yn fwy realistig yn eu hunan-asesiadau o sgiliau: roedd 86 y cant o'r ymatebwyr yn graddio eu gallu i ddarllen fel da iawn – sy'n adlewyrchiad agos o ganlyniadau'r asesiadau llythrennedd.
- Roedd gan 81 y cant o'r ymatebwyr 25 neu'n fwy o lyfrau, er bod y gyfran yn

[143] Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009.


sylweddol is (53 y cant) ymhlith y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd.

- Teimlai mwy na hanner y rheini a raddiodd eu llythrennedd neu alluoedd mathemateg fel is na'r cyfartaledd neu wael fod hyn wedi cyfyngu ar eu rhagolygon swyddi
- Roedd y rheini oedd â llythrennedd Lefel Mynediad yn llawer llai tebygol o gael mynediad i'r Rhyngrwyd neu o fod â defnydd o gyfrifiadur nac ymatebwyr o'r sampl cyfan.

*3.6.2 Hunanasesiad o sgiliau llythrennedd*

Gofynnwyd i bawb o'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg hunanasesu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain (Ffigur 21). O safbwynt llythrennedd, roedd 87 y cant o ymatebwyr yn graddio eu gallu i ddarllen fel da iawn, ac 80 y cant yn graddio eu gallu i ysgrifennu ar y lefel hon. Yn y ddau achos, mae hyn yn cynrychioli cynnydd ar ganlyniadau 2004. Yr hyn sy'n fwy diddorol yw fod y gyfran a oedd yn graddio eu gallu darllen fel da iawn yn cyfateb yn agos i'r gyfran a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch (88 y cant) ar gyfer llythrennedd. Yn ogystal, mae'r cynnydd mewn lefelau sgiliau a hunanaseswyd ers 2004 yn adlewyrchu bron yn union y cynnydd yn y gyfran o asesiadau ar Lefel 1 neu'n uwch (73-87 y cant mewn hunanasesiadau, 75-88 y cant mewn asesiadau).

**Ffigur 21 Hunanasesiad o sgiliau llythrennedd**




Sail: Yr holl ymatebwyr

Ymddengys fod unigolion wedi dod yn fwy realistig yn eu hunanasesiadau o'u sgiliau llythrennedd (Tabl 35). O'r rhai a asesodd eu sgiliau darllen eu hunain fel da iawn neu weddol dda, cafodd 90 y cant eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch yn asesiad llythrennedd 2010 ac roedd hyn yn 13 pwynt canran yn uwch na chanlyniad arolwg 2004.


**Tabl 35 Llythrennedd: Hunanasesiad o allu darllen**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| Hunanasesiad darllen | Da | | Is na'r cyfartaledd | |
|---|---|---|---|---|
| | % 2010 | % 2004 | % 2010 | % 2004 |
| Aseswyd ar Lefel Mynediad | 10 | 23 | 67 | 58 |
| Aseswyd ar L1 | 30 | 38 | 20 | 24 |
| Aseswyr ar L2 neu'n uwch | 60 | 39 | 13 | 18 |
| Sail a bwysolwyd | 2076 | 2471 | 58 | 65 |
| Sail na phwysolwyd | 2076 | 2471 | 58 | 65 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

Yn yr un modd, cafodd 67 y cant o'r rhai a deimlai fod eu sgiliau darllen yn is na'r cyfartaledd neu'n wael eu hasesu i fod islaw Lefel 1. Unwaith eto, roedd hyn yn gynnydd ar ganlyniad 2004 o 58 y cant.

**Ffigur 22 Llythrennedd a hyder wrth ddarllen Saesneg**




Sail: Yr holl ymatebwyr

O safbwynt hyder ymatebwyr yn eu gallu i ddarllen Saesneg mewn gwahanol amgylchiadau, roedd 98 y cant yn hyderus ynghylch darllen llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth gyfeillion a theulu (o'r rhain roedd 92 y cant yn hyderus iawn), fel y dangosir yn Ffigur 22. Roedd y gyfran yn debyg o ran ei gallu i ddarllen Saesneg yn y gwaith (99 y cant o'r rhai mewn gwaith), ac wrth ddarllen ffurflenni (97 y cant o'r sampl).

Yr unig grwpiau gydag hunanasesiad amlwg is ar y mesurau hyn oedd y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad 1 a'r rheini a oedd wedi derbyn hyfforddiant mewn Saesneg y tu allan i leoliad ysgol (cymorth ESOL yn bennaf), gyda 86 y cant ohonynt yn hyderus yn eu gallu darllen yn y Saesneg. Teimlai mwy na hanner y rhai a oedd yn graddio'u gallu darllen fel is na'r cyfartaledd fod hyn wedi cyfyngu ar eu rhagolygon swyddi ac roedd hyn yn fwy amlwg ymhlith y rhai a aseswyd ar lefelau is o lythrennedd.

### *3.6.3 Hyder wrth siarad Saesneg*

Gofynnwyd i'r rhai oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg hunanasesu eu sgiliau siarad Saesneg. Teimlai 99 y cant fod eu Saesneg llafar o leiaf yn dda a theimlai 89 y cant ei fod yn dda iawn. Roedd yn ddealladwy bod y rheini â sgiliau llythrennedd Lefel

Mynediad yn llai tebygol o asesu eu sgiliau Saesneg llafar fel da iawn na’r rheini a aseswyd ar Lefel 1 neu’n uwch, fel y dangosir yn Nhabl 36.

O safbwynt gofodol, ymatebwyr yng nghanolbarth Cymru oedd y rhai lleiaf tebygol o raddio’u sgiliau Saesneg llafar yn uchel, er gwaethaf y ffaith mai’r grŵp hwn a sgoriodd uchaf yn yr asesiadau llythrennedd. Roedd cysylltiad hefyd â lefelau cymwysterau, gydag ymatebwyr is eu cymwysterau’n llai tebygol o asesu eu sgiliau Saesneg llafar fel da iawn, gyda’r un peth yn wir am y rheini a oedd wedi derbyn hyfforddiant y tu allan i ysgol mewn Saesneg.

**Tabl 36  Llythrennedd a Rhifedd: Hunanasesiad o allu siarad**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**


| | **Hunanasesiad o allu siarad** | |
|---|---|---|
| **Lefel llythrennedd** | **Da<br>%** | **Is na’r cyfartaledd<br>%** |
| Lefel Mynediad | 12 | 36 |
| Lefel 1 | 30 | 15 |
| Lefel 2 | 59 | 49 |
| Sail a bwysolwyd | 2091 | 15 |
| Sail na phwysolwyd | 2092 | 15 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

Roedd bron bawb o’r rhai a holwyd yn hyderus ynghylch eu gallu i siarad Saesneg mewn siopau lleol (Ffigur 23). Dywedodd 95 y cant eu bod yn hyderus iawn a dywedodd 4 y cant eu bod yn weddol hyderus yn eu gallu. O’r gyfran fach iawn nad oedd yn hyderus yn y maes hwn, cafodd y cyfan eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd ac roedd pawb ohonynt o dan 45 oed.

Roedd y sefyllfa’n debyg o safbwynt hyder i archebu pryd bwyd mewn tŷ bwyta a siarad Saesneg yn y feddygfa neu’r ysbyty leol. Roedd lefelau o hyder wrth gwestiynu bil gwasanaeth cyhoeddus ychydig yn is, gyda 91 y cant yn dweud eu bod yn hyderus iawn a 5 y cant yn dweud eu bod yn weddol hyderus. Dywedodd 2 y cant nad oeddent yn hyderus yn y maes hwn.

**Ffigur 23 Llythrennedd a hyder wrth siarad Saesneg**




Nid oedd yr ymatebwyr hynny a dyfodd i fyny mewn teuluoedd lle'r oedd y rhieni bob amser yn siarad Cymraeg yn perfformio cystal yn yr asesiadau llythrennedd a rhifedd â'r rheini yr oedd eu rhieni'n siarad Saesneg bob amser,


*3.6.4 Darllen a pherchnogaeth llyfrau*

Gofynnwyd i bawb o'r ymatebwyr faint o lyfrau Saesneg oedd ganddynt yn eu cartref, gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod perthynas amlwg rhwng pobl yn darllen a'r nifer o lyfrau oedd ar gael iddynt yn eu cartref. Nododd arolwg diweddar yn yr Alban[144] fod *"Boddhad gyda sgiliau'n gysylltiedig hefyd â mynychder a math o arferion llythrennedd, megis darllen llyfrau neu bapurau newydd."* Yn arolwg 2010, roedd gan 81 y cant o'r ymatebwyr 25 neu'n fwy o lyfrau, er bod y gyfran yn sylweddol is (53 y cant) ymhlith y rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd. (Ffigur 24).

[144] Scottish Adult Literacy Survey, 2009.

Roedd perchnogaeth llyfrau hefyd yn gysylltiedig â lefelau asesiad o rifedd, gyda 90 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch a 75 y cant o'r ymatebwyr ar Lefel Mynediad yn meddu ar 25 neu fwy o lyfrau yn eu cartref.

**Ffigur 24 Perchnogaeth llyfrau, llythrennedd a rhifedd**





Sail: Yr holl ymatebwyr

Roedd perchnogaeth llyfrau ymhlith y rheini â gradd A*-C mewn TGAU iaith Saesneg ychydig yn uwch na thrwy'r sampl cyfan o ymatebwyr (88 y cant gyda 25+ o lyfrau yn y tŷ), ond nid oedd dim gwahaniaeth mewn perchnogaeth rhwng y rheini â gradd is TGAU a'r rheini heb TGAU neu gymhwyster cyfwerth mewn Saesneg (73 y cant gyda 25+ o lyfrau yn y tŷ).

Roedd perchnogaeth llyfrau wedi gostwng ers 2004, pryd yr adroddodd 89 y cant o ymatebwyr yr arolwg fod ganddynt 25 neu fwy o lyfrau yn eu cartref (Ffigur 25). Roedd y newid mwyaf trawiadol ymhlith y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd, gyda pherchnogaeth llyfrau wedi gostwng ymhlith y rhain o 77 y cant o ymatebwyr i 53 y cant yn 2010. Roedd perchnogaeth llyfrau ar ei isaf ymhlith pobl 20-24 oed, gyda 62 y cant ohonynt â 25 neu fwy o lyfrau yn eu cartref, o gymharu â 85 y cant neu fwy o bawb oedd yn 35 oed neu hŷn.

**Ffigur 25 Ymatebwyr gyda 25 neu fwy o lyfrau yn y cartref; 2010 vs. 2004**




Sail: Yr holl ymatebwyr

Roedd perthynas rhwng perchnogaeth llyfrau a hunanasesiad ymatebwyr o'u gallu darllen. (Tabl 37). Roedd gan 85 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn "dda iawn am ddarllen" 25 neu fwy o lyfrau yn eu tŷ, tra bod y gyfran yn gostwng i 43 y cant o'r rheini a deimlai fod eu sgiliau darllen yn is na'r cyfartaledd neu'n wael.

**Tabl 37 Perchnogaeth llyfrau a hunanasesiad o allu darllen**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| Hunanasesiad Darllen | Da iawn % | Da % | Is na'r Cyfartaledd / Gwael % |
|---|---|---|---|
| **Perchnogaeth Llyfrau** | | | |
| Llai na 25 o lyfrau | 15 | 36 | 56 |
| 25 neu fwy o lyfrau | 85 | 63 | 43 |
| Ddim yn gwybod | 0 | 1 | 1 |
| Sail a bwysolwyd | 2719 | 352 | 60 |
| Sail na phwysolwyd | 2692 | 377 | 62 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

### *3.6.5 Hunanasesiad o sgiliau rhifedd*

Ymddangosai ymatebwyr fel petaent yn llai hyderus ynghylch eu sgiliau mathemateg nag oeddent lle'r oedd darllen yn y cwestiwn, er, fel y dangosir yn Nhabl 38, fe fu cynnydd yn lefel gyfartalog hunanasesiad ymatebwyr ers 2004, gyda 62 y cant yn graddio'u gallu fel da iawn yn 2010, o gymharu â 49 y cant yn 2004.

**Tabl 38 Hunanasesiad o allu mathemategol**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| Gallu Mathemategol | Da iawn % | Gweddol Dda % | Is na'r Cyfartaledd % | Gwael % |
|---|---|---|---|---|
| 2010 | 62 | 32 | 5 | 1 |
| 2004 | 49 | 44 | 5 | 2 |
| Sail a bwysolwyd (2010) 2134 | | | | |
| Sail a bwysolwyd (2004) 2555 | | | | |

Sail: Yr holl ymatebwyr

Roedd rhywfaint o'u cynnydd mewn hyder yn ddi-sail, fodd bynnag, gan fod 48 y cant o'r rheini a raddiodd eu mathemateg fel da wedi cael eu hasesu ar Lefel Mynediad, sy'n debyg i'r gyfran yn 2004. Ar y llaw arall, cafodd 14 y cant o'r rheini a hunanasesodd eu sgiliau mathemateg fel is na'r cyfartaledd eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (sy'n debyg i'r 15 y cant yn 2004.)

Fel gyda llythrennedd, roedd mwy na hanner y rhai oedd yn graddio eu gallu mathemategol fel is na'r cyfartaledd neu'n wael, yn teimlo fod hyn wedi cyfyngu ar eu rhagolygon swyddi ac roedd hyn yn arbennig o wir am ymatebwyr gwrywaidd.

**Tabl 39 Rhifedd: Hunanasesiad o allu mathemateg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| Hunanasesiad Rhifedd | Da | | Is na'r Cyfartaledd | |
|---|---|---|---|---|
| | 2010 % | 2004 % | 2010 % | 2004 % |
| Aseswyd ar Lefel Mynediad | 48 | 51 | 85 | 85 |
| Aseswyd ar L1 | 30 | 26 | 14 | 13 |
| Aseswyd ar L2 neu'n uwch | 22 | 23 | 0 | 2 |
| Sail a bwysolwyd | 1992 | 2471 | 124 | 65 |
| Sail na phwysolwyd | 1963 | 2471 | 152 | 65 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

### *3.6.6 Cynhwysiant Digidol ac Allgáu Digidol*

Gall allgáu digidol godi o nifer o ffactorau, gan gynnwys technoleg, amgylchiadau cymdeithasol a sgiliau. Yn ôl ymchwiliad diweddar i gynhwysiant digidol yng

Nghymru[145]: *"Gall fod pobl yn cael eu hallgau o'r oes ddigidol oherwydd eu bod heb y sgiliau a'r ddealltwriaeth i ennill mynediad i'r rhyngrwyd na defnyddio cyfathrebu electronig ac efallai nad ydynt yn deall yr hyn y byddai mynediad o'r fath yn ei agor iddynt."* Fodd bynnag, caiff pwysigrwydd sicrhau mynediad i dechnoleg ddigidol ei bwysleisio yn Cyflawni Cymru Ddigidol[146]: "*mae tystiolaeth ryngwladol bellach yn awgrymu bod allgáu cymdeithasol ac allgáu digidol yn ategu ei gilydd*."

**Tabl 40 Cynhwysiant Digidol**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| Lefelau Asesu | Mynediad i'r Rhyngrwyd % | Defnydd o Gyfrifiadur % | Wedi Defnyddio Cyfrifiadur o gwbl * % | Hunanasesiad o Sgiliau TGCh Da iawn / Gweddol Dda % |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel Mynediad** | 68 | 61 | 36 | 73 |
| **L1** | 81 | 82 | 29 | 86 |
| **L2 neu uwch** | 94 | 94 | 53 | 91 |
| **Sail a bwysolwyd** | 2115 | 2115 | 289 | 1963 |
| **Sail na phwysolwyd** | 2116 | 2116 | 330 | 1939 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Saesneg
*O'r rheini nad oedd ganddynt fynediad i gyfrifiadur ar adeg yr arolwg.

Caiff y cysylltiad ei gadarnhau gan ganlyniadau'r arolwg (Tabl 40), sy'n dangos bod y rheini â llythrennedd Lefel Mynediad yn llawer llai tebygol o gael mynediad at y Rhyngrwyd neu o gael defnydd cyfrifiadur na'r sampl gyfan o ymatebwyr. Roedd gan 68 y cant o ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd fynediad i'r Rhyngrwyd, tra bod y gyfran yn 94 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 neu uwch. Roedd y canlyniadau ar gyfer defnydd o gyfrifiadur mewn perthynas â sgoriau llythrennedd yn debyg, gyda 61 y cant o ymatebwyr a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad â defnydd o gyfrifiadur. Fodd bynnag, o'r rheini nad oedd ganddynt ddefnydd o gyfrifiadur, nid oedd dau draean ohonynt erioed wedi defnyddio un.

Roedd hefyd gysylltiad llai amlwg rhwng hunan ganfyddiadau ymatebwyr o'u sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'u perfformiad o safbwynt llythrennedd, gyda 73 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad Llythrennedd yn graddio'u sgiliau

[145] Cynhwysiant Digidol yng Nghymru: Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, 2008-9
[146] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2010.

TGCh fel da iawn neu weddol dda, lle'r oedd y gyfran yn 91 y cant o'r rhai a sgoriodd ar Lefel 2 llythrennedd.

**Tabl 41 Defnydd o Gyfrifiadur**

**Allwedd: Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb**

| **Lefel llythrennedd**<br>**Gweithgaredd** | **Lefel Mynediad**<br>**%** | **Lefel 1**<br>**%** | **Lefel 2**<br>**%** | **Cyfanswm**<br>**%** |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad at y Rhyngrwyd (y We Fyd-eang) | 88 | 93 | 98 | 96 |
| E-bost | 71 | 86 | 95 | 91 |
| Prosesu geiriau – ysgrifennu llythyrau neu ddogfennau | 38 | 65 | 81 | 73 |
| Defnyddio taenlenni/cronfeydd data | 21 | 39 | 58 | 50 |
| Addysg a dysgu | 26 | 50 | 63 | 56 |
| Gemau | 48 | 46 | 45 | 45 |
| Rhaglennu | 11 | 12 | 17 | 15 |
| Gwaith (heb fanylu) | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Bancio/rheol cyllid/cyfrifon | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfrifo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio/darlunio/cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Chwarae/copïo cerddoriaeth/ argraffu cryno ddisgiau | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Ffotograffiaeth (unrhyw grybwylliad) | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Siopa | 1 | 3 | 2 | 2 |
| Rhwydweithio cymdeithasol | 0 | 3 | 2 | 2 |
| Gwylio teledu/ffilmiau (gan gynnwys cyfeiriadau at wneud hyn ar-lein ac all-lein) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Arall | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Sail a bwysolwyd | 153 | 509 | 1165 | 1827 |
| Sail na phwysolwyd | 160 | 506 | 1120 | 1786 |

Sail: Pawb oedd yn defnyddio cyfrifiadur ar y pryd

Gofynnwyd i'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg ar gyfer beth yn bennaf yr oeddent yn defnyddio cyfrifiadur (Tabl 41). Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddefnyddio cyfrifiaduron ar gyfer cael at y Rhyngrwyd (96 y cant o ymatebion), ac wedyn anfon a derbyn negeseuon e-bost (91 y cant) a phrosesu geiriau (71 y cant). Roedd ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 2 neu uwch llythrennedd yn fwy tebygol o fod yn defnyddio cyfrifiadur na'r rheini ar lefelau eraill ar gyfer pob gweithgaredd ac eithrio gemau, siopa a chyfryngau cymdeithasol.

Roedd ymatebwyr gyda sgiliau llythrennedd Lefel Mynediad yn llawer llai tebygol na'r cyfartaledd i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer prosesu geiriau (38 y cant), defnyddio taenlenni neu gronfeydd data (21 y cant), neu ar gyfer addysg a hyfforddiant (26 y cant). Fodd bynnag, hwy oedd y rhai mwyaf tebygol o ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer gemau (48 y cant) ac nid oeddent ond 8 pwynt canran yn llai tebygol na'r sampl cyfan o ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer cael at y Rhyngrwyd (88 y cant).

Canlyniad a oedd yn rhywfaint o syndod oedd y lefel isel a adroddwyd o ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol, gyda 2 y cant yn unig o gyfanswm yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn defnyddio cyfrifiadur i'r diben hwn. Gall y canlyniad fod yn adlewyrchiad o ymatebwyr yn cynnwys hyn wrth gyfeirio at fynd i'r Rhyngrwyd, neu efallai fod unigolion yn gynyddol yn defnyddio technoleg arall, yn enwedig ffonau symudol, ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol.

*3.6.7 Crynodeb*

Mae'r adran hon wedi dangos bod unigolion wedi dod yn fwy realistig yn eu hunanasesiadau o'u sgiliau llythrennedd, gyda 90 y cant o'r rhai a deimlai bod eu sgiliau darllen yn dda yn cael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch.

Er bod mwyafrif mawr o ymatebwyr yn hyderus ynghylch eu Saesneg llafar mewn amrywiaeth o leoliadau, y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad llythrennedd oedd y rhai lleiaf tebygol o fod felly.

Roedd perthynas rhwng perchnogaeth llyfrau a sgoriau asesiadau llythrennedd a rhifedd, gyda'r rheini a aseswyd i fod â lefelau uwch o lythrennedd a rhifedd yn fwy tebygol o fod â 25 neu fwy o lyfrau yn y tŷ. Roedd hefyd gysylltiad rhwng perchnogaeth llyfrau a hunanasesiad o allu darllen.

O ran cynhwysiant digidol, roedd ymatebwyr gyda llythrennedd Lefel Mynediad yn llai tebygol o fod â mynediad i'r Rhyngrwyd neu i gyfrifiadur na'r sampl o ymatebwyr fel cyfanrwydd.

## 3.7 Hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd

*3.7.1 Cyflwyniad*

Mae'n bwysig fod yr unigolion hynny sydd â diffyg sgiliau'n ymwybodol o hynny (fel sy'n dod yn fwy cyffredin, fe ymddengys) ac yn barod i wneud rhywbeth am y peth, os yw Cymru i gymryd ei lle ymysg cenhedloedd datblygedig. Mae cymryd rhan mewn dysgu'n dibynnu ar amrywiaeth helaeth o ffactorau, ond bydd y rhain yn

cynnwys cael cyfle am hyfforddiant addas mewn lleoliad cyfleus, y math iawn o ddarpariaeth, cymorth gyda gofal plant a sicrhau amser yn rhydd o'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd fod y rheini sy'n mynd trwy'r broses o ddatblygu eu sgiliau'n teimlo i'r broses fod yn werth yr ymdrech a'u bod wedi elwa yn ei sgil. Yn yr adran hon o'r adroddiad, archwilir profiadau ymatebwyr o ddysgu.

*Canfyddiadau allweddol*

- Roedd 4 y cant o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant mewn darllen, ysgrifennu neu siarad dros y 2 flynedd ddiwethaf, er bod y ffigur yn 6 y cant o'r rhai ar Lefel Mynediad 1.
- Roedd cyfraddau cwblhau dysgu bron yn 80 y cant ac fe wnaeth 70 y cant o'r rhai a gwblhaodd ennill cymhwyster.
- Dywedodd 83 y cant o'r rhai a ddilynodd hyfforddiant llythrennedd eu bod wedi dysgu llawer iawn neu gryn dipyn oddi wrth eu cwrs.
- Ysgolion, colegau a phrifysgolion oedd y prif leoliadau ar gyfer dysgu llythrennedd.
- Roedd colegau a phrifysgolion yn cael eu gweld fel y man cyntaf am gyngor i'r rheini a hunanasesodd sgiliau llythrennedd isel nad oedd ar y pryd yn cymryd rhan mewn dysgu.

### *3.7.2 Hyfforddiant ac addysg llythrennedd*

Gofynnwyd i'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg a oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant neu addysg mewn Saesneg yn y ddwy flynedd ddiwethaf (Tabl 44). O gyfrif pawb, roedd 4 y cant wedi derbyn hyfforddiant mewn darllen, ysgrifennu neu siarad neu gyfuniad o'r rhain, gyda darllen ac ysgrifennu'n fwy cyffredin. Roedd yn ddealladwy bod cyfran uwch o bobl ifanc 16-19 oed na grwpiau oedran eraill a oedd wedi derbyn hyfforddiant neu addysg yn ystod yr adeg hynny.


**Tabl 42 Hyfforddiant neu addysg mewn llythrennedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf: 2010 a 2004**

| Wedi derbyn hyfforddiant mewn llythrennedd | % 2010 | % 2004 |
|---|---|---|
| Darllen | 3 | 4 |
| Ysgrifennu | 3 | 4 |
| Siarad | 2 | 3 |
| Unrhyw un o'r uchod | 4 | 4 |
| Sail a bwysolwyd | 2134 | 2555 |
| Sail na phwysolwyd | 2134 | 2555 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

Roedd y niferoedd a oedd wedi derbyn hyfforddiant neu addysg yn Saesneg yn gysylltiedig â lefelau llythrennedd unigolion a aseswyd, fel y dangosir yn Ffigur 26, gyda'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad yn fwy tebygol o fod wedi derbyn cymorth, ac o fewn hyn, y  rheini ar Lefel Mynediad 1 neu is yn gymesurol fwyaf tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn dysgu. Rhwng pawb, roedd tua 6 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad wedi derbyn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant mewn Saesneg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n gyfystyr â thua 12,500 o oedolion mewn oedran gwaith ledled Cymru allan o gyfanswm cohort o 216,000 ar y lefel hon. Nid oedd y gyfran o ymatebwyr ar Lefel 1 ddim llawer is na hyn, ar fwy na 4.5 y cant.

**Ffigur 26 Hyfforddiant neu addysg mewn llythrennedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf**





Sail: Yr holl ymatebwyr

O'r rheini a oedd wedi derbyn hyfforddiant neu addysg mewn Saesneg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 36 y cant yn dal i gymryd rhan mewn hyfforddiant. Ymhlith y rhai nad oeddent, roedd 79 y cant wedi cwblhau eu cwrs, 19 y cant wedi gadael cyn y diwedd a 3 y cant heb fod yn gwybod a oeddent wedi cwblhau neu beidio. O'r rheini a oedd wedi cwblhau eu cwrs, roedd 70 y cant wedi ennill cymhwyster o ganlyniad i hynny.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi dilyn hyfforddiant neu addysg mewn Saesneg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf faint y teimlent eu bod wedi dysgu o'u cwrs/ cyrsiau. (Ffigur 27). Rhwng pawb, teimlai 83 y cant eu bod wedi dysgu naill ai lawer iawn neu gryn dipyn, tra teimlai 16 y cant nad oeddent ond wedi dysgu ychydig neu

nad oeddent wedi dysgu dim o gwbl. Roedd y ffigurau hyn ychydig yn fwy cadarnhaol na'r rhai cymharol ar gyfer 2004 ac awgrymant bod y mwyafrif o ddysgwyr yn cael profiad cadarnhaol, unwaith y maent wedi cymryd rhan yn y system – er bod meintiau'r sampl yma'n fath a dylid trin y data fel rhywbeth dangosol yn unig.


**Ffigur 27 I ba raddau y gwnaethoch chi elwa ar eich hyfforddiant neu addysg mewn llythrennedd?**




Sail: Pawb a oedd yn cymryd rhan mewn dysgu darllen, ysgrifennu neu siarad Saesneg.
Noder: Mae data 2010 yn seiliedig ar y rheini oedd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y pryd neu o fewn y ddwy flynedd flaenorol, mae data 2004 yn ymwneud â'r rheiny oedd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant yn y tair blynedd flaenorol.

Roedd dysgwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi mynychu dysgu mewn ysgol, coleg neu adeilad prifysgol, fel y dangosir yn Ffigur 28. Er bod hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfredol, roedd ymatebwyr mewn gwaith llawn amser yn dal i fod yn fwyaf tebygol o fod wedi dilyn dysgu yn y math hwn o leoliad. Canolfannau addysg oedolion oedd y lleoliadau mwyaf cyffredin ymysg ymatebwyr di-waith, ond mae angen i'r canlyniadau ar gyfer lleoliadau eraill gael eu trin gyda gofal oherwydd maint bychan y sampl.

### Ffigur 28 Prif fan addysgu'r rhai sy'n dilyn hyfforddiant llythrennedd




Sail: Pawb a oedd yn cymryd rhan mewn darllen, ysgrifennu neu siarad Saesneg.
Noder: Mae data 2010 yn seiliedig ar y rheini oedd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y pryd neu o fewn y ddwy flynedd flaenorol, mae data 2004 yn ymwneud â'r rheiny oedd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant yn y tair blynedd flaenorol.

Gofynnwyd i ymatebwyr ymhle y clywsant gyntaf am hyfforddiant neu addysg mewn llythrennedd, a choleg neu brifysgol oedd y brif ffynhonnell y cyfeiriwyd ati, a nodwyd gan 31 y cant o'r rheini a oedd wedi manteisio ar ddarpariaeth (Tabl 43). Cyfeillion a theulu oedd y mwyaf cyffredin wedyn (21 y cant o ymatebion), sy'n dangos pwysigrwydd cyfathrebu anffurfiol wrth gyfeirio unigolion at ddysgu.

### Tabl 43 Ffynonellau o wybodaeth ynghylch hyfforddiant ac addysg mewn llythrennedd

| Ffynhonnell gwybodaeth | % 2010 |
|---|---|
| Coleg / Prifysgol | 31 |
| Cyfeillion / Teulu | 21 |
| Canolfan Waith / Clwb Gwaith | 8 |
| Swyddfa Gyrfaoedd | 7 |
| Gan Gyflogwr / Cydweithwyr | 7 |
| Cyngor / AAA | 5 |
| O'r Rhyngrwyd | 3 |
| Llyfrgell | 2 |
| Papurau newydd / Cylchgronau | 2 |
| Arall | 12 |
| Sail a bwysolwyd | 87 |

Dim ond 5 y cant o'r rheini a oedd wedi asesu eu hunain fel llai na da iawn mewn llythrennedd oedd wedi ystyried manteisio ar gyfleoedd hyfforddi mewn Saesneg. Roedd rhywfaint o arwyddion fod y rheini a aseswyd fel rhai â lefelau is o lythrennedd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i fod wedi ystyried cymryd rhan mewn dysgu. Y prif resymau dros beidio â chymryd rhan mewn dysgu oedd ymrwymiadau gofalu (35 y cant o ymatebwyr) ac ymrwymiadau gwaith (20 y cant o ymatebwyr), ynghyd â ffactorau eraill megis cost, diffyg amser a diffyg trafnidiaeth.

*3.7.3 Hyfforddiant ac addysg rhifedd*


Fel gyda darllen ac ysgrifennu, dim ond 4 y cant o ymatebwyr oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant neu addysg mewn mathemateg sylfaenol neu sgiliau rhif yn y ddwy flynedd flaenorol ac roedd mwy na hanner y rhain yn fyfyrwyr ar adeg yr arolwg. Roedd hyn yn gyfran debyg i ganlyniadau arolwg 2004.

O'r rheini a oedd wedi derbyn hyfforddiant neu addysg mewn mathemateg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 32 y cant yn cymryd rhan mewn hyfforddiant yn y maes hwnnw ar y pryd. Ymysg y gweddill o'r rheini a oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 87 y cant wedi cwblhau eu cwrs, 9 y cant wedi gadael cyn y diwedd a 4 y cant heb fod yn gwybod a oeddent wedi cwblhau neu beidio. O'r rheini a oedd wedi cwblhau eu cwrs, roedd 79 y cant wedi ennill cymhwyster o ganlyniad, cyfran uwch nag mewn cyrsiau llythrennedd.

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu addysg mewn mathemateg naill ai ar y pryd neu yn y ddwy flynedd ddiwethaf faint y teimlent eu bod wedi ei ddysgu oddi wrth eu cwrs/cyrsiau (Ffigur 29). Rhwng pawb, teimlai 80 y cant eu bod wedi dysgu naill ai lawer iawn neu gryn dipyn o'u cwrs, tra teimlai 19 y cant iddynt ddysgu ychydig yn unig neu heb ddysgu dim o gwbl. Roedd y ffigurau hyn yn llawer mwy cadarnhaol na'r rhai y gellid eu cymharu agos am 2004, pryd y teimlai 43 y cant nad oeddent wedi dysgu ond ychydig neu heb ddysgu dim llawer iawn[147].

[147] Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol, fodd bynnag, gan fod y cwestiwn yn 2010 yn cyfeirio at y rheini a oedd wedi dilyn hyfforddiant "yn y ddwy flynedd ddiwethaf", tra bod cwestiwn 2004 yn cyfeirio at y rheini a oedd "yn y gorffennol neu ar hyn o bryd."


**Ffigur 29 I ba raddau y gwnaethoch chi elwa o'ch hyfforddiant neu addysg mewn mathemateg sylfaenol neu sgiliau rhif?**




Sail: Pawb oedd yn dilyn hyfforddiant mewn cyrsiau mathemateg sylfaenol neu sgiliau rhif

Mannau dysgu mwyaf tebygol y dysgwyr oedd ysgol, coleg neu adeilad prifysgol (Ffigur 30). Er bod hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfredol, roedd ymatebwyr mewn gwaith llawn amser yn dal yn fwyaf tebygol o fod wedi dysgu yn y math hwn o leoliad, er gwaetha'r ffaith fod dysgu yn y gwaith yn fodd pwysig arall o gael at ddarpariaeth.

**Ffigur 30 Prif fan addysgu i'r rheini sy'n dilyn hyfforddiant mathemateg**




Sail: Pawb o'r rhai sy'n dilyn hyfforddiant mewn cyrsiau mathemateg neu sgiliau rhif

Mae'r canfyddiad hwn yn rhywfaint o syndod, yn wyneb y llenyddiaeth helaeth ar amharodrwydd dysgwyr sgiliau sylfaenol i fynychu dysgu ffurfiol mewn lleoliadau megis ysgolion a cholegau. Gall, fodd bynnag, adlewyrchu'r man y lleolir y ddarpariaeth yn hytrach na dewisiadau dysgwyr a darpar ddysgwyr.

Gofynnwyd i ymatebwyr ymhle y clywsant gyntaf am hyfforddiant neu addysg mewn mathemateg, fel y dangosir yn Nhabl 44. Fel oedd yn wir am ddysgu llythrennedd, coleg neu brifysgol oedd y brif ffynhonnell amlwg y cyfeiriwyd ati – a nodwyd gan 41 y cant o'r rheini a oedd yn dilyn darpariaeth. Cyflogwyr a chydweithwyr yr ymatebwyr oedd y ffynonellau ail fwyaf cyffredin o wybodaeth (16 y cant o ymatebion), a ffrindiau a theulu wedyn (13 y cant).

Dim ond 6 y cant o'r rheini a oedd wedi asesu eu hunain fel llai na da iawn mewn rhifedd oedd wedi ystyried dilyn cyfleoedd hyfforddi mewn mathemateg. Y prif resymau dros beidio â chymryd rhan mewn dysgu oedd diffyg amser (38 y cant o ymatebwyr), ymrwymiadau gwaith (29 y cant o ymatebwyr) ac ymrwymiad gofal plant (26 y cant o ymatebwyr), ynghyd â ffactorau eraill megis diffyg trafnidiaeth neu gost trafnidiaeth.

**Tabl 44 Sut y clywyd gyntaf am hyfforddiant mathemateg**


| **Prif ffynhonnell** | **% 2010** |
|---|---|
| Coleg / Prifysgol | 41 |
| O'r Rhyngrwyd | 5 |
| Swyddfa Gyrfaoedd | 8 |
| Llyfrgell | 2 |
| Papurau newydd / cylchgronau | 0 |
| Canolfan Waith / Clwb Gwaith | 6 |
| Cyfeillion / Teulu | 13 |
| Gan Gyflogwr / Cydweithwyr | 16 |
| Cyngor / AAA | 4 |
| Cynllun Llywodraeth (e.e. Y Fargen Newydd) | 1 |
| Arall | 8 |
| Sail a bwysolwyd | 83 |
| Sail na phwysolwyd | 78 |

Sail: Pawb o'r rhai'n dilyn hyfforddiant mewn cyrsiau mathemateg neu sgiliau rhif

*3.7.4 Cyngor ar hyfforddiant*

Gofynnwyd i bawb o'r ymatebwyr a oedd wedi asesu eu sgiliau eu hunain fel gwael neu is na'r cyfartaledd ac nad oedd wedi dilyn hyfforddiant i ble y byddent yn mynd am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant o'r fath (Ffigur 31). Rhwng pawb, coleg neu brifysgol oedd y dewis mwyaf poblogaidd (49 y cant o ymatebion), er bod hyn yn dueddol tuag at grwpiau oedran iau, gyda'r rhyngrwyd wedyn, neu ofyn i gyfeillion a theulu (13 y cant yr un). Byddai pobl hŷn, yn enwedig y rheini yn y band oedran 55-65, yn ddwywaith fwy tebygol na'r cyfartaledd o fynd i'w llyfrgell i gael hyd i wybodaeth ar ddysgu.

**Ffigur 31 Lle i fynd am gyngor / gwybodaeth ar hyfforddiant sgiliau sylfaenol**




Sail: Pawb gyda diffyg mewn sgiliau sylfaenol ond nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant ar ei gyfer

*3.7.5 Crynodeb*

Cyfran fach iawn yn unig o ymatebwyr (4 y cant) oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant mewn Saesneg neu rifedd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, er bod y ffigur ychydig yn uwch (6 y cant) ar gyfer y rheini gyda sgiliau llythrennedd neu rifedd Lefel Mynediad. Roedd bron i dri chwarter y rheini a oedd wedi dilyn hyfforddiant neu

addysg mewn Saesneg wedi ennill cymhwyster a theimlai 83 y cant eu bod wedi dysgu llawer iawn neu gryn dipyn. O safbwynt y rheini oedd wedi dilyn hyfforddiant rhifedd, roedd y ffigurau'n debyg iawn. Roedd safleoedd ffurfiol addysg, megis ysgol, coleg neu brifysgol, yn cael eu gweld gan ymatebwyr fel y lleoedd mwyaf tebygol i gael at ddysgu ac roeddent yn fwyaf tebygol o fod wedi derbyn gwybodaeth ar ddysgu o naill ai goleg / prifysgol neu gan gyfeillion a theulu, er bod cyflogwyr hefyd yn cael eu gweld yn hyrwyddo hyfforddiant mathemateg gan rai ymatebwyr.

# 4. Canlyniadau'r Arolwg Cyfrwng Cymraeg

## 4.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg cyfrwng Cymraeg a'r asesiad llythrennedd cysylltiedig, gan ddilyn fformat tebyg i'r ffordd yr adroddir ar yr arolwg cyfrwng Saesneg ym Mhennod 3. Mae'r adran gyntaf yn dechrau trwy gyflwyno'r prif ganlyniadau llythrennedd o arolwg 2010, gyda rhai cymariaethau cyfyngedig â chanlyniadau'r arolwg gynharach a gynhaliwyd yn 2004, a drafodir ymhellach isod. Fel gyda'r sylw a roddir i ganlyniadau'r arolwg cyfrwng Saesneg, cyflwynir sgiliau yng nghyd-destun ffactorau demograffig, megis oedran, rhyw, rhanbarth preswyl a lle cafodd ymatebwyr eu geni. Caiff canlyniadau'r arolwg mewn perthynas ag iaith eu dadansoddi hefyd mewn rhywfaint o ddyfnder, gan edrych, er enghraifft, ar ba iaith yr oedd ymatebwyr yn ei defnyddio'n bennaf yn eu cartref, yn y gwaith neu'r ysgol a sut yr oedd hyn yn gysylltiedig â'u hasesiad llythrennedd, ynghyd ag ai'r Gymraeg neu'r Saesneg oedd eu hiaith gyntaf ac ar ba oedran y dechreuasant ddysgu'r naill neu'r llall o'r rhain fel ail iaith. Adroddir data'r arolwg a'r asesiadau hefyd mewn perthynas â nodweddion cartref yr ymatebwyr, megis maint a deiliadaeth ac mae adran gyntaf y bennod yn diweddu gyda golwg ar asesiadau llythrennedd mewn perthynas â hunan ganfyddiadau ymatebwyr o iechyd, amlder salwch hirdymor neu anawsterau dysgu ac unrhyw fudd-daliadau neu gredydau treth y wladwriaeth a hawliwyd.

Mae'r adran ganlynol o'r bennod hon yn edrych ar asesiadau llythrennedd Cymraeg ymatebwyr gyda chyfeiriad at eu nodweddion addysgol, megis eu cymwysterau uchaf, iaith eu haddysg gynradd ac uwchradd ac yn olaf y cyfrwng yr addysgwyd eu rhieni ynddo. Mae'r adran yn cyflwyno'r dystiolaeth o gysylltiadau rhwng gwahanol agweddau o addysg ymatebwyr a'u hasesiadau llythrennedd dilynol yn y Gymraeg. Mae hyn yn arwain ymlaen at y drydedd adran, sy'n adrodd ar ganlyniadau'r arolwg mewn perthynas â chyflogaeth, statws galwedigaethol ac enillion ymatebwyr.

Mae pedwaredd adran y bennod hon yn trafod canlyniadau'r arolwg a'r asesiadau yng ngoleuni sut mae ymatebwyr yn canfod eu sgiliau llythrennedd eu hunain a lefelau eu hyder wrth siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd bob dydd. Dilynir hyn gyda golwg ar ganlyniadau'n ymwneud â mynediad digidol, trwy gyfrifiadur cartref a'r rhyngrwyd. Yn olaf yn y bennod hon,

archwilir canlyniadau'r arolwg o safbwynt profiadau diweddar ymatebwyr o hyfforddiant neu addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac i le y byddent yn mynd am gyngor neu gymorth ynglŷn â dysgu o'r fath.

*4.1.1 Cymharu canlyniadau o arolwg 2010 â rhai o 2004*

Roedd arolwg 2010 wedi ei gynllunio i ddarparu methodoleg gadarn, gan gynnal cysondeb gydag arolwg cyfrwng Cymraeg 2004 ac arolwg cyfrwng Saesneg 2010 lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ffordd ddibynadwy na chyson o gymharu holl lefelau llythrennedd Cymraeg o 2004 â lefelau llythrennedd yn 2010, am nifer o resymau:

- Gofynnodd arolwg 2004 i ymatebwyr ddosbarthu eu gallu yn y Gymraeg yn ôl y termau “rhugl” neu (allu siarad) “yn weddol dda / rhywfaint”. Yn arolwg 2010, y categorïau oedd “rhugl” neu “gweddol dda”.
- Roedd yr asesiad yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2004 o hyfedredd darllen ac ysgrifennu Cymraeg, er bod rhywfaint o newidiadau wedi cael eu gwneud – yn bennaf fod yr adran derfynol, a oedd yn canolbwyntio ar dasgau ysgrifennu estynedig, wedi ei hepgor o asesiad 2010. Roedd hyn ar y sail fod yr asesiad, heb yr adran hon, yn adlewyrchu'n agosach yr un a ddefnyddiwyd yn yr arolwg a'r asesiad cyfrwng Saesneg.
- Diffyg eglurder ynghylch yr union fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad o arolwg 2004 i drosi sgoriau asesiadau'n lefelau llythrennedd.
- Nid oedd sgoriau asesiadau llythrennedd ar gyfer set ddata 2004 ond ar gael yn ffurf setiau wedi eu bandio o ddata, ac nid oedd unrhyw ffordd ddibynadwy o gyfateb lefelau llythrennedd a gyfrifwyd o'r rhain â'r ffigurau a gyflwynwyd yn adroddiad 2004. Fodd bynnag, roedd adroddiad 2004 yn cynnwys dadansoddiadau canran ar gyfer pedwar newidyn y gellid eu defnyddio fel cymaryddion yn erbyn cywerthyddion 2010, gan eu bod yn cyfeirio at ganlyniadau'r asesiadau cyfrwng Cymraeg, ac eithrio'r tasgau ysgrifenedig. Y rhain oedd:
    - Rhanbarth;
    - Oedran;
    - Gallu i siarad Cymraeg, a;
    - Gallu i ysgrifennu Cymraeg.

- Roedd adroddiad 2004 yn defnyddio categorïau oedran ychydig yn wahanol – 16-64 oed, tra bod adroddiad 2010 yn defnyddio 16-65 oed.

Gan hynny, er bod canlyniadau arolwg 2010 yn ein galluogi i gymharu'r prif ganlyniadau â rhai 2004, nid ydynt yn cefnogi cymhariaeth fanwl. Fodd bynnag, gobeithir bod canlyniadau 2010 yn gosod man cychwyn cadarn ar gyfer cymhariaeth â chanlyniadau yn y dyfodol.

## 4.2 Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd a Phriodoleddau Demograffig ymysg Siaradwyr Cymraeg

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r arolwg a'r asesiadau o lythrennedd Cymraeg, gyda chymariaethau lle bo'n bosibl ag arolwg 2004. Caiff y rhain wedyn eu harchwilio yng nghyd-destun canfyddiadau'r ymatebwyr eu hunain o'u gallu i siarad Cymraeg ac o safbwynt oedran a rhyw. Mae'r dadansoddiad yn mynd ymlaen wedyn i edrych ar lythrennedd mewn perthynas â lle'r oedd ymatebwyr yn byw ar adeg yr arolwg ac a oeddent wedi eu geni yng Nghymru ai peidio. Mae wedyn yn symud at ddefnydd o iaith, gan edrych ar y brif iaith a ddefnyddid gan ymatebwyr yn eu cartref, gwaith neu ysgol, yr iaith gyntaf a ddysgasant a'r oedran y dysgasant naill ai Saesneg neu Gymraeg fel ail iaith. Fel gyda'r arolwg cyfrwng Saesneg, mae adran wedyn sy'n archwilio'r canlyniadau yn nhermau priodoleddau y cartref fel maint cartref yr ymatebwyr a'u statws priodasol. Mae rhan derfynol yr adran yn edrych ar lythrennedd gan gyfeirio at a oedd ymatebwyr yn berchen neu'n rhentu eu cartref eu hunain, a oeddent yn derbyn budd-daliadau (ac os oeddent, pa rai), a'r ffordd yr oeddent yn hunan raddio eu hiechyd eu hunain.

*Canfyddiadau allweddol*

- Roedd arolwg ac asesiad o lythrennedd cyfrwng Cymraeg 2010 yn edrych ar 1,001 o unigolion mewn oedran gwaith yng Nghymru a oedd wedi eu hasesu eu hunain fel naill ai'n rhugl yn y Gymraeg, neu'n gallu siarad yr iaith yn "weddol dda".
- Mae'r canlyniadau'n caniatáu i rai cymariaethau bras gael eu gwneud gyda'r canlyniadau am 2004, er bod gwahaniaethau allweddol yn y ffordd yr aed ati.
- Rhwng pawb, cafodd 63 y cant o ymatebwyr eu dosbarthu ar Lefel 1 neu uwch yn 2010 – cwymp o 4 pwynt canran ers 2004.
- Ymysg y rhai oedd yn asesu eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl, cafodd 74 y cant eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, i lawr o 86 y cant yn 2004.

- Roedd merched yn sgorio'n well na dynion yn yr asesiadau, gyda 69 y cant yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch, o'i gymharu â 58 y cant ar gyfer dynion.
- Roedd y newid mwyaf sylweddol yn y grwpiau oedran iau: roedd y gyfran o ymatebwyr 16-24 oed a aseswyd ar Lefel Mynediad yn 45 y cant yn 2010. Yn 2004 roedd yn 22 y cant.
- Ymatebwyr o Dde-ddwyrain Cymru a berfformiodd orau o unrhyw ranbarth yn yr asesiad, er gwaethaf y ffaith mai yno'r oedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg.
- Fe wnaeth y rheini a aned yng Nghymru sgorio'n well yn yr asesiad llythrennedd (66 y cant ar Lefel 1 neu uwch) na'r rheini a aned yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig (50 y cant).

*4.2.1 Prif ganlyniadau – lefelau llythrennedd cyffredinol ymysg Siaradwyr Cymraeg*

Yn gyffredinol, cafodd 63 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg yn 2010 eu dosbarthu ar Lefel 1 neu uwch (Tabl 45), sy'n cynrychioli cwymp o 4 pwynt canran o gymharu â chanlyniad 2004. O fewn lefelau unigol o lythrennedd, roedd cwymp yn y gyfran o ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 2 neu uwch (o 45 y cant yn 2004 i 37 y cant yn 2010), ond ategwyd hyn gan gynnydd yn y gyfran o ddysgwyr a aseswyd ar Lefel 1 (o 22 y cant i 26 y cant).

Mae'n anodd cyfrifo'r nifer o oedolion o oedran gwaith sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru y mae'r ffigur hwn yn cyfateb iddo, oherwydd nad oes unrhyw ffordd fanwl gywir o benderfynu cyfanfyd y sampl ac felly nid oes unrhyw amcangyfrif wedi'i ddyfeisio.

**Tabl 45 Lefelau llythrennedd cyffredinol ymysg Siaradwyr Cymraeg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | **Lefel Llythrennedd** |
|---|---|---|
| | **% 2010** | **% 2004** |
| Lefel Mynediad 1 (LM1) neu is | 3 | 2 |
| Lefel Mynediad 2 (LM2) | 12 | 15 |
| Lefel Mynediad 3 (LM3) | 21 | 17 |
| Cyfanswm Lefel Mynediad | 36 | 34 |
| Lefel 1 (L1) | 26 | 22 |
| Lefel 2 (L2) neu'n uwch | 37 | 45 |
| Sail a bwysolwyd | 1000 | 1363 |
| Sail na phwysolwyd | 1001 | 1363 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Gellir cael mwy o fanylder wrth wahanu'r canlyniadau a'u gosod yn y categorïau ar wahân yn ôl hunanasesiadau ymatebwyr o'u gallu i siarad Cymraeg, fel yn Nhabl 46. Beth mae hyn yn ei ddangos yw bod, ymysg yr ymatebwyr hynny a ddiffiniodd eu

hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl, y gyfran o asesiadau llythrennedd ar Lefel 1 neu uwch wedi gostwng o 86 y cant yn 2004 i 74 y cant yn arolwg 2010. Yn ogystal, roedd y gyfran o siaradwyr Cymraeg rhugl a aseswyd ar Lefel Mynediad wedi bron ddyblu dros y chwe blynedd rhwng yr arolygon, o 14 y cant yn 2004 i 26 y cant yn 2010. Mae'r grŵp "rhugl" yn cynnig cymhariaeth fwy dibynadwy o asesiadau ac draws y ddau arolwg na chyfanswm y cohort , gan fod y diffiniad o ruglder yr un fath i'r ddau arolwg.

**Tabl 46 Llythrennedd a defnydd o'r Gymraeg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Gallu i siarad Cymraeg (hunanasesiad)** | Rhugl | Rhugl | Gweddol Dda | Gweddol Dda / Rhywfaint |
|---|---|---|---|---|
| | % 2010 | % 2004 | % 2010 | % 2004 |
| Lefel Mynediad | 26 | 14 | 70 | 64 |
| L1 | 29 | 25 | 17 | 17 |
| L2 neu uwch | 45 | 61 | 12 | 18 |
| Sail a bwysolwyd | 772 | 845 | 229 | 518 |
| Sail na phwysolwyd | 784 | 772 | 216 | 591 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Ymysg y grŵp a ddiffiniodd eu hunain fel yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda, roedd y gyfran o ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 1 neu uwch yn 29 y cant – 6 phwynt canran yn is na'r grŵp cyfatebol agosaf yn 2004.

Wrth adolygu'r canlyniadau hyn, mae'n werth nodi y gallant fod yn adlewyrchu'r ffaith fod sail siaradwyr Cymraeg wedi lledu, o bosibl yn tynnu dysgwyr llai abl i'r categorïau "rhugl / gweddol dda".

*4.2.2 Llythrennedd Cymraeg a Rhyw*

Roedd anghydbwysedd o safbwynt rhyw yn y lefelau a aseswyd o lythrennedd Cymraeg (Tabl 47), gydag ymatebwyr gwrywaidd yn sylweddol llai tebygol o fod wedi cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch na'u cyd-ymatebwyr benywaidd. Roedd cyfran uwch o ddynion wedi eu hasesu ar Lefel Mynediad nag unrhyw lefel arall (43 y cant), ond y categori mwyaf o blith y merched oedd Lefel 2 ac uwch (43 y cant).

**Tabl 47 Rhyw a Llythrennedd Cymraeg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Rhyw** | % Cyfanswm | % Gwrywaidd | % Benywaidd |
|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 36 | 43 | 31 |
| L1 | 26 | 27 | 26 |
| L2 neu uwch | 37 | 31 | 43 |
| Sail a bwysolwyd | 1001 | 453 | 547 |
| Sail na phwysolwyd | 1000 | 415 | 585 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

### *4.2.3 Llythrennedd Cymraeg ac Oedran*

Dangosodd Tabl 48 fod pobl ifanc a gymerodd rhan yn yr asesiadau llythrennedd Cymru wedi sgorio'n sylweddol is na'r canlyniad ar gyfer y sampl cyfan o ymatebwyr, gyda 53 y cant o bobl ifanc 16-19 oed yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch yn arolwg 2010, o gymharu â chyfanswm sampl cyfan o 63%.

**Tabl 48 Oedran a Llythrennedd Cymraeg**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Oedran | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Llythrennedd | **16-19** | **20-24** | **25-34** | **35-44** | **45-54** | **55-65** |
| | % | % | % | % | % | % |
| Lefel Mynediad | 46 | 42 | 38 | 30 | 33 | 33 |
| L1 | 28 | 22 | 25 | 25 | 30 | 27 |
| L2 neu uwch | 25 | 36 | 37 | 44 | 37 | 41 |
| Sail a bwysolwyd | 150 | 104 | 163 | 198 | 164 | 220 |
| Sail na phwysolwyd | 108 | 83 | 156 | 182 | 148 | 320 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Roedd canlyniadau asesiadau'n gyffredinol yn uwch ac yn fwy cyson ymysg y band oedran 35-44 a grwpiau hŷn. Mae'r tabl yn dangos bod lefelau llythrennedd wedi codi'n raddol o 16 oed i 44 oed, gan awgrymu bod unigolion yn parhau i ddatblygu'u sgiliau llythrennedd ar ôl gadael addysg amser llawn. Dengys Tabl 49 fod hyn yn arbennig o wir lle mae ymatebwyr yn defnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn bennaf yn y gwaith neu'r ysgol yn ddyddiol.

**Tabl 49 Oedran a Llythrennedd ac iaith ymysg y rhai oedd yn ddefnyddio Cymraeg yn bennaf yn yr ysgol neu'r gwaith**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | **Oedran** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Llythrennedd | **16-19** | **20-24** | **25-34** | **35-44** | **45-54** | **55-65** |
| | % | % | % | % | % | % |
| Lefel Mynediad | 27 | [28][148] | 26 | 21 | 29 | 26 |
| L1 | 34 | [26] | 32 | 25 | 26 | 24 |
| L2 neu uwch | 38 | [47] | 41 | 54 | 45 | 50 |
| Sail a bwysolwyd | 62 | 45 | 90 | 115 | 91 | 113 |
| Sail na phwysolwyd | 49 | 35 | 87 | 102 | 82 | 141 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Dangosir y newid mewn lefelau llythrennedd Cymraeg rhwng 2004 a 2010 fesul grŵp oedran yn Nhabl 52. Roedd lefelau llythrennedd ymysg ymatebwyr 16-24 oed yn 2010 yn sylweddol is nag ymysg y grŵp oedran cyfatebol yn 2004, gyda 56 y cant yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch yn 2010, o gymharu â 78 y cant yn 2004.

**Tabl 50 – Oedran a Llythrennedd: Cymhariaeth rhwng 2004 a 2010**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | | | | | | **Oedran** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **16-24** | | **25-34** | | **35-44** | | **45-54** | | **55-65** | |
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Lefel Mynediad | 45 | 22 | 38 | 32 | 30 | 41 | 33 | 46 | 33 | 34 |
| Lefel 1 | 26 | 29 | 25 | 20 | 25 | 20 | 30 | 19 | 27 | 19 |
| Lefel 2 | 30 | 49 | 37 | 48 | 44 | 39 | 37 | 34 | 41 | 47 |
| Sail a bwysolwyd | 253 | 300 | 163 | 273 | 198 | 231 | 164 | 426 | 220 | 116 |
| Sail na phwysolwyd | 191 | 247 | 156 | 210 | 182 | 225 | 148 | 419 | 320 | 245 |


Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

I'r gwrthwyneb o hyn, fe wnaeth lefelau llythrennedd Cymraeg yn y grŵp oedran 35-44 wella o 59 y cant ar Lefel 1 neu uwch yn 2004 i 69 y cant 2010. Yn y grwpiau oedran uwch na 35-44 fe wnaeth y ddau arolwg ddefnyddio gwahanol ffiniau i'r

[148] Mae cromfachau sgwâr yn dynodi maint sampl o lai na 50

grwpiau; fodd bynnag gellir gwrthbwyso hyn trwy ddefnyddio bandiau oedran ehangach, fel y darlunnir yn Ffigur 32 isod.

**Ffigur 32 – Rhyw, oedran a llythrennedd**




Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

O safbwynt rhyw a'r bandiau oedran ehangach hyn, ymatebwyr gwrywaidd yn y grŵp oedran 16-34 a welodd y newid mwyaf yng nghanlyniadau eu hasesiadau llythrennedd rhwng 2004 a 2010, gyda chwymp serth ar Lefel 1 neu uwch, i 47 y cant yn 2010 o 73 y cant yn 2004. Yn y band oedran 35-65, fe wnaeth canlyniadau asesiadau llythrennedd ymatebwyr benywaidd wella ychydig (o 67 y cant ar Lefel 1 neu uwch yn 2004 i 70 y cant yn 2010). Roedd asesiadau llythrennedd gwrywaidd ar Lefel 1 neu uwch yn yr un grŵp oedran yn gymharol gyson rhwng 2004 a 2010, sef 65 y cant o ymatebwyr yn 2004 a 66 y cant yn 2010.

*4.2.4 Llythrennedd a'r Rhanbarth o Gymru lle'r oedd yr Ymatebydd yn Byw*

Canfuwyd bod cysylltiad rhwng y rhanbarth lle'r oedd pobl yn byw ar adeg yr arolwg a'u perfformiad yn yr asesiadau llythrennedd Cymraeg. Cyflwynir canlyniadau yn Nhabl 51 ar gyfer y pedwar rhanbarth safonol o Gymru a ddefnyddir gan yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth.

**Tabl 51 – Rhanbarth a llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Rhanbarth** | Gogledd Cymru % | Canolbarth Cymru % | De-orllewin Cymru % | De-ddwyrain Cymru % | Cymru % |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 36 | 34 | 46 | 27 | 34 |
| L1 | 28 | 24 | 26 | 27 | 27 |
| L2 neu uwch | 37 | 42 | 28 | 47 | 39 |
| Sail a bwysolwyd | 407 | 171 | 235 | 187 | 902 |
| Sail na phwysolwyd | 404 | 155 | 298 | 143 | 930 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Dengys y tabl fod sgoriau asesiadau llythrennedd ar eu uchaf ymysg ymatebwyr o Dde-ddwyrain Cymru, gyda 74 y cant o'r rhain wedi eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, tra bod gan ymatebwyr o Dde-orllewin Cymru'r gyfran isaf o ymatebwyr ar y lefel honno (54 y cant).

### *4.2.5 Llythrennedd a lle ganed yr ymatebydd*

Fel y gellid disgwyl gydag ymatebwyr a oedd yn siarad Cymraeg, roedd y mwyafrif (90 y cant) wedi eu geni yng Nghymru, gyda 8 y cant yn dod yn wreiddiol o rywle arall yn y Deyrnas Unedig a 2 y cant yn dod o'r tu allan i'r DU (Tabl 52). Roedd y rheini a aned yng Nghymru'n fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd Cymraeg, gyda dau draean yn cyrraedd y lefel hon. O ran ymatebwyr a aned yn rhywle arall yn y DU, y gyfran gyfatebol oedd 50 y cant ac o ran y rheini a aned y tu allan i'r DU, y gyfran oedd 44 y cant (er bod yr olaf yn sampl bach iawn ac yn un dangosol yn unig).

**Tabl 52 Llythrennedd Cymraeg a lle ganed yr ymatebydd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**


| **Lle ganed yr ymatebydd** | | | 2010 |
|---|---|---|---|
| | Cymru % | Rhywle arall yn y DU % | Y tu allan i'r DU % |
| Lefel Mynediad | 34 | 50 | [56] |
| L1 | 27 | 26 | [19] |
| L2 neu uwch | 39 | 24 | [25] |
| Sail a bwysolwyd 1001 | 902 | 84 | 14 |
| Sail na phwysolwyd 1000 | 930 | 60 | 10 |

Mae celloedd sy'n cynnwys parenthesis [] yn cynnwys data o sampl cymharol fach.
Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

*4.2.6 Y brif iaith a ddefnyddid yn y cartref*

Y Gymraeg oedd y brif iaith a ddefnyddid yn y cartref gan 62 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn rhugl a chan 6 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn weddol dda. Dengys Ffigur 33 fod y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg fel y brif iaith yn y cartref yn fwy tebygol na'r sampl cyfan i fod o grwpiau oedran hŷn. Er enghraifft, roedd 25 y cant o ymatebwyr 16-19 oed yn defnyddio'r Gymraeg fel eu prif iaith yn eu cartref, ond roedd y gyfran yn cynyddu i 62 y cant o'r rhai 55-65 oed.

**Ffigur 33 Y brif iaith a ddefnyddid yn y cartref yn ôl oedran**




Sail: Pawb a siaradai fwy nag un iaith
Noder: Mae canrannau'n adio i fwy na 100 oherwydd gallai ymatebwyr ateb eu bod yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Rhwng pawb, dywedodd 99 y cant o'r sampl o siaradwyr Cymraeg eu bod yn siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigon da i gynnal sgwrs. Y prif ieithoedd eraill yr oedd ymatebwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn eu siarad i'r lefel honno oedd Ffrangeg (10 y cant o'r sampl), Sbaeneg (5 y cant) ac Almaeneg (3 y cant).

Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg yr un mor debygol o deimlo'n fwyaf cyffyrddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg, neu'r ddwy fel ei gilydd (71 y cant yr un ar gyfer y Gymraeg neu'r Saesneg). Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn siarad Saesneg yn ddigon da i gynnal


sgwrs asesu eu sgiliau Saesneg llafar. Teimlai cyfanswm o 89 y cant ohonynt fod eu sgiliau Saesneg yn dda iawn a theimlai 10 y cant eu bod yn dda.

Gofynnwyd i ymatebwyr a allai siarad mwy nag un iaith pa iaith(ieithoedd) a ddysgasant gyntaf. Roedd 78 y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg wedi dysgu Cymraeg gyntaf, tra bod 27 y cant wedi dysgu Saesneg gyntaf[149]. Roedd nifer bach iawn wedi dysgu ieithoedd eraill gyntaf, gan gynnwys Eidaleg, Portiwgaleg a Tsieceg.

### *4.2.7 Y brif iaith a ddefnyddid yn y gwaith / yn yr ysgol*

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a allai siarad mwy nag un iaith pa iaith oeddent yn ei defnyddio yn y gwaith neu'r ysgol. Dengys Ffigur 34 fod y rhai a siaradai Gymraeg yn bennaf yn y sefyllfaoedd hyn yn fwy tebygol o sgorio'n uwch yn yr asesiadau llythrennedd Cymraeg na'r rheini a siaradai Saesneg yn bennaf, neu a siaradai'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Cafodd 49 y cant o'r ymatebwyr a siaradai Saesneg yn bennaf yn y gwaith neu'r ysgol eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, o gymharu â 78 y cant o'r rheini a siaradai Gymraeg yn bennaf.

**Ffigur 34 Y brif iaith a ddefnyddid yn y gwaith / yn yr ysgol**




Sail: Pawb a siaradai fwy nag un iaith

### *4.2.8 Ieithoedd a ddysgwyd gyntaf a phrif iaith y cartref*

149 Gallai ymatebwyr ateb y naill iaith neu'r llall, neu mewn rhai achosion, y ddwy iaith fel ei gilydd.

Roedd 93 y cant o'r ymatebwyr hynny oedd â'r Gymraeg yn brif iaith eu cartref wedi dysgu Cymraeg fel eu hiaith gyntaf (Tabl 53), o gymharu ag 11 y cant yn unig a oedd wedi dysgu Saesneg fel eu hiaith gyntaf[150], gan awgrymu bod y rheini a oedd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn dal i'w gweld fel cyfrwng i'w defnyddio'r tu allan i'r cartref. Ar y llaw arall, roedd 44 y cant o'r rheini oedd â'r Saesneg fel prif iaith eu cartref wedi dysgu Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.

**Tabl 53 Ieithoedd a ddysgwyd gyntaf a phrif iaith y cartref**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | Prif iaith y cartref |
|---|---|---|---|
| **Ieithoedd a ddysgwyd gyntaf** | **% Cymraeg** | **% Saesneg** | **% Y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd** |
| Saesneg | 11 | 62 | 31 |
| Cymraeg | 93 | 44 | 78 |
| Sail a bwysolwyd | 526 | 652 | 102 |
| Sail na phwysolwyd | 563 | 604 | 102 |

Sail: Pawb a siaradai fwy nag un iaith
Noder: Gall colofnau adio i fwy na 100 y cant oherwydd gallai ymatebwyr ateb eu bod yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Dengys Tabl 54, o blith y rhai a siaradai Saesneg, ond nid fel eu hiaith gyntaf, fod 42 y cant ohonynt wedi dysgu ei siarad fel plentyn bach yn y cartref, gyda 54 y cant pellach yn dechrau ei siarad mewn meithrinfa neu ysgol gynradd a 3 y cant yn yr ysgol uwchradd.

**Tabl 54 Oedran y dechreuwyd siarad Gymraeg neu Saesneg fel ail iaith**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | Dechrau siarad |
|---|---|---|
| | **% Cymraeg** | **% Saesneg** |
| Fel plentyn bach yn y cartref | 20 | 42 |
| Mewn meithrinfa neu ysgol gynradd (4-10 oed) | 62 | 54 |
| Mewn ysgol uwchradd (11+ oed) | 6 | 3 |
| Mewn coleg neu brifysgol | 1 | 0 |
| Ar ôl gadael addysg llawn amser | 11 | <1 |
| Ddim yn gwybod / gwrthod | 0 | <1 |
| Sail a bwysolwyd | 427 | 791 |
| Sail na phwysolwyd | 385 | 824 |

Sail: Pawb a siaradai Gymraeg / Saesneg ond nid fel iaith gyntaf


[150] Er bod hyn, fel yr uchod, yn cynnwys rhai a oedd wedi dysgu Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

O’r rhai a siaradai Gymraeg, ond nid fel iaith gyntaf, roedd cyfran lai (20 y cant) wedi dechrau ei siarad fel plentyn bach, tra bod y mwyafrif (62 y cant) wedi dechrau mewn meithrinfa neu ysgol gynradd. Roedd unarddeg y cant wedi dechrau dysgu Cymraeg fel oedolion, ar ôl gadael addysg amser llaw. Mae’r ffigur olaf hwn efallai’n adlewyrchu’r buddsoddiad mewn darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.

O safbwynt yr iaith a ddefnyddid yn y gwaith, ysgol neu goleg, roedd 82 y cant o’r rheini a oedd yn gweithio neu ddysgu mewn amgylchedd a oedd yn bennaf Gymraeg ei iaith wedi dysgu Cymraeg fel un o’u hieithoedd cyntaf.

Dengys Ffigur 35 bod cysylltiad agos rhwng canlyniadau’r asesiadau llythrennedd Cymraeg ac os oedd ymatebwyr yn siarad Cymraeg gartref neu beidio. Cafodd 80 y cant o’r rheini a oedd yn siarad Cymraeg gartref eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, o gymharu â hanner y rheini a siaradai Saesneg gartref – ac a fyddai o ganlyniad â llai o siawns o gynnal eu sgiliau iaith a llythrennedd trwy ddefnydd cyson.

**Ffigur 35 Prif iaith y cartref**




Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

### *4.2.9 Priodoleddau Cartrefi*

Roedd y gyfran o ymatebwyr ar Lefel Mynediad ychydig yn uwch ymhlith y rheini a oedd yn byw ar eu pennau eu hunain, neu fel rhiant sengl, nag ymhlith y sampl cyfan. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebyg o fod yn arwyddocaol ac ymddengys nad

oes cydberthynas rhwng maint aelwyd a lefel llythrennedd o safbwynt y rheini sy'n sgorio Lefel 2 neu uwch, fel y dangosir yn Nhabl 55.

**Tabl 55 Cartrefi Un Oedolyn a Lefelau Asesiadau**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Pawb % | Cartrefi Un Oedolyn (16+) % |
|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 36 | 40 |
| L1 | 26 | 23 |
| L2 neu uwch | 37 | 37 |
| Sail a bwysolwyd | 1000 | 125 |
| Sail na phwysolwyd | 1001 | 161 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu statws priodasol a dengys Tabl 56 isod fod, fel gyda'r asesiadau cyfrwng Saesneg, y rheini a aseswyd ar lefel uwch mewn llythrennedd yn fwy tebygol o fod yn briod ac yn byw gyda'u cymar na'r rheini a aseswyd yn is na Lefel 1. I'r gwrthwyneb o hyn, roedd y rheini a oedd yn sengl, wedi gwahanu neu wedi ysgaru'n fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad.

**Tabl 56 – Statws Priodasol a Lefelau Llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Statws Priodasol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefelau Asesu** | **Sengl a heb erioed Briodi %** | **Priod ac yn Byw gyda Chymar %** | **Wedi Gwahanu, Ysgaru %** | **Gweddw %** | **Gwrthod Dweud / Ddim yn Gwybod %** |
| Lefel Mynediad | 40 | 31 | 43 | [29] | [63] |
| L1 | 25 | 28 | 29 | [37] | [8] |
| L2 neu uwch | 35 | 42 | 28 | [35] | [29] |
| Sail a bwysolwyd | 416 | 478 | 67 | 18 | 19 |
| Sail na phwysolwyd | 360 | 498 | 83 | 38 | 19 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Mewn perthynas â phriodoleddau cartref a theulu, roedd ymatebwyr ychydig yn fwy tebygol o gael eu sgorio ar Lefel Mynediad os oedd ganddynt blant 0-16 oed yn byw yn y cartref (39 y cant o gymharu â 34 y cant ar gyfer yr holl ymatebwyr) ac ychydig yn llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch (34 y cant o gymharu â 40 y cant ar gyfer yr holl ymatebwyr).

### *4.2.10 Deiliadaeth*

Roedd cysylltiadau rhwng lefelau llythrennedd Cymraeg a statws deiliadaeth, fel y darlunnir yn Nhabl 57. Roedd ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain neu o fod yn byw yn eu cartref yn ddi-rent nag oedd y sampl cyfan. Rhwng pawb, roedd 66 o ymatebwyr yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond roedd hyn yn cwympo i 58 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad mewn llythrennedd Cymraeg. Roedd 30 y cant o'r rheini gyda llythrennedd Lefel Mynediad yn byw mewn eiddo ar rent, o gymharu â 20 y cant o'r holl ymatebwyr.

**Tabl 57 Statws Deiliadaeth**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | | **Deiliadaeth** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Perchen eich cartref yn llwyr, neu gyda morgais %** | **Cyd-berchnogaeth %** | **Ar rent %** | **Byw'n ddi-rent %** | **Ddim yn gwybod/ Gwrthod %** |
| Lefel Mynediad | 58 | [0] | 30 | 11 | [1] |
| Lefel 1 | 68 | [1] | 16 | 14 | [2] |
| Lefel 2+ | 72 | [1] | 12 | 12 | [3] |
| Sail a bwysolwyd | 657 | 9 | 196 | 119 | 1001 |
| Sail na phwysolwyd | 668 | 9 | 220 | 88 | 1000 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Mae cysylltiad agos rhwng statws deiliadaeth â ffactorau economaidd gymdeithasol lleol megis incwm, statws gwaith ac amddifadedd, felly mae'r cysylltiad rhwng lefelau llythrennedd a pherchentyaeth yn debygol o fod yn anuniongyrchol, yn hytrach na'n gysylltiad cynhenid.

### *4.2.11 Budd-daliadau*

Roedd oddeutu 37 y cant o holl ymatebwyr yr arolwg yn hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth neu gredydau treth o ryw fath, ond roedd y gyfran hon yn cynyddu i 40 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad, gan ddangos cyd-berthynas fain rhwng lefelau llythrennedd a hawlio budd-daliadau (Tabl 58).

**Tabl 58 – Hawlwyr Budd-daliadau a Lefelau Asesiadau**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| A oeddent yn bersonol yn hawlio Budd-daliadau'r Wladwriaeth neu Gredydau Treth | Oeddent % | Nac oeddent % | Ddim yn gwybod % | Gwrthod ateb % |
|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 40 | 35 | [0] | [12] |
| Lefel 1 | 27 | 27 | [17] | [8] |
| Lefel 2 neu uwch | 33 | 39 | [83] | [81] |
| Sail a bwysolwyd | 364 | 615 | 6 | 16 |
| Sail na phwysolwyd | 479 | 502 | 5 | 14 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Fel gyda chanlyniadau'r arolwg cyfrwng Saesneg, roedd ymatebwyr a oedd yn hawlio unrhyw fath o fudd-daliadau yn fwy tebygol o fod yn hawlio budd-dal plant nag unrhyw fudd-dal arall gan fod cymhwyster cyffredinol i bawb gyda phlant mewn oedran cymwys. Fodd bynnag, roedd y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad mewn llythrennedd Cymraeg yn fwy tebygol na'r sampl cyfan i fod yn hawlio budd-daliadau'n ymwneud â diweithdra (8 y cant o ymatebwyr), cymhorthdal incwm (10 y cant), budd-dal tai / treth cyngor (12 y cant) neu fudd-daliadau anabledd (15 y cant). Dangosir hyn yn Nhabl 59.

**Tabl 59 – Hawlwyr Budd-daliadau yn ôl Math o Fudd-dal**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Lefel Llythrennedd** | | |
|---|---|---|---|
| **Budd-daliadau a Hawliwyd** | Lefel Mynediad % | Lefel 1 % | Lefel 2 % |
| Budd-daliadau'n ymwneud â Diweithdra, neu Gredydau Yswiriant Gwladol | 8 | 5 | 1 |
| Cymhorthdal Incwm (nid fel person di-waith) | 10 | 3 | 2 |
| Budd-daliadau Salwch neu Anabledd | 15 | 12 | 6 |
| Pensiwn y Wladwriaeth | 10 | 14 | 12 |
| Budd-daliadau teuluol (ac eithrio Budd-dal Plant a chredydau treth) | 9 | 2 | 5 |
| Budd-dal Plant | 62 | 65 | 69 |
| Budd-dal Tai, neu Dreth Cyngor | 12 | 8 | 4 |
| Credydau Treth | 36 | 41 | 28 |
| Credyd Pensiwn | 1 | 0 | 0 |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) | 0 | 0 | 0 |
| Arall, ddim yn gwybod, gwrthod ateb | 1 | 4 | 3 |
| Sail a bwysolwyd | 146 | 98 | 125 |
| Sail na phwysolwyd | 205 | 133 | 146 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

*4.2.12 Iechyd*

Mae Tabl 60 isod yn dangos bod cydberthynas rhwng hunanasesiad o iechyd a lefelau llythrennedd Cymraeg. Roedd ymatebwyr a oedd yn asesu eu lefel gyffredinol o iechyd fel da neu dda iawn yn fwy tebygol na'r sampl cyfan o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch yn yr Asesiadau Llythrennedd Cymraeg. Cafodd traean o'r rhai a holwyd a ystyriai eu bod mewn iechyd da iawn eu hasesu ar Lefel Mynediad, tra bod y ffigur hwn yn codi i bron ddau draean o'r rheini mewn iechyd gwael, er y dylid cymryd y ffigur olaf fel un dangosol, yn wyneb maint bach y sampl.

Roedd hunanasesiad ymatebwyr o'u iechyd hefyd yn ffwythiant eu hoedran. Fe wnaeth mwy na hanner yr ymatebwyr a gyfwelwyd ddweud eu bod mewn iechyd gwael yn yr oedran 55-65, o'i gymharu â dim ond 3 y cant yn y grŵp oedran 25-34.

**Tabl 60 – Cyflwr Iechyd yn Gyffredinol**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Cyflwr iechyd yn gyffredinol** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Da iawn %** | **Da %** | **Gweddol %** | **Gwael %** | **Gwael iawn %** |
| Lefel Mynediad | 34 | 36 | 44 | [55] | [63] |
| Lefel 1 | 25 | 32 | 26 | [25] | [18] |
| Lefel 2 neu uwch | 41 | 33 | 30 | [20] | [20] |
| Sail a bwysolwyd | 662 | 226 | 85 | 19 | 6 |
| Sail na phwysolwyd | 601 | 236 | 118 | 31 | 11 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Roedd hunan-raddfa'r ymatebwyr o'u hiechyd yn amrywio'n ogystal yn ôl oedran. Roedd mwy na hanner y ymatebwyr a holwyd a ddywedodd eu bod mewn iechyd gwael yn y grŵp oedran 55-65, o gymharu â 3 y cant yn unig yn y grŵp 25-34.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oedd ganddynt anabledd dysgu neu salwch hirdymor o unrhyw fath (Tabl 61). Dywedodd 4 y cant o'r sampl fod ganddynt ryw fath o anabledd dysgu, a dyslecsia oedd hwnnw'n bennaf. O'r rhai gydag anableddau dysgu, cafodd bron i dri chwarter ohonynt eu hasesu ar Lefel Mynediad llythrennedd Cymraeg, o gymharu â chyfanswm y sampl cyfan o 36 y cant, er bod maint y sampl yn rhy fach i roi canlyniad dibynadwy. Roedd y gydberthynas rhwng anabledd a pherfformiad llythrennedd yn llai amlwg mewn ymatebwyr gydag afiechydon hirdymor, anableddau neu lesgedd.

**Tabl 61 A oes gan yr ymatebydd anhawster dysgu/salwch hirdymor o unrhyw fath**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Anhawster Dysgu o Unrhyw Fath** | | **Salwch hirdymor, anableddau neu lesgedd** | |
|---|---|---|---|---|
| | Oes<br>% | Nac oes<br>% | Oes<br>% | Nac oes<br>% |
| Lefel Mynediad | [71] | 34 | 38 | 36 |
| Lefel 1 | [13] | 27 | 33 | 25 |
| Lefel 2 neu uwch | [15] | 39 | 29 | 39 |
| Sail a bwysolwyd | 45 | 955 | 165 | 834 |
| Sail na phwysolwyd | 42 | 957 | 217 | 781 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu hanabledd dysgu / salwch yn effeithio ar eu gweithgareddau neu'n eu cyfyngu mewn unrhyw ffordd. Teimlai tua chwarter y rheini gydag anabledd dysgu ei fod yn gwneud hynny (er bod maint y sampl yn rhy fach i fod yn ystadegol ddibynadwy), ond roedd y lefel yn llawer uwch ymysg y rheini gyda salwch neu anabledd corfforol, sef 60 y cant.

Dengys Tabl 62 fod ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 1 neu uwch yn fwy tebygol o deimlo nad oedd eu salwch neu anabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol mewn unrhyw ffordd (75% o ymatebwyr o gymharu â 53% ar gyfer y rheini gyda salwch neu anabledd cyfyngol). Fodd bynnag, gwahaniaeth bychan iawn yn unig oedd ar Lefel 2 neu uwch rhwng y rheini a deimlai neu na theimlai eu bod yn cael eu cyfyngu gan eu salwch neu anabledd.

**Tabl 62 A yw salwch / anabledd yn cyfyngu ar weithgareddau mewn unrhyw ffordd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **A yw salwch / anabledd yn cyfyngu ar weithgareddau mewn unrhyw ffordd** | |
|---|---|---|
| | Ydyw<br>% | **Nac ydyw<br>%** |
| Lefel Mynediad | 47 | 25 |
| Lefel 1 | 24 | 47 |
| Lefel 2 neu uwch | 29 | 28 |
| Sail a bwysolwyd | 98 | 67 |
| Sail na phwysolwyd | 142 | 75 |

Sail: Pawb gyda salwch / anabledd

*4.2.13 Crynodeb*

Mae'r adran hon o'r adroddiad wedi dangos bod gostyngiad bychan yn y lefelau a aseswyd o lythrennedd Cymraeg, o 67 y cant ar Lefel 1 neu uwch yn 2004 i 63 y cant yn 2010. Yn ogystal, fe wnaeth y gyfran o siaradwyr Cymraeg rhugl a aseswyd ar Lefel Mynediad bron ddyblu dros y chwe blynedd rhwng yr arolygon. Cafodd merched a ymatebodd ganlyniadau sylweddol well yn yr asesiad llythrennedd na dynion (69 y cant ar Lefel 1 neu uwch i ferched, 58 y cant ar y lefel honno i ddynion). Ymatebwyr iau, yn y categori 16-19 oed, oedd y lleiaf tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, a rhai yn y grŵp 35-44 oedd y mwyaf tebygol.

Ar y lefel ranbarthol, roedd y sgoriau asesiadau llythrennedd uchaf ymhlith ymatebwyr o dde-ddwyrain Cymru, (74 y cant wedi eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch yn erbyn cyfanswm trwy Gymru o 63 y cant). Roedd y rhai a aned yng Nghymru'n fwy tebygol o gael eu sgorio ar Lefel 1 neu uwch na'r rheini a aned yn rhywle arall. Roedd yr ymatebwyr hynny a siaradai Gymraeg yn bennaf yn y gwaith neu'r ysgol yn sgorio'n well yn gyffredinol yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg (78 y cant ar Lefel 1 neu uwch) na'r rheini a siaradai Saesneg mewn sefyllfaoedd o'r fath (49 y cant), neu a siaradai'r ddwy iaith fel ei gilydd (65 y cant).

Fel yn yr arolwg cyfrwng Saesneg, roedd rhywfaint o gysylltiadau rhwng lefelau uwch o asesiad Llythrennedd a pherchentyaeth. Roedd y rheini a aseswyd ar Lefel 1 neu uwch hefyd yn llai tebygol na chyfanswm y sampl cyfan o fod yn hawlio budd-daliadau[151], ac yn arbennig rhai'n ymwneud â budd-dal salwch neu anabledd. Atgyfnerthwyd hyn gan y canlyniad bod y rheini a oedd yn hunan adrodd iechyd da'n fwy tebygol o fod wedi sgorio'n uwch yn yr asesiad llythrennedd.

## 4.3 Addysg

*4.3.1 Cyflwyniad*

Roedd canlyniadau a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y rheini a adawodd yr ysgol yn fwyaf diweddar yn debygol o fod â'r lefelau gwaelaf o lythrennedd Cymraeg. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych yn fanylach ar y cysylltiad rhwng addysg, cymwysterau a llythrennedd Cymraeg. Mae'n dechrau trwy edrych ar ganlyniadau asesiadau llythrennedd Cymraeg yng nghyd-destun y

[151] Ac eithrio budd-dal plant, y mae hawl cyffredinol iddo.

cymhwyster uchaf a ddelir gan ymatebwyr a hefyd ymysg y rheini gyda chymwyster penodol yn yr iaith Gymraeg. Mae canlyniadau'r arolwg a'r asesiadau wedyn yn cael eu gosod yn ôl cyfrwng yr addysg a dderbyniwyd gan ymatebwyr ar lefel gynradd ac ar lefel uwchradd. Fel yn y dadansoddiad o'r arolwg cyfrwng Saesneg, mae llythrennedd ymysg y rheini sy'n gadael ysgol yn 16 oed neu iau ac addysg rheini'n yn faterion sy'n cael eu harchwilio mewn perthynas â chanlyniadau'r asesiadau.

*Canfyddiadau Allweddol*


- Roedd tuedd gyffredinol i'r rheini gyda chymwysterau uwch fod yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch am lythrennedd Cymraeg, er nad oedd y berthynas mor amlwg ag yn yr arolwg cyfrwng Saesneg.
- Cafodd bron i hanner y rheini gyda TGAU Gradd A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf[152] eu hasesu'n is na Lefel 2 am lythrennedd Cymraeg ac roedd bron i chwarter islaw Lefel 1.
- Roedd y rheini a addysgwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg yn gwneud yn llawer iawn gwell yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg (50 y cant ar Lefel 2+) na'r rheini a ddysgodd trwy gyfrwng y Saesneg, neu trwy gyfrwng cymysgedd o'r Saesneg a'r Gymraeg (30 y cant)
- Fel gyda'r asesiadau cyfwng Saesneg, roedd y rheini â rhieni a arhosodd mewn addysg y tu hwnt i 16 oed yn debygol o wneud yn well yn yr asesiadau llythrennedd Cymraeg.

*4.3.2 Cymwysterau ac asesiad llythrennedd Cymraeg*

Roedd gan 88 y cant o'r sampl o siaradwyr Cymraeg gymwysterau ffurfiol academaidd neu alwedigaethol ar ryw lefel. Er bod cydberthynas uniongyrchol ymddangosiadol rhwng lefelau cymwysterau ymatebwyr a'r lefelau a aseswyd yn eu llythrennedd Saesneg, roedd y sefyllfa braidd yn wahanol o safbwynt asesiadau cyfrwng Cymraeg. Mae Ffigur 36 yn darlunio bod egwyddor gyffredinol ar waith yn yr ystyr mai'r rheini gyda chymwysterau lefel uwch (gradd neu uwch) yn oedd fwyaf tebygol o fod wedi cyrraedd asesiad llythrennedd Cymraeg ar Lefel 1 neu uwch ac mai'r rheini gyda chymwysterau is neu ddim cymwysterau o gwbl oedd leiaf tebygol o gyrraedd y lefel hon.

[152] Hynny yw, TGAU i'r rhai hynny sy'n siarad Cymraeg fel eu iaith gyntaf.

**Ffigur 36 Lefel cymwysterau a llythrennedd Cymraeg**




Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Fodd bynnag, roedd cysylltiad llai amlwg rhwng y lefelau asesu a gyrhaeddwyd gan yr ymatebwyr â chymwysterau canolraddol a lefelau eu cymwysterau. Er enghraifft, cafodd 45 y cant o'r rheini gyda chymhwyster Lefel 3 (Lefel A / GNVQ Uwch neu NVQ 3) eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch am lythrennedd Cymraeg, tra bod y ffigur yn 52 y cant ar gyfer y rheini gyda chymhwyster Lefel 2 (er enghraifft TGAU Graddau A*-C).

Cafodd 24 y cant o'r rheini gyda TGAU gradd A* i C yn y Gymraeg fel iaith gyntaf eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd Cymraeg a chafodd 51 y cant eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch. Er y gallai fod yn rhesymol disgwyl y byddai gan y rheini a oedd wedi ennill TGAU Cymraeg iaith gyntaf Lefel 2 llythrennedd er mwyn cyflawni hyn, nid yw hyn yn wir ym mhob achos (Tabl 63). Wrth archwilio'r canlyniadau yn ôl oedran, ymddengys fod newid trawiadol mewn canlyniadau asesiadau rhwng y grŵp oedran 25-34 a'r grŵp oedran 35-44.

**Tabl 63 Asesiadau llythrennedd ymysg y rheini gyda TGAU Cymraeg iaith gyntaf A*-C, yn ôl oedran**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| Lefelau Asesu | 16-19 % | 20-24 % | 25-34 % | 35-44 % | 45-54 % | 55-65 % | Total % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Oedran** | | | | | | |
| Lefel Mynediad | 33 | 39 | 32 | 19 | 15 | 11 | 24 |
| L1 | 35 | 20 | 22 | 21 | 31 | 19 | 25 |
| L2 neu uwch | 32 | 41 | 46 | 60 | 54 | 70 | 51 |
| Sail a bwysolwyd | 89 | 75 | 109 | 127 | 95 | 90 | 586 |
| Sail na phwysolwyd | 65 | 60 | 105 | 109 | 78 | 127 | 545 |

Sail: Pawb oedd â TGAU Cymraeg iaith gyntaf A*-C

Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng canlyniadau asesiad y proffil oedran hwn a phroffil ymatebwyr yn yr arolwg cyfrwng Saesneg a oedd yn dal cymhwyster TGAU iaith Saesneg gradd A*-C. Yn yr olaf, roedd gwahaniaeth trawiadol rhwng y rhai 16-19 oed a bandiau oedran hŷn, a briodolwyd i anghenion y defnydd o lythrennedd a orfodir gan fywyd bob dydd neu waith o ddydd i ddydd. Yn yr arolwg cyfrwng Cymraeg, nid ymddengys fod hyn yn wir sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd yr holl ymatebwyr yn y grŵp oedran hwnnw'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

### *4.3.3 Iaith addysg*


Cafodd 62 y cant o'r ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg eu haddysgu naill ai'n bennaf neu'n gyfan gwbl yn y Gymraeg hyd at 11 oed, ond roedd y gyfran yn llawer iawn is (37 y cant) wrth edrych ar y rheini a barhaodd i gael eu haddysgu yn y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd, hyd at 16 oed. Mewn rhai achosion gallai hyn adlewyrchu diffyg cyfle i barhau mewn addysg gyfrwng Cymraeg yn yr ardal lle cafodd ymatebwyr eu magu.

Fel y gellid disgwyl, y rhai a addysgwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg oedd fwyaf tebygol o gael eu hasesu ar lefel uwch mewn llythrennedd Cymraeg (Ffigurau 37, 38). Er enghraifft, cafodd hanner y rhai a ddysgwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg hyd at 16 oed eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch, tra bod y ffigur yn 31 y cant yn achos o'r rheini a addysgwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Saesneg hyd at yr un oedran.

### *4.3.4 Addysgu yn y Gymraeg hyd at 11 oed*

Roedd lefelau llythrennedd Cymraeg yn uwch ymysg ymatebwyr a addysgwyd bron yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg hyd at 11 oed, fel y dangosir yn Ffigur 37. Cafodd 44 y cant o'r grŵp hwn eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch, o gymharu â 33 y cant o ymatebwyr a addysgwyd bron yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Saesneg. Roedd gan ymatebwyr a addysgwyd yn weddol gyfartal yn y ddwy iaith lefelau llythrennedd is na'r rheini a addysgwyd mewn un yn unig – naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg.

**Ffigur 37 Addysgu yn y Gymraeg hyd at 11 oed**





Sail: Pawb a addysgwyd yng Nghymru hyd at 11 oed

*4.3.5 Addysgu yn y Gymraeg hyd at 16 oed*

Roedd modd sylwi ar dueddiadau tebyg mewn addysg uwchradd (Ffigur 38). Cafodd hanner y rheini a addysgwyd yn bennaf yn y Gymraeg hyd at 16 oed eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch llythrennedd, ond roedd y gyfran yn cwympo i lai na thraean o'r rheini a addysgwyd yn y Saesneg yn bennaf. Gwahaniaeth allweddol yma, fodd bynnag, oedd bod y rhai a addysgwyd yn y Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd yn perfformio ar lefel debyg iawn i'r rheini a addysgwyd bron yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Saesneg, yn yr asesiadau.

**Ffigur 38 Addysgu yn y Gymraeg hyd at 16 oed**




Sail: Pawb a addysgwyd yng Nghymru hyd at 16 oed

*4.3.6 Llythrennedd ymysg y rheini'n gadael ysgol yn 16 oed neu iau*

Dengys Tabl 64 broffil llythrennedd y 30 y cant o ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg oedd wedi gadael ysgol yn 16 oed neu iau. Fel gyda'r asesiadau llythrennedd Saesneg yn yr arolwg cyfrwng Saesneg, roedd lefelau asesiadau llythrennedd Cymraeg ymysg y grŵp hwn yn is na'r lefel a gofnodwyd ar gyfer y boblogaeth fel cyfanrwydd.

**Tabl 64 Llythrennedd ymysg y rheini sy'n gadael ysgol yn 16 oed neu iau**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | Pawb | Y rheini sy'n gadael ysgol yn 16 oed neu iau | |
|---|---|---|---|
| | 2010 | 2010 | 2004 |
| | % | % | % |
| Lefel Mynediad | 36 | 57 | 54 |
| L1 | 26 | 26 | 29 |
| L2 neu uwch | 37 | 16 | 17 |
| Sail a bwysolwyd | 1000 | 301 | 475 |
| Sail na phwysolwyd | 1001 | 364 | 523 |

Sail: Yr holl siaradwyr Cymraeg ag oedran terfynol addysg o 16 neu iau

Mae Tabl 65 yn ymestyn y dadansoddiad hwn i edrych ar lefelau llythrennedd y rheini a orffennodd eu haddysg yn 16 oed wrth iddynt symud ymlaen trwy fywyd. Fel gyda'r sampl cyfan, roedd lefelau llythrennedd yn cynyddu ar ôl gadael ysgol (er

enghraifft o 39 y cant o ymatebwyr ar Lefel 1 neu uwch yn 20-34 oed, hyd at 50 y cant yn 45-54 oed), ond nid oedd y lefelau a gyrhaeddwyd byth yn cyrraedd cyfanswm y sampl cyfan. Fodd bynnag, ymysg y rhai 55 oed a throsodd, roedd newid trawiadol yn y gyfran o ymatebwyr a oedd wedi gadael ysgol yn 16 neu iau, a'r grŵp hwn oedd y lleiaf tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch llythrennedd.

**Tabl 65 Llythrennedd Cymraeg ymysg y rheini sy'n gorffen addysg yn 16 oed**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | | Oedran yr ymatebydd | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **20-34** | **35-44** | **45-54** | **55-65** | **Cyfanswm** |
| | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| Lefel Mynediad | 61 | 55 | 51 | 54 | 57 |
| L1 | 23 | 23 | 30 | 33 | 26 |
| L2 neu uwch | 16 | 23 | 20 | 13 | 16 |
| Sail a bwysolwyd | 61 | 66 | 61 | 96 | 301 |
| Sail na phwysolwyd | 66 | 69 | 61 | 156 | 364 |

Sail: Pawr o'r rheini a orffennodd mewn addysg yn 16 oed

### *4.3.7 Addysg rhieni*

Dengys y canlyniadau yn Nhabl 66 fod rhywfaint o effaith o un genhedlaeth i'r llall ar ganlyniadau asesiadau llythrennedd unigolion i'w weld o hanes addysgol eu rhieni. Cafodd mwy na hanner yr ymatebwyr yr oedd eu rhieni wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16 oed eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch; ond roedd y gyfran hon yn disgyn i draean yn unig o'r rhai nad oedd eu rhieni wedi gwneud hynny. Noder, fel y trafodwyd yn adran 3.4.4 o'r adroddiad hwn,  y gall hyn fod yn gysylltiedig ag amgylchiadau cymdeithasol neu ffactorau eraill.

Dylid nodi bod y tebygrwydd o un neu fwy o rieni wedi aros ymlaen mewn addysg yn lleihau yn ôl oedran yr ymatebydd, gydag unigolion hŷn yn llawer llai tebygol o fod â rhieni a oedd wedi parhau â'r haddysg y tu hwnt i 16 oed

**Tabl 66 A oedd y naill riant neu'r llall wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **A oedd y naill riant neu'r llall wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16** | **Do – y ddau wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16** | **Do – un rhiant wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16** | **Naddo – dim un rhiant wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|
| | **%** | **%** | **%** | **%** |
| Lefel Mynediad | 25 | 32 | 39 | [48] |
| L1 | 19 | 26 | 28 | [26] |
| L2 neu uwch | 56 | 42 | 33 | [26] |
| Sail a bwysolwyd | 160 | 166 | 625 | 46 |
| Sail na phwysolwyd | 130 | 149 | 669 | 47 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

### *4.3.8 Crynodeb*

Roedd y cysylltiadau rhwng y cymwysterau uchaf a llythrennedd Cymraeg yn llai amlwg nag yn achos y canlyniadau llythrennedd Saesneg, er yn y ddau gyfrwng roedd yr ymatebwyr hynny gyda chymwysterau lefel uwch yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd na'r rheini gyda chymwysterau is neu ddim cymwysterau. Roedd y rheini a addysgwyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg yn llawer mwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch (76 y cant o ymatebwyr) na'r rheini a dderbyniodd eu haddysg uwchradd naill ai yn y Saesneg (56 y cant ar Lefel 1 neu uwch) neu'r Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd (57 y cant).

Ymhlith y rheini a adawodd ysgol yn 16 oed neu iau, roedd lefelau llythrennedd Cymraeg yn cynyddu gydag oed hyd at y band oedran 45-54. Fodd bynnag, roeddent yn parhau o dan lefel y sampl cyfan o ymatebwyr ar bob pwynt oedran. Roedd cysylltiad rhwng addysg rhieni a chanlyniadau asesiadau llythrennedd, gan fod mwy na hanner yr ymatebwyr yr oedd eu rhieni wedi aros mewn addysg y tu hwnt i 16 wedi cael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch, ond roedd y gyfran hon yn syrthio i draean yn unig o'r rhai nad oedd eu rhieni wedi gwneud hynny.

## 4.4 Statws Cyflogaeth

### *4.4.1 Cyflwyniad*

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar statws cyflogaeth ymatebwyr i weld a oedd hyn yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chanlyniadau eu hasesiadau llythrennedd Cymraeg. Mae'n dechrau trwy edrych ar ganlyniadau asesiadau yn ôl cyflogaeth a diweithdra, gwaith llawn amser a rhan-amser, cyn symud ymlaen i archwilio'r berthynas rhwng llythrennedd a statws galwedigaethol – o safbwynt y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC)[153] a Dosbarthiad Economaidd Gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC)[154]. Caiff y canlyniadau eu harchwilio hefyd yn ôl y sector diwydiannol yr oedd ymatebwyr cyflogedig yn gweithio ynddo ar adeg yr arolwg. Yn olaf yn yr adran hon, edrychir ar y cysylltiadau rhwng canlyniadau asesiadau llythrennedd ac incwm y cartref ac incwm personol.

*Canfyddiadau Allweddol*

- Roedd ymatebwyr a oedd yn ddi-waith ar adeg yr arolwg yn sylweddol llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 ac uwch na'r rheini oedd mewn gwaith.
- Roedd y rheini a oedd yn ymwneud â gweithgareddau ymdrin â chwsmeriaid yn eu gwaith o ddydd i ddydd yn fwy tebygol o wneud yn dda yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg nag y byddai eu safle yn yr hierarchaeth sgiliau'n ei awgrymu.
- Fodd bynnag, roedd merched yn fwy llythrennog yn y Gymraeg na dynion ar bob lefel alwedigaethol.
- Roedd ymatebwyr o gartrefi gydag incwm o £50K + deirgwaith mor debygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch na'r rheini gydag incwm cartref o lai na £10K.

### *4.4.2 Cyflogedig a di-waith*


Yn adran cyfrwng Saesneg yr adroddiad hwn, dangoswyd bod cysylltiad rhwng lefelau isel o sgiliau sylfaenol a deilliannau cyflogaeth gwael a gellir gweld yr un

[153] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/soc2010-volume-1-structure-and-descriptions-of-unit-groups/index.html

[154] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/current-standard-classifications/soc2010/soc2010-volume-3-ns-sec--rebased-on-soc2010--user-manual/index.html

cysylltiadau yng nghanlyniadau'r asesiad cyfrwng Cymraeg. Dangosodd Tabl 48 yn adran gyntaf y bennod hon fod unigolion yn parhau i ddatblygu eu lefelau llythrennedd Cymraeg ar ôl cwblhau addysg, wrth iddynt ddefnyddio'u sgiliau yn eu gwaith. Mae'r adran hon yn edrych yn fanylach ar gyflogaeth a diweithdra a'r gyd-berthynas gysylltiedig â lefelau llythrennedd Cymraeg. Roedd y rheini a oedd yn ddi-waith ar adeg yr arolwg (Ffigur 39) yn sylweddol lai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd Cymraeg na'u cymheiriaid cyflogedig (54 y cant o ymatebwyr di-waith, o gyferbynnu â 68 y cant o ymatebwyr cyflogedig).

**Ffigur 39 Cyflogaeth, diweithdra a llythrennedd**





Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

O'r ymatebwyr a ddosbarthwyd fel rhai di-waith ar adeg yr arolwg, dim ond 15 y cant oedd mewn gwirionedd yn chwilio am waith. Roedd y gweddill yn cynnwys cymysgedd yn bennaf o bobl wedi ymddeol, rhai â salwch hirdymor neu anabledd, gofalwyr a myfyrwyr.

*4.4.3 Gweithwyr llawn amser, gweithwyr rhan-amser a llythrennedd*

Fel yn yr asesiadau llythrennedd Saesneg, nid oedd fawr o wahaniaeth mewn lefelau asesiadau llythrennedd Cymraeg rhwng ymatebwyr a oedd yn gweithio llawn amser neu ran-amser, gyda 66 y cant o weithwyr llawn amser yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch a 67 y cant o gweithwyr rhan-amser yn cyrraedd y lefel hon (Ffigur 40).

**Ffigur 40 Gweithwyr llawn amser, gweithwyr rhan-amser a llythrennedd**





Sail: Pawb cyflogedig a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg
Mae pawb o'r ymatebwyr 'myfyrwyr a chyflogedig' wedi cael eu categoreiddio fel 'rhan-amser' ar gyfer y gymhariaeth hon.

*4.4.4 Statws galwedigaethol a llythrennedd*

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd ynghylch eu categori galwedigaethol bras ac roedd cyd-berthynas glir rhwng lefelau uwch o lythrennedd Cymraeg a swyddogaethau sgiliau uwch (Ffigur 41).

**Ffigur 41 – Statws galwedigaethol a llythrennedd Cymraeg**





Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Tra bod pedwar o bob pump ymatebydd mewn rolau rheolaethol a phroffesiynol wedi cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd Cymraeg, hanner yr ymatebwyr mewn galwedigaethau gwaith fyddai'n cael eu hasesu ar y lefel hon.

Roedd y rheini heb unrhyw waith sylweddol yn sgorio ychydig yn uwch nag ymatebwyr mewn galwedigaethau gwaith, ond gellir esbonio hyn trwy'r ffaith y bydd y grŵp hwn yn cwmpasu pobl gydag ystod eang o sgiliau a galluoedd gan gynnwys myfyrwyr a rhai gyda chyfrifoldebau gofalu, er enghraifft.

Wrth edrych ar broffil galwedigaethol ymatebwyr mewn mwy o fanylder (Ffigur 42), roedd y berthynas rhwng canlyniadau asesiadau llythrennedd Cymraeg a'r hierarchaeth sgiliau galwedigaethol yn llai amlwg nag yn y dadansoddiad tebyg o'r asesiadau llythrennedd Saesneg. Er enghraifft, roedd rheolwyr ac uwch-swyddogion yn llai tebygol fod gael eu hasesu ar Lefel 1 ac uwch nag oedd gweithwyr proffesiynol, gweithwyr proffesiynol cyswllt, neu alwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol, er enghraifft.

**Ffigur 42 Statws galwedigaethol a llythrennedd**



Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Fe all fod, fodd bynnag, fod cysylltiad agos rhwng galwedigaeth a llythrennedd Cymraeg, yn yr ystyr fod llawer o'r galwedigaethau lle'r oedd canlyniadau asesiadau'n well nag y gellid bod wedi disgwyl mewn meysydd yn ymdrin â chwsmeriaid, megis gwasanaethau personol a gwerthiant, hynny yw lle'r oedd ymatebwyr yn gorfod defnyddio'u sgiliau iaith yn eu bywydau pob dydd yn y gwaith, nag mewn galwedigaethau proffesiynol ategol, er enghraifft.

Edrychodd yr arolwg cyfrwng Cymraeg ar lythrennedd mewn perthynas â rôl alwedigaethol yr ymatebydd a'r penteulu (Tabl 67). Fel gyda'r arolwg cyfrwng Saesneg, nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng y ddau sampl, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod cyfran fawr o ymatebwyr yn bennau-teuluoedd eu hunain.

**Tabl 67 Galwedigaeth yr ymatebydd vs. galwedigaeth y penteulu**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | **Rheoli a phroffesiynol %** | | **Galwedigaethau canolraddol %** | | **Galwedigaethau gwaith %** | | **Dim gwaith sylweddol %** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymat.** | **Pent.** | **Ymat.** | **Pent.** | **Ymat.** | **Pent.** | **Ymat.** | **Pent.** |
| Lefel Mynediad | 20 | 21 | 29 | 36 | 50 | 54 | 47 | 23 |
| L1 | 25 | 28 | 32 | 30 | 28 | 24 | 21 | 29 |
| L2 neu uwch | 55 | 52 | 39 | 34 | 22 | 21 | 32 | 48 |
| Sail a bwysolwyd | 343 | 384 | 150 | 166 | 359 | 278 | 148 | 59 |
| Sail na phwysolwyd | 327 | 353 | 168 | 173 | 378 | 308 | 127 | 58 |

Ymat = Galwedigaeth yr ymatebydd. Pent = Galwedigaeth y penteulu.

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Yr un grŵp lle'r oedd gwahaniaeth sylweddol oedd ymysg y rhai nad oeddent mewn gwaith sylweddol[155]. Lle mai'r ymatebydd ei hun a oedd allan o waith, roeddent yn debygol o fod heb berfformio cystal (53 y cant ar Lefel 1 neu uwch) na lle'r oedd y penteulu allan o waith (77 y cant ar Lefel 1 neu uwch).

Cafodd canlyniadau'r arolwg eu dadansoddi hefyd yn ôl Dosbarthiad Economaidd Gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol, NS-SEC (Tabl 68). Mae hwn yn ddull arall o ddosbarthu galwedigaethau, sy'n anelu at greu ffordd fwy disgrifiadol a hyblyg o

[155] Hynny yw, gwaith ble ceir tâl amdano.

ddisgrifio'r hyn y mae pobl yn ei wneud yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac sy'n rhoi goleuni pellach ar wahanol briodoleddau gwahanol fathau o swyddi.

Yn debyg i'r hyn a ddarlunnir yn Ffigur 42, dengys Tabl 68 fod y rheini mewn rolau sgiliau uwch yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar lefel uwch o lythrennedd Cymraeg. Canfuwyd fod mwy na hanner yr ymatebwyr a oedd mewn rolau rheolaethol a phroffesiynol yn debygol o fod ar Lefel 2 neu uwch llythrennedd Cymraeg, unwaith eto roedd y ffigur hwn yn disgyn i un mewn pump o ymatebwyr mewn galwedigaethau (di-grefft) arferol.

**Tabl 68 Llythrennedd Cymraeg yn ôl galwedigaeth (SEC)**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| **Categori SEC** | **Lefel Mynediad %** | **Lefel 1 %** | **Lefel 2 %** |
|---|---|---|---|
| Uwch-reoli a phroffesiynol (60/59) | 21 | 26 | 54 |
| Rheoli a phroffesiynol is (283/268) | 20 | 25 | 55 |
| Canolraddol (93/95) | 23 | 35 | 43 |
| Cyflogwyr bach a gweithwyr hunan-gyfrif (57/73) | 39 | 27 | 34 |
| Goruchwylio a thechnegol is (109/110) | 63 | 20 | 17 |
| Galwedigaethau lled reolwaith (174/181) | 40 | 34 | 26 |
| Galwedigaethau rheolwaith (76/87) | 53 | 27 | 20 |
| Erioed wedi gweithio / di-waith hirdymor (20/20) | [59] | [32] | [9] |
| Myfyriwr llawn amser (94/72) | 49 | 19 | 31 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Fodd bynnag, roedd hon eto'n berthynas llai amlwg nag yn yr asesiadau Saesneg, yn yr ystyr fod y rheini mewn rolau goruchwylio is a rolau thechnegol yn dangos lefelau is o lythrennedd Cymraeg na'r rhai mewn galwedigaethau arferol neu lled reolwaith. Gall hyn eto fod yn gysylltiedig â'r cyfrwng yr oedd ymatebwyr yn gweithio ynddo, gyda'r rheini mewn galwedigaethau technegol o bosibl yn llai tebygol o fod yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg na'r rheini a oedd yn ymwneud mwy â chwsmeriaid yn eu gwaith.

Yn ogystal â gallu dadansoddi'r canlyniadau yn ôl galwedigaeth, gallwn hefyd ddadansoddi gwahaniaethau sectorau'r rheini'n gweithio mewn gwahanol ddiwydiannau (Tabl 69), er fod problemau gyda meintiau samplau bach mewn sawl

sector. Y diwydiannau oedd â chanlyniadau cadarn, Addysg a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn oedd â'r cyfrannau uchaf o ymatebwyr ar Lefel 2 neu uwch mewn Llythrennedd Cymraeg.

**Tabl 69 Llythrennedd Cymraeg yn ôl sector diwydiant (SIC)**

**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| **Grŵp SIC ymatebwyr** | **Asesiad Llythrennedd** | | |
|---|---|---|---|
| | **Lefel Mynediad** | **Lefel 1** | **Lefel 2** |
| | **%** | **%** | **%** |
| Gweithgareddau Llety ac Arlwyo Bwyd (65/67) | 49 | 29 | 22 |
| Gweithgareddau Sefydliadau a Chyrff Tramor (1/1) | [*[156]] | [0] | [0] |
| Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaethau Cymorth (19/23) | [64] | [8] | [28] |
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota (27/29) | [22] | [42] | [35] |
| Celfyddydau, Adloniant a Hamdden (31/32) | [19] | [12] | [68] |
| Adeiladu (45/46) | [67] | [20] | [13] |
| Addysg (183/173) | 13 | 26 | 62 |
| Cyflenwi Trydan, Nwy, Stêm ac Aerdymheru (5/5) | [19] | [62] | [19] |
| Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant (19/19) | [18] | [40] | ]42] |
| Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (133/146) | 33 | 35 | 31 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu (16/11) | [6] | [18] | [76] |
| Gweithgynhyrchu (58/63) | 59 | 22 | 20 |
| Mwyngloddio a Chwarela (3/6) | [82] | [18] | [0] |
| Gweithgareddau Gwasanaethau Eraill (17/15) | [29] | [17] | [55] |
| Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol (33/29) | [42] | [21] | [37] |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn (74/74) | 25 | 31 | 45 |
| Gweithgareddau Eiddo Tiriog (5/3) | [0] | [0] | [*[157]] |
| Trafnidiaeth a Storio (33/32) | [70] | [18] | [13] |
| Cyflenwi Dŵr (10/10) | [30] | [33] | [37] |
| Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu (89/92) | 44 | 31 | 26 |

Sail a bwysolwyd 907

Sail na phwysolwyd 924

### *4.4.5 Galwedigaeth a rhyw*

Dangosodd Adran 1 o'r bennod hon fel gwahaniad pendant yn ôl rhyw mewn sgoriau asesiadau llythrennedd Cymraeg, gyda merched yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch nag yw eu cymheiriaid gwrywaidd. Fel yng nghanlyniadau'r arolwg cyfrwng Saesneg roedd gor-gynrychiolaeth o ddynion mewn galwedigaethau rheoli

[156] Mae'r eitem ddata hon yn disclosive neu ddim yn ddigon cadarn i'w chyhoeddi.
[157] Mae'r eitem ddata hon yn disclosive neu ddim yn ddigon cadarn i'w chyhoeddi.

tra bod ar yr un pryd or-gynrychiolaeth o ferched mewn galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol a galwedigaethau gwasanaethau personol (gweler Tabl 70).

**Tabl 70 Galwedigaeth a rhyw**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Grŵp SOC ymatebwyr** | **Gwrywaidd %** | **Benywaidd %** | **Cyfanswm %** |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr ac Uwch Swyddogion | 16 | 10 | 13 |
| Galwedigaethau Proffesiynol | 11 | 11 | 11 |
| Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiedig | 12 | 14 | 13 |
| Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 6 | 17 | 12 |
| Galwedigaethau Crefftau Medrus | 18 | 3 | 10 |
| Galwedigaethau Gwasanaethau Personol | 4 | 15 | 10 |
| Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | 5 | 11 | 8 |
| Gweithwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau | 14 | 4 | 9 |
| Galwedigaethau Elfennol | 13 | 14 | 13 |

Sail: Yr holl ymatebwyr

Fodd bynnag, pan fo lefelau llythrennedd Cymraeg ymatebwyr yn cael eu dadansoddi yn ôl lefel alwedigaethau a rhyw, gellir gweld bod merched wedi sgorio’n well yn yr asesiadau llythrennedd yn y lefelau galwedigaethol sgiliau uwch. Felly, er gwaethaf y ffaith fod dynion yn fwy tebygol o fod mewn swyddogaethau rheoli a phroffesiynol, nid oedd hyn o ganlyniad i gael gwell sgiliau llythrennedd Cymraeg (Tabl 71).

**Tabl 71 Galwedigaeth a rhyw**
**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**

| | **Gwrywaidd** | | | **Benywaidd** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Galwedigaeth** | **Lefel Mynediad %** | **Lefel 1 %** | **Lefel 2 %** | **Lefel Mynediad %** | **Lefel 1 %** | **Lefel 2 %** |
| Rheolwyr ac Uwch Swyddogion | 31 | 31 | 38 | 24 | 35 | 41 |
| Galwedigaethau Proffesiynol | 18 | 22 | 60 | 15 | 16 | 69 |
| Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiedig | 29 | 39 | 33 | 27 | 22 | 50 |
| Galwedigaethau Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 27 | 34 | 39 | 16 | 33 | 51 |
| Galwedigaethau Crefftau Medrus | 54 | 29 | 18 | 32 | 33 | 34 |
| Galwedigaethau Gwasanaethau Personol | 31 | 26 | 42 | 34 | 35 | 31 |
| Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | 45 | 25 | 30 | 37 | 29 | 34 |
| Gweithwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau | 54 | 23 | 23 | 96 | 4 | 0 |
| Galwedigaethau Elfennol | 67 | 21 | 12 | 46 | 32 | 22 |


| | | |
|---|---|---|
| Sail a bwysolwyd | 408 | 500 |
| Sail na phwysolwyd | 381 | 543 |

Sail: Yr holl ymatebwyr a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

*4.4.6 Llythrennedd Cymraeg ac incwm y cartref*

Archwiliwyd y berthynas rhwng lefelau llythrennedd Cymraeg ac incwm y cartref ymysg ymatebwyr yr arolwg (Ffigur 43).Roedd cyd-berthynas uniongyrchol rhwng lefelau uwch o lythrennedd ac incwm uwch, yn yr ystyr bod cyfartaledd incwm cartrefi'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 yn £31,791, tra bod y ffigur yn £16,383 ymysg cartrefi lle aseswyd yr ymatebydd ar Lefel Mynediad.

**Ffigur 43 Incwm y cartref a llythrennedd**




Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

O edrych ar y canlyniadau hyn o bersbectif wahanol (Tabl 72), mae ymatebwyr sy'n byw mewn cartrefi gydag incwm o fwy na £50,000 deirgwaith mor debygol o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch nag yw'r rheini sy'n byw mewn cartrefi gydag incwm o dan £10,000. Cafodd tua hanner yr ymatebwyr hynny a oedd yn byw mewn cartrefi yn y dosbarth incwm isaf eu hasesu ar Lefel Mynediad llythrennedd Cymraeg.

**Tabl 72 Incwm y cartref a llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| Cyfanswm incwm y cartref cyn treth yn y flwyddyn ddiwethaf | O dan £10,000 % | £10,000 - £19,999 % | £20,000 - £29,999 % | £30,000 - £40,000 % | £40,000 - £49,999 % | Mwy na £50,000 % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 48 | 50 | 40 | 29 | 32 | 16 |
| Lefel 1 | 34 | 25 | 30 | 32 | 18 | 25 |
| Lefel 2 | 19 | 25 | 30 | 39 | 51 | 59 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sail a bwysolwyd | 84 | 132 | 142 | 112 | 84 | 121 |
| Sail na phwysolwyd | 120 | 157 | 143 | 101 | 68 | 90 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Roedd y berthynas rhwng incwm yr unigolyn a llythrennedd yn dilyn patrwm tebyg i'r hyn sydd yn y tabl blaenorol, yn yr ystyr fod lefelau asesiadau'n sylweddol well ymysg y rheiny gydag incwm o £30,000 neu fwy (Tabl 73) a bod perthynas rhwng y gyfran o asesiadau ar Lefel 2 ac incwm unigolion.

**Tabl 73  Incwm yr unigolyn a llythrennedd**
**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Enillion personol cyn treth yn y flwyddyn ddiwethaf (os yn gweithio)** | **O dan £10,000** | **£10,000 - £19,999** | **£20,000 - £29,999** | **£30,000 - £40,000** | **£40,000 - £49,999** | **Mwy na £50,000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| Lefel Mynediad | 38 | 35 | 40 | 22 | [19] | [5] |
| Lefel 1 | 32 | 32 | 21 | 27 | [32] | [18] |
| Lefel 2 | 29 | 33 | 39 | 51 | [50] | [77] |
| Sail a bwysolwyd | 129 | 164 | 128 | 72 | 40 | 23 |
| Sail na phwysolwyd | 123 | 147 | 105 | 56 | 28 | 17 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

### *4.4.7 Crynodeb*

Mae canlyniadau'r arolwg yn arddangos cysylltiad rhwng statws cyflogaeth yr ymatebwyr a chanlyniadau eu hasesiadau llythrennedd Cymraeg. Cafodd 68 y cant o ymatebwyr a oedd mewn gwaith eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, o gyferbynnu â 54 y cant o'r rheini a oedd yn ddi-waith ar adeg yr arolwg. Ychydig o wahaniaeth, fodd bynnag, oedd rhwng lefelau asesiadau gweithwyr llawn amser a gweithwyr rhan-amser.

Fel gyda chanlyniadau'r arolwg a'r asesiadau Saesneg, roedd cysylltiad rhwng cyflogaeth sgiliau uwch a lefelau uwch o lythrennedd, gydag er enghraifft 80 y cant o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu uwch, ond 50 y cant o'r rheini mewn galwedigaethau gwaith yn cael eu hasesu ar y lefel hon. Fodd bynnag, roedd y berthynas yn llai amlwg yn y canlyniadau cyfrwng Cymraeg, gyda lefelau cymharol isel o lythrennedd ymysg y rheini mewn crefftau medrus, er enghraifft.

Roedd cyfraddau uwch o lythrennedd Cymraeg yn cael eu cysylltu ag incwm uwch ymysg cartrefi ac unigolion, gyda'r ymatebwyr hynny a aseswyd ar Lefel 2, er

enghraifft, â chyfartaledd incwm cartref o £31,791, tra bod y ffigur yn £16,383 ar gyfer ymatebwyr ar Lefel Mynediad.

### 4.5 Sgiliau llythrennedd Cymraeg mewn bywyd bob dydd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar ganlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun hunan ganfyddiadau ymatebwyr ohonynt eu hunain, eu sgiliau a'r graddau y teimlant eu bod wedi eu cynnwys ym mywyd digidol Cymru. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn[158], mae'n hysbys yn gyffredinol fod sgiliau llythrennedd gwael yn cael effaith ar allu unigolyn i chwarae rhan lawn a gweithgar yn eu cymuned. Gall anawsterau gyda chyfathrebu neu'r diffyg hyder a all ddeilio o lythrennedd gwael allgáu pobl o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen er mwyn byw bywyd llawn.

Mae'r adran hon yn dechrau gyda golwg ar ganlyniadau asesiadau llythrennedd Cymraeg yng nghyd-destun hunanasesiadau ymatebwyr o'u gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, ac yn edrych wedyn ar hyder ymatebwyr yn eu gallu i ddarllen Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd bob dydd a'u perchnogaeth o lyfrau Cymraeg. Mae'r adran yn diweddu gyda chipolwg ar gynhwysiant digidol a'r graddau yr oedd ymatebwyr yn gallu cael at gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd a'r defnydd a wnaent o'r cyfleusterau hyn.

*Canfyddiadau Allweddol*

- Dywedodd bron bawb o'r rhai a holwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn dda iawn neu'n weddol dda. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth trawiadol mewn perfformiad llythrennedd rhwng y rheini a deimlai eu bod yn siarad Cymraeg yn dda iawn a'r rhai a deimlai eu bod yn siarad yr iaith yn weddol dda.
- Roedd ymatebwyr yr un mor hyderus ynghylch darllen Cymraeg yn y gwaith ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol (93 y cant hyderus). Roeddent, fodd bynnag, yn llai hyderus o safbwynt darllen ffurflenni.
- Dim ond hanner y rhai a holwyd oedd yn hyderus ynghylch ysgrifennu yn y Gymraeg, ac fe wnaeth y rhain sgorio'n dda yn yr asesiad llythrennedd yn ogystal.

[158] Adran 3.6

*4.5.1 Hunanasesiad o sgiliau llythrennedd*

Gofynnwyd i ymatebwyr hunanasesu eu galluoedd i ddarllen yn y Saesneg a'r Gymraeg. Yn gyffredinol, teimlai ymatebwyr eu bod yn well am ddarllen Saesneg na Chymraeg; dywedodd 89 y cant eu bod yn dda iawn am ddarllen Saesneg o gymharu â 71 y cant am ddarllen Cymraeg, gan efallai gadarnhau'r syniad fod ymatebwyr yn fwy hyderus yn eu galluoedd i siarad Cymraeg na'u galluoedd i'w darllen. Fe wnaeth 88 y cant o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd asesu eu hunain fel da iawn am ddarllen yn y Saesneg, gyda 11 y cant pellach yn asesu eu gallu fel gweddol dda. Roedd lefelau hunanasesu o allu darllen yn y Gymraeg yn is, lle teimlai 61 y cant eu bod yn dda iawn, a 34 y cant eu bod yn weddol dda am ddarllen yn y Gymraeg.

**Tabl 74 Hunanasesiad o allu darllen yn y Gymraeg**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Hunanasesiad Llythrennedd** | | | **Cymraeg** | | | **Saesneg** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Da Iawn %** | **Gweddol Dda %** | **Is na'r Cyfartaledd %** | **Da Iawn %** | **Gweddol Dda %** | **Is na'r Cyfartaledd %** |
| Lefel Mynediad | 26 | 61 | [*] | 36 | 36 | [*] |
| Lefel 1 | 28 | 23 | [*] | 26 | 28 | [*] |
| Lefel 2 neu uwch | 46 | 16 | [*] | 37 | 36 | [*] |
| Sail a bwysolwyd | 709 | 283 | * | 889 | 104 | * |
| Sail na phwysolwyd | 727 | 265 | * | 878 | 116 | * |

Sail: Pawb o'r ymatebwyr a siaradai Gymraeg yn rhugl neu'n weddol dda
*Mae'r eitem ddata hon yn disclosive neu ddim yn ddigon cadarn i'w chyhoeddi.

O'r rhai a asesodd eu hunain fel bod yn dda iawn am ddarllen Cymraeg, cafodd 26 y cant eu sgorio fel Lefel Mynediad yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg o gymharu â chyfanswm cyffredinol o 30 y cant, ac o'r rheini a oedd yn graddio'u sgiliau darllen fel gweddol dda, roedd mwy na 60 y cant ar Lefel Mynediad (Tabl 74). Yn ddiddorol, nid oedd fawr o wahaniaeth yng nghanlyniadau'r asesiadau llythrennedd Cymraeg rhwng y rheini a feddyliai eu bod yn siarad Saesneg yn dda iawn a'r rhai a feddyliai eu bod yn siarad Saesneg yn weddol dda (36 y cant ar Lefel Mynediad ym mhob achos).

**Tabl 75 Hyder mewn gallu i ddarllen Cymraeg**

**Allwedd: Darllen ar draws y rhesi**


| **Lleoliad** | **Hyderus %** | **Ddim yn Hyderus %** | **Hyder Ddim yn Berthnasol %** |
|---|---|---|---|
| Darllen llythyrau / negeseuon e-bost oddi wrth gyfeillion / teulu | 93 | 6 | 1 |
| Yn y gwaith | 76 | 5 | 19 |
| Darllen ffurflenni | 86 | 13 | 1 |
| Sail a bwysolwyd | 1290 | 1290 | 1290 |
| Sail na phwysolwyd | 1279 | 1279 | 1279 |

Sail: Pawb o'r ymatebwyr a siaradai Gymraeg yn rhugl neu'n weddol dda

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ynghylch eu hyder wrth ddarllen Cymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau (Tabl 75). Roedd lefelau uchaf eu hyder mewn gweithgareddau cymdeithasol, megis darllen negeseuon e-bost neu lythyrau oddi wrth gyfeillion a theulu, er bod, ymhlith y rheini a oedd yn gweithio, lefelau hyder wrth ddarllen Cymraeg yn y gwaith yn gyfuwch â'r rhai mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Darllen ffurflenni oedd yr hyn oedd ymatebwyr leiaf hyderus yn ei gylch, gyda 13 y cant yn dweud nad oeddent yn hyderus gyda'r gweithgaredd hwn.

Dengys Ffigur 44 fod ymatebwyr yn gymharol gyson yn eu hunanasesiadau. O'r rheini a oedd yn hyderus yn darllen llythyrau a negeseuon e-bost, cafodd 33 y cant eu hasesu ar Lefel Mynediad llythrennedd ac roedd y gyfran yn debyg o ran hyder wrth ddarllen Cymraeg yn y gwaith a darllen ffurflenni, er gwaethaf y ffaith fod gwahanol gyfrannau o ymatebwyr yn hyderus ynghylch eu darllen yn y gwahanol sefyllfaoedd hyn.

**Ffigur 44 Hyder mewn gallu i ddarllen Cymraeg yn ôl lefel asesiad Llythrennedd**




Sail: Pawb o'r ymatebwyr a siaradai Gymraeg yn rhugl neu'n weddol dda

### *4.5.2 Darllen a pherchnogaeth llyfrau*

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a allai ddarllen Gymraeg pa mor aml yr oeddent yn darllen llyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd yn y Gymraeg. Rhwng pawb, dywedodd 15 y cant eu bod yn darllen yn y Gymraeg bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau, a dilynwyd hyn gan 25 y cant a oedd yn gwneud hynny tuag unwaith yr wythnos. Roedd darllen mynych ychydig yn fwy cyffredin ymhlith y rheini a oedd yn rhugl eu Cymraeg (17 y cant yn darllen bob dydd) ac yn llai cyffredin ymysg y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad llythrennedd Cymraeg.

Dangoswyd yn yr arolwg o siaradwyr Saesneg fod sgoriau is mewn asesiadau llythrennedd yn gysylltiedig â lefelau is o berchnogaeth llyfrau. Roedd yr un peth yn wir am siaradwyr Cymraeg (Tabl 76), yn enwedig mewn perthynas â llyfrau yn y Gymraeg: roedd gan 82 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad lai na 25 o lyfrau Cymraeg yn eu cartref, tra bod y ffigur ar gyfer llyfrau Saesneg yn 23 y cant ymysg yr un grŵp. Roedd gan 59 y cant o'r sampl cyfan lai na 25 o lyfrau Cymraeg yn eu cartref, o gymharu â 16 y cant gyda llai na 25 o lyfrau Saesneg. Gall hyd fod

yn gysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith lafar yn bennaf, neu gall fod yn destun trafodaeth ar y graddau y mae llyfrau Cymraeg ar gael.

**Tabl 76 Darllen a pherchnogaeth llyfrau**

| | Perchnogaeth Llyfrau | |
|---|---|---|
| | **Llai na 25 o Lyfrau Cymraeg %** | **Llai na 25 o Lyfrau Saesneg %** |
| Lefel Mynediad | 82 | 23 |
| Lefel 1 | 60 | 18 |
| Lefel 2 neu uwch | 36 | 9 |
| Cyfanswm | 59 | 16 |
| Sail a bwysolwyd | 591 | 163 |
| Sail na phwysolwyd | 597 | 171 |

Sail: Pawb o'r ymatebwyr a siaradai Gymraeg yn rhugl neu'n weddol dda

Roedd perthynas rhwng perchnogaeth llyfrau Cymraeg a hunanasesiad ymatebwyr o'u gallu i ddarllen yn y Gymraeg, fel y dangosir yn Nabl 77.

**Tabl 77 Llythrennedd: Perchnogaeth llyfrau a hunanasesiad o allu darllen yn y Gymraeg**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| | | | Hunanasesiad Darllen |
|---|---|---|---|
| **Perchnogaeth Llyfrau Cymraeg** | **Da Iawn %** | **Da %** | **Is na'r Cyfartaledd / Gwael %** |
| Llai na 25 o lyfrau | 48 | 78 | 85 |
| 25 neu fwy o lyfrau | 51 | 22 | 11 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 0 | 4 |
| Sail a bwysolwyd | 785 | 434 | 71 |
| Sail na phwysolwyd | 768 | 435 | 76 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Roedd gan 51 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn dda iawn am ddarllen Cymraeg 25 neu fwy o lyfrau Cymraeg yn eu tŷ, tra bod y gyfran yn disgyn i 11 y cant o'r rheini a deimlai fod eu sgiliau darllen yn is na'r cyfartaledd neu'n wael. I gadarnhau'r berthynas hon, dywedodd 85 o ymatebwyr a deimlai fod ganddynt sgiliau darllen is na'r cyfartaledd neu wael fod ganddynt lai na 25 o lyfrau Cymraeg yn eu tŷ.

*4.5.3 Hunanasesiad o allu ysgrifennu*

Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr asesu eu gallu i ysgrifennu yn y Saesneg ac yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn llawer mwy hyderus yn eu gallu i ysgrifennu Saesneg nag yn eu gallu i ysgrifennu Cymraeg; dywedodd 81 y cant eu bod yn dda iawn am ysgrifennu Saesneg o gymharu â dim ond 51 y cant am ysgrifennu Cymraeg. Yn ogystal, cafodd 21 y cant o ymatebwyr a asesodd eu hunain fel da iawn am ysgrifennu Cymraeg eu sgorio ar Lefel Mynediad yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg (Tabl 78).

**Tabl 78 Hunan asesiad o allu i ysgrifennu**

**Allwedd: Darllener i lawr y colofnau**

| | **Cymraeg*** | | | **Saesneg** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hunanasesiad Llythrennedd** | **Da Iawn %** | **Gweddol Dda %** | **Is na'r Cyfartaledd %** | **Da Iawn %** | **Gweddol Dda %** | **Is na'r Cyfartaledd %** |
| Lefel Mynediad | 21 | 46 | 75 | 34 | 44 | [69] |
| Lefel 1 | 25 | 31 | 18 | 26 | 27 | [31] |
| Lefel 2 neu uwch | 55 | 23 | 7 | 40 | 29 | [0] |
| Sail a bwysolwyd | 506 | 395 | 99 | 810 | 180 | 11 |
| Sail na phwysolwyd | 493 | 400 | 106 | 804 | 181 | 15 |

Sail: *Pawb o'r ymatebwyr a allai ddarllen Cymraeg

O'r holl ymatebwyr a allai ysgrifennu Cymraeg ac a oedd yn gwneud hynny ar bapur bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau, cafodd 53 y cant eu sgorio ar Lefel 2 neu uwch yn yr asesiad Llythrennedd Cymraeg. Roedd y ffigur hwn yn syrthio i 13 y cant o'r rheini a oedd yn ysgrifennu Cymraeg lai nag amryw o weithiau'r flwyddyn. Roedd 25 y cant o ymatebwyr a allai ysgrifennu Cymraeg yn gwneud hynny ar-lein bob dydd, neu'r rhan fwyaf o ddyddiau, tra dywedodd 38 o ymatebwyr nad oeddent byth yn ysgrifennu yn y Gymraeg ar y rhyngrwyd (a allai gynnwys anfon negeseuon e-bost neu ysgrifennu ar Facebook/MySpace/Bebo).

*4.5.4 Cynhwysiant Digidol ac Allgáu Digidol*

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar asesiadau llythrennedd Cymraeg yng nghyd-destun mynediad ymatebwyr at gyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd a'r ffyrdd yr oeddent yn eu defnyddio. Mae hyn yn bwysig oherwydd y cysylltiadau rhwng cynhwysiant digidol a chynhwysiant cymdeithasol, fel y trafodwyd yn yr arolwg

cyfrwng Saesneg yn adran 3.6.6 o'r adroddiad hwn, ac sy'n cael ei gefnogi gan ein canlyniadau, sy'n dangos bod y rhai â llythrennedd Cymraeg Lefel Mynediad yn llai tebygol o gael mynediad at y rhyngrwyd neu o gael defnydd cyfrifiadur na'r ymatebwyr yn y sampl cyfan.

*4.5.5 Mynediad at y Rhyngrwyd a defnydd o gyfrifiadur*

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ynghylch eu mynediad at y Rhyngrwyd yn y cartref a hefyd a oedd ganddynt ddefnydd rheolaidd o gyfrifiadur. Dengys Tabl 79 bod cyd-berthynas rhwng mynediad at y Rhyngrwyd yn y cartref a lefelau asesiadau ymatebwyr mewn llythrennedd Cymraeg. Er enghraifft, roedd gan 94 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel 2 neu uwch fynediad at y Rhyngrwyd yn y cartref, tra roedd hyn yn wir am 86 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad neu is. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw dystiolaeth i awgrymu cysylltiad achosol yma, gan y bydd llawer o ffactorau eraill, megis diweithdra neu incwm, ar waith. Yn yr un modd, o ran defnydd o gyfrifiadur, roedd gwahaniaeth rhwng y lefelau o ddefnydd o gyfrifiadur ymysg y rhai a aseswyd yn is na Lefel Mynediad a'r rheini ar Lefel 1 neu uwch.

**Tabl 79 Mynediad at y Rhyngrwyd yn y cartref a defnydd o gyfrifiadur**

| Lleoliad | Mynediad at y Rhyngrwyd<br>% | Defnydd o gyfrifiadur<br>% | Erioed wedi Defnyddio Cyfrifiadur *<br>% | Hunan-asesiadau Da Iawn / Gweddol Dda o Sgiliau TGCh<br>% |
|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 86 | 80 | 52 | 88 |
| Lefel 1 | 92 | 87 | 52 | 86 |
| Lefel 2 neu uwch | 94 | 96 | 54 | 94 |
| Cyfanswm | 91 | 88 | 53 | 90 |
| Sail a bwysolwyd | 907 | 877 | 65 | 847 |
| Sail na phwysolwyd | 808 | 789 | 96 | 763 |

Sail: Pawb o'r ymatebwyr a siaradai Gymraeg yn rhugl neu'n weddol dda
*O'r rheini nad oedd ganddynt fynediad at gyfrifiadur ar adeg yr arolwg.

Roedd ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd yn fwy tebygol na'r rheini ar Lefel Mynediad o ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer prosesu geiriau, gwaith taenlenni neu gronfeydd data neu e-bostio. Nid oedd dim gwahaniaeth, fodd bynnag,

rhwng defnydd y ddau grŵp o ymatebwyr o gyfrifiadur ar gyfer cael at y Rhyngrwyd. (Tabl 80).

**Tabl 80 Defnydd o Gyfrifiadur fesul Lefel Llythrennedd**
**Allwedd: Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb**

| Lefel Llythrennedd | Lefel Mynediad | Lefel 1 | Lefel 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| Prosesu Geiriau | 63 | 72 | 86 | 75 |
| Mynediad at y Rhyngrwyd (y We Fyd-eang) | 97 | 96 | 99 | 97 |
| E-bost | 84 | 90 | 97 | 91 |
| Defnyddio Taenlenni/Cronfeydd Data | 38 | 48 | 49 | 45 |
| Addysg a Dysgu | 49 | 58 | 65 | 58 |
| Gemau | 49 | 46 | 35 | 43 |
| Rhaglennu | 14 | 13 | 12 | 13 |
| Gwaith (heb fanylu) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bancio/rheol cyllid/cyfrifon | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfrifo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio/darlunio/cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwarae/copïo cerddoriaeth/ argraffu cryno ddisgiau | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Ffotograffiaeth (unrhyw grybwylliad) | 0 | 2 | 0 | 1 |
| Siopa | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Rhwydweithio cymdeithasol | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Gwylio teledu/ffilmiau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Sail a bwysolwyd | 288 | 230 | 359 | 877 |
| Sail na phwysolwyd | 256 | 209 | 324 | 789 |

Sail: Pawb sy'n defnyddio cyfrifiadur ar hyn o bryd

Roedd mynychder defnydd cyfrifiaduron isaf ymysg grwpiau oedran hŷn, gyda dim ond 68 y cant o ymatebwyr 55-65 oed yn dweud eu bod yn defnyddio un. Roedd hanner y rheini nad oedd yn defnyddio cyfrifiadur ar y pryd heb erioed ddefnyddio un. Ymhlith y rheini a oedd yn defnyddio cyfrifiadur ar y pryd, y prif weithgareddau y'i defnyddiwyd ar ei gyfer oedd: mynediad at y rhyngrwyd (97 y cant), e-bost (91 y cant) a phrosesu geiriau (75 y cant).

*4.5.6 Hunanasesiad o Sgiliau Technoleg Gwybodaeth*

Gofynnwyd i bawb o'r ymatebwyr a oedd erioed wedi defnyddio cyfrifiadur hunanasesu eu sgiliau Technoleg Gwybodaeth. Teimlai 90 y cant fod eu sgiliau TG yn dda, a theimlai mwyafrif o'r rhain (51 y cant) eu bod yn dda iawn. Roedd ymatebwyr iau'n debygol o asesu eu sgiliau TG yn uwch na'r cymheiriaid hŷn – er enghraifft roedd 99 y cant o bobl ifanc 16-19 oed yn graddio'u sgiliau TG fel da, tra bod y ffigur yn 79 y cant o'r rhai 55-65 oed.

Roedd y rheini a asesodd eu sgiliau TG fel da iawn neu weddol dda'n fwy tebygol na'r sampl cyfan o gael eu hasesu ar Lefel 2 neu uwch am lythrennedd (39 y cant da iawn a 44 y cant gweddol dda, Tabl 81). Fodd bynnag, roeddent yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad na Lefel 1 am lythrennedd ac mae hwn yn ganlyniad a allai haeddu ei archwilio ymhellach.

**Tabl 81 Hunanasesiad o sgiliau Technoleg Gwybodaeth**

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**

| **Hunanasesiad TG** | **Da Iawn %** | **Gweddol Dda %** | **Is na'r Cyfartaledd %** | **Gwael %** |
|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 34 | 34 | 38 | [53] |
| Lefel 1 | 27 | 22 | 38 | [29] |
| Lefel 2 neu uwch | 39 | 44 | 24 | [18] |
| Sail a bwysolwyd | 460 | 387 | 78 | 17 |
| Sail na phwysolwyd | 383 | 380 | 96 | 25 |

Sail: Pawb o'r ymatebwyr a oedd wedi defnyddio cyfrifiadur erioed

*4.5.7 Crynodeb*

Mae'r adran hon wedi dangos bod perthynas rhwng asesiadau llythrennedd ymatebwyr a'u hunanasesiad o'u gallu i siarad Cymraeg. Er bod cysylltiad tebyg rhwng canlyniadau hunan ganfyddiadau ac asesiadau o safbwynt sgiliau darllen Cymraeg, roedd braidd yn wannach.

Er bod 93 y cant o ymatebwyr yn hyderus ynghylch eu gallu i ddarllen llythyrau a negeseuon e-bost gan gyfeillion a theulu yn y Gymraeg, cafodd traean o'r rhain eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd. Roedd cysylltiad rhwng perchnogaeth o lyfrau a lefelau asesiadau llythrennedd, er bod gan 41 y cant o ymatebwyr fwy na 25

o lyfrau Cymraeg yn eu cartref, o'i gymharu â 84 y cant gyda'r nifer hwnnw o lyfrau Saesneg. O safbwynt sgiliau ysgrifennu, cafodd 21 y cant o'r rheini a deimlai eu bod yn dda iawn am ysgrifennu Cymraeg eu hasesu ar Lefel Mynediad am lythrennedd.

O safbwynt cynhwysiant digidol, roedd cyd-berthynas wan rhwng lefelau asesiadau llythrennedd a mynediad at y Rhyngrwyd neu ddefnydd o gyfrifiadur. Er enghraifft, roedd gan 96 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel 2 am lythrennedd ddefnydd o gyfrifiadur, tra mai 80 y cant o'r rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad oedd â defnydd o gyfrifiadur.

### 4.6 Hyfforddiant Llythrennedd Cymraeg

#### *4.6.1 Cyflwyniad*

Yn yr adran olaf fer hon o'r bennod, archwilir profiadau ymatebwyr o ddysgu. Mae'r adran yn dechrau trwy edrych ar y gyfran o ymatebwyr a gymerodd ran mewn dysgu llythrennedd Cymraeg yn ystod y ddwy flynedd cyn yr arolwg, ac a oedd cysylltiad rhwng hyn a chanlyniadau eu hasesiadau llythrennedd. Mae'r adroddiad yn edrych ar eu profiadau o ddysgu, y canlyniadau a'r lleoedd mwyaf poblogaidd i fynychu cyrsiau. Mae'n mynd ymlaen i edrych ar ganlyniadau'r rheini a ystyriai eu sgiliau darllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg yn llai na da iawn, ond nad oedd wedi mynd ar hyfforddiant, gan gynnwys y rhwystrau iddynt rhag gwneud hynny.

*Canfyddiadau Allweddol*

- Roedd 9 y cant o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant naill ai mewn darllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Roedd ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 2 ar gyfer llythrennedd yn fwy tebygol o wneud hyfforddiant mewn adeilad ysgol / coleg neu brifysgol nac ymatebwyr ar lefelau is, oedd yn fwy tebygol o wneud hyfforddiant mewn adeilad cymunedol.
- Y prif resymau am beidio ag ymgymryd â hyfforddiant oedd diffyg amser (49 y cant), ymrwymiadau gwaith (34 y cant), ymrwymiadau gofal plant (16 y cant), ffioedd (11 y cant) a dim cyrsiau addas (11 y cant).
- Coleg a phrifysgol oedd y dewis mwyaf poblogaidd i ofyn am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant gyda thua 45 y cant o ymateb, yn cael ei ddilyn gan gyfeillion a theulu (17 y cant) a'r rhyngrwyd (16 y cant).
- Roedd grwpiau oedran iau yn fwy tebygol i enwi coleg, prifysgol a'r rhyngrwyd fel ffynonellau o wybodaeth neu gyngor, ac roedd grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o enwi'r llyfrgell.

Mae'n bwysig fod yr unigolion hynny sydd â diffyg sgiliau'n ymwybodol o hynny (fel sy'n dod yn fwy cyffredin, fe ymddengys) ac yn barod i wneud rhywbeth am y peth, os yw Cymru i gymryd ei lle ymysg cenhedloedd datblygedig.
Mae cymryd rhan mewn dysgu'n dibynnu ar amrywiaeth helaeth o ffactorau, ond bydd y rhain yn cynnwys cael cyfle am hyfforddiant addas mewn lleoliad cyfleus, y math iawn o ddarpariaeth, cymorth gyda gofal plant a sicrhau amser yn rhydd o'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd fod y rheini sy'n mynd trwy'r broses o ddatblygu eu sgiliau'n teimlo i'r broses fod yn werth yr ymdrech a'u bod wedi elwa yn ei sgil. Yn yr adran hon o'r adroddiad, archwilir profiadau ymatebwyr o ddysgu.

*Hyfforddiant llythrennedd ac addysg*

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg dros y ddwy flynedd flaenorol. Roedd 91 y cant heb dderbyn unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg yn ystod yr adeg honno, ond o'r rhai a oedd wedi derbyn hyfforddiant, roedd niferoedd gweddol gyfartal ohonynt wedi cymryd rhan mewn dysgu darllen, ysgrifennu a siarad (Tabl 82).

**Tabl 82 Hyfforddiant neu addysg mewn Llythrennedd Cymraeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**

| **Wedi derbyn hyfforddiant mewn llythrennedd** | **2010**<br>**%** |
|---|---|
| Darllen | 8 |
| Ysgrifennu | 8 |
| Siarad | 7 |
| Unrhyw un o'r uchod | 9 |
| Sail a bwysolwyd | 1292 |
| Sail na phwysolwyd | 1280 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Roedd ymatebwyr a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi dilyn hyfforddiant na'r rheini a aseswyd ar lefelau uwch (Tabl 83). Fe wnaeth 12 y cant o'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd ddilyn hyfforddiant o ryw fath, tra bod y ffigur yn 7 y cant i'r rheini ar Lefel 2. Roedd yn ddealladwy fod y gyfran o bobl ifanc 16-19 oed a oedd wedi derbyn hyfforddiant o ryw fath yn ystod y ddwy flynedd flaenorol yn uwch na'r gyfran o grwpiau oedran eraill a oedd wedi derbyn hyfforddiant neu addysg yn ystod yr adeg hynny, gan y

byddai cyfran fawr ohonynt yn dal wedi bod mewn addysg lawn-amser. Roedd cyfanswm o 87 y cant o ymatebwyr a dderbyniodd hyfforddiant mewn unrhyw agwedd o lythrennedd Cymraeg yn y ddwy flynedd cyn yr arolwg wedi cwblhau eu cwrs.


**Tabl 83 A oedd yr ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant/addysg mewn Llythrennedd Cymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf**

| **A oedd yr ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant/addysg mewn Llythrennedd Cymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf** | **Darllen Cymraeg %** | **Ysgrifennu Cymraeg %** | **Siarad Cymraeg %** | **Unrhyw Hyfforddiant %** |
|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 11 | 10 | 11 | 12 |
| L1 | 8 | 9 | 7 | 9 |
| L2 neu uwch | 7 | 7 | 7 | 7 |
| Sail a bwysolwyd | 87 | 87 | 82 | 95 |
| Sail na phwysolwyd | 70 | 70 | 65 | 77 |

Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi dilyn hyfforddiant neu addysg yn y Gymraeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i ba raddau y teimlent eu bod wedi dysgu oddi wrth eu cwrs/cyrsiau (Ffigur 45). O’r rheini a oedd wedi dilyn hyfforddiant, dywedodd 78 y cant eu bod wedi dysgu naill ai lawer iawn neu gryn dipyn oddi wrth eu cwrs.


**Ffigur 45 Faint wnaethoch chi ddysgu o’ch hyfforddiant neu addysg mewn Llythrennedd Cymraeg?**




Sail: Pawb a ddilynodd hyfforddiant mewn darllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg

Roedd cohort llawer llai wrthi’n cymryd rhan mewn hyfforddiant llythrennedd Cymraeg ar adeg yr arolwg, ond ni all y canlyniadau gynnig casgliadau dibynadwy’n ystadegol oherwydd maint y sampl. Roedd dysgwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi mynd ar gyrsiau mewn ysgol/coleg neu brifysgol (Ffigur 46). O safbwynt lleoliad yr hyfforddiant, roedd ymatebwyr ar Lefel 2 llythrennedd yn fwy tebygol o fod wedi dilyn hyfforddiant mewn ysgol / coleg neu adeilad prifysgol nag ymatebwyr ar y lefelau is, a oedd yn fwyaf tebygol o ddilyn hyfforddiant mewn lleoliad cymunedol. Efallai fod hyn yn debygol o adlewyrchu natur y cyrsiau ar wahanol lefelau.

### Ffigur 46 Prif fan addysgu i'r rheini sy'n gwneud hyfforddiant llythrennedd Cymraeg




Sail: Pawb oedd yn dilyn hyfforddiant mewn darllen, ysgrifennu neu ddarllen Cymraeg

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn llai na da iawn am ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg ac nad oedd wedi dilyn hyfforddiant llythrennedd Cymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf, a oeddent wedi ystyried cymryd hyfforddiant (Tabl 84). Nid oedd y mwyafrif o'r holl ymatebwyr (88 y cant) wedi ystyried hyfforddiant, ond o'r rheini a oedd wedi ystyried, roedd mwy na'u hanner ar Lefel Mynediad llythrennedd. Dywedwyd mai'r prif resymau dros beidio â mynd ar hyfforddiant oedd diffyg amser (49 y cant), ymrwymiadau gwaith (34 y cant), ymrwymiadau gofal plant (16 y cant), ffioedd (11 y cant) a dim cyrsiau addas ar gael (11 y cant).

### Tabl 84 – A oedd yr ymatebwyr wedi ystyried cymryd hyfforddiant mewn Llythrennedd Cymraeg yn y 2 flynedd ddiwethaf

**Allwedd: Darllen i lawr y colofnau**


| **A oedd yr ymatebwyr wedi ystyried cymryd hyfforddiant yn y 2 flynedd ddiwethaf** | **Do**<br>**%** | **Naddo**<br>**%** |
|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 56 | 49 |
| L1 | 26 | 29 |
| L2 neu uwch | 18 | 21 |
| Sail a bwysolwyd | 58 | 415 |
| Sail na phwysolwyd | 54 | 446 |

Sail: Pawb a ystyriai eu hunain yn llai na da iawn am ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg ac nad oedd wedi dilyn hyfforddiant yn y 2 flynedd ddiwethaf

*4.6.3 Cyngor ar hyfforddiant sgiliau*

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi asesu eu sgiliau llythrennedd fel gwael neu is na'r cyfartaledd, ac nad oedd wedi mynd ar hyfforddiant, i ble y byddent yn mynd am gyngor neu wybodaeth ar hyfforddiant o'r fath (Ffigur 47). Coleg a phrifysgol oedd y dewis mwyaf poblogaidd gyda thua 45 y cant o ymatebion, wedyn cyfeillion a theulu (17 y cant) a'r Rhyngrwyd (16 y cant). Roedd grwpiau oedran iau'n fwy tebygol o enwi coleg, prifysgol a'r rhyngrwyd fel ffynonellau o wybodaeth neu gyngor a grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o enwi'r llyfrgell.

**Ffigur 47 Lle i fynd am gyngor / gwybodaeth ar hyfforddiant Llythrennedd Cymraeg**




Sail: Pawb a gwblhaodd asesiad llythrennedd Cymraeg

*4.6.4 Crynodeb*

Dangosodd y canlyniadau yn yr adran hon fod 9 y cant o ymatebwyr wedi dilyn rhyw fath o hyfforddiant yn y Gymraeg yn ystod y ddwy flynedd cyn yr arolwg, er bod y

ffigur ychydig yn uwch (12 y cant) ar gyfer y rheini a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd. Dywedodd 78 y cant o’r ymatebwyr a oedd wedi bod ar hyfforddiant iddynt ddysgu llawer iawn neu gryn dipyn oddi wrth y profiad.

O’r ymatebwyr hynny a oedd wedi asesu eu sgiliau llythrennedd eu hunain fel gweddol neu wael, roedd 12 y cant wedi ystyried cymryd rhan mewn dysgu / hyfforddiant. Mewn ysgol / coleg neu leoliadau prifysgol y cafwyd at y rhan fwyaf o bell ffordd o ddysgu, a cholegau neu brifysgolion hefyd oedd yn cael eu gweld fel y prif fannau i geisio cyngor am ddysgu, gyda 45 y cant o ymatebwyr yn eu crybwyll.

## 5. Crynodeb

### 5.1 Trosolwg

Cyflwynodd yr adroddiad hwn ganlyniadau’r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru, gan drafod asesiadau sgiliau llythrennedd Cymraeg a Saesneg, ynghyd â sgiliau rhifedd yng Nghymru. Mae’r arolwg wedi adeiladu ar yr wybodaeth a gasglwyd yn arolwg 2004 o lythrennedd Saesneg a sgiliau rhifedd, ac wedi darparu rhai cymaryddion bras ag arolwg 2004 o lythrennedd Cymraeg. Gwelwyd yr angen am yr arolwg yn rhannol mewn ymateb i’r targed a osodwyd gan y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2001. Ar ôl hynny parhawyd â hwn i’r ail Strategaeth yn 2005, y dylai 80 y cant o oedolion sy’n gweithio fod ag o leiaf Lefel 1 mewn llythrennedd ac y dylai 55 y cant fod ag o leiaf Lefel 1 mewn rhifedd erbyn 2010.

### 5.2 Canlyniadau’r Arolwg Cyfrwng Saesneg

Dengys y canlyniadau y rhagorwyd ar y targed ar gyfer llythrennedd Saesneg, gyda 88 y cant o ymatebwyr wedi’u hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch ar gyfer llythrennedd, sy’n cynrychioli cynnydd o 13 pwynt canran ers 2004. Bu cynnydd mewn rhifedd yn arafach, gyda’r canlyniad cyffredinol fod 50 y cant o ymatebwyr wedi’u hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch, tri phwynt canran yn uwch nac yn 2004, ond pum pwynt canran yn is na tharged y Strategaeth.

Dangoswyd mai ymatebwyr iau yng nghategori oedran 16-19 oedd y lleiaf tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu’n uwch mewn llythrennedd Saesneg neu rifedd, tra mai’r rhai yn y grŵp 35-44 mlwydd oed y rhai mwyaf tebygol o wneud hynny. Fodd bynnag, dyma hefyd oedd yr achos yn 2004, gan awgrymu fod unigolion yn parhau i

ddatblygu eu sgiliau yn ystod eu hoes gwaith, ar ôl gadael ysgol – pwynt a wnaed yn arolwg Sgiliau Bywyd 2003 yn Lloegr[159].

Roedd gwahaniaethau rhanbarthol mewn lefelau asesiad mewn llythrennedd Cymraeg a Saesneg a rhifedd, gyda'r ymatebwyr oedd yn byw yng Nghanolbarth Cymru yn sgorio'n uwch na chyfanswm Cymru ar gyfer llythrennedd Saesneg a rhifedd a'r rhai hynny yn Ne Ddwyrain Cymru yn sgorio'n uwch am lythrennedd Cymraeg.

Dengys canlyniadau'r arolwg beth gwahaniaethau yn lefelau asesiad yn ôl rhyw. Roedd merched ychydig yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd, ar nad oedd y bwlch yn ystadegol arwyddocaol. Yng nghanlyniadau asesiadau rhifedd, fodd bynnag, roedd dynion yn sylweddol yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch  na'u cymheiriaid benywaidd.

Dangosodd hefyd fod deiliadaeth tai wedi'i gysylltu â lefelau sgiliau; roedd y rhai gyda lefelau isaf o lythrennedd a rhifedd yn llai tebygol na'r sampl cyfan o fod yn berchen ar eu tai eu hunain ac yn fwy tebygol o fod yn byw mewn llety o eiddo'r cyngor neu cymdeithas dai. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod yn hawlio budd-daliadau[160], yn arbennig budd-dal tai a budd-dal salwch/anabledd. Mae hefyd cysylltiad rhwng hunanasesiadau o'u hiechyd eu hunain a chanlyniadau asesiadau am lythrennedd a rhifedd  - gyda'r rhai oedd yn credu eu bod mewn iechyd gwael yn llai tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd neu rifedd

Mae perthynas hefyd rhwng lefelau cymhwyster a'u sgoriau asesiadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Roedd cyfran yr asesiadau llythrennedd ar Lefel 2 neu'n uwch wedi gwella ar gyfer pob lefel cymhwyster rhwng 2004 a 2010 ac roedd lleihad sylweddol yn y gyfran o asesiadau ar Lefel Mynediad neu'n is ymhlith y rhai heb yr un cymhwyster.

Disgrifiodd yr adroddiad sut roedd y rhai a adawodd ysgol yn 16 oed yn parhau i ddatblygu eu sgiliau drwy eu bywydau gwaith, ond ar lefel is na'r rhai sy'n aros

[159] Op cit
[160] Ac eithrio Budd-dal plant, sy'n hawl cyffredinol

mewn addysg. Mae hefyd tystiolaeth fod hanes addysgol eu rhieni yn dylanwadu ar lefelau llythrennedd a rhifedd eu plant.

Dangosodd ganlyniadau'r arolwg fod ymatebwyr nad oeddent yn gweithio adeg yr arolwg ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel Mynediad neu'n is ag yr oedd eu cymheiriaid oedd yn gyflogedig, er bod y gyfran o asesiadau llythrennedd ar Lefel Mynediad ar gyfer yr ymatebwyr di-waith wedi eu haneru ers 2004. Nid yw lefelau rhifedd wedi newid i'r un graddau, a chafodd 62 y cant o ymatebwyr di-waith eu hasesu ar Lefel Mynediad yn 2010.

Nid oedd gwahaniaeth yng nghyfran yr asesiadau ar Lefel 1 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd rhwng y rhai oedd yn gweithio amser llawn a'r rhai oedd yn gweithio rhan amser ac ychydig o wahaniaeth yn nhermau lefelau rhifedd y naill a'r llall. Mae cysylltiadau bras rhwng lefel galwedigaethol Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) a sgiliau llythrennedd a rhifedd, er fod rhai galwedigaethau'n amlwg yn rhai sy'n dangos sgoriau isel am lythrennedd (er enghraifft rhai crefftau medrus) a rhifedd (gwasanaethau personol). Mae'r berthynas rhwng Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SEC) sydd wedi'i sylfaenu'n fwy ar sail economaidd gymdeithasol a llythrennedd a rhifedd yn fwy cyson, fodd bynnag.

Mae incwm teulu wedi'i gysylltu'n agos â lefelau asesiad llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, roedd gan yr ymatebwyr a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch am lythrennedd incwm cyfartalog y cartref o bron ddwywaith gymaint â'r rhai hynny a aseswyd ar Lefel Mynediad am lythrennedd, tra roedd y ffigwr yn 22 y cant i'r rhai ar incwm llai na £15,000.

Daeth unigolion yn fwy realistig yn eu hasesiadau o'u sgiliau llythrennedd, gyda 90 y cant o'r rhai oedd yn teimlo fod eu sgiliau darllen yn dda yn cael eu hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch.

Er bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn hyderus am eu Saesneg llafar mewn gwahanol sefyllfaoedd, y rhai oedd y lleiaf tebygol i fod felly oedd y rhai a gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad.

Roedd hefyd cyswllt rhwng bod yn berchen ar lyfrau a hunanasesiad o'r gallu i ddarllen ac yn nhermau cynhwysiad digidol, roedd yr ymatebwyr gyda llythrennedd

Lefel Mynediad yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd neu i gyfrifiadur na'r sampl o ymatebwyr i gyd.

Dim ond cyfran fach o'r ymatebwyr (4 y cant) a dderbyniodd unrhyw hyfforddiant mewn Saesneg neu rifedd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, er fod y ffigwr ychydig yn uwch (6 y cant) i'r rhai gyda Lefel Mynediad sgiliau llythrennedd a rhifedd. Roedd bron i dri chwarter o'r rhai a fu'n cael hyfforddiant neu addysg yn Saesneg wedi cael cymhwyster, felly roedd 83 y cant yn teimlo eu bod wedi dysgu llawer iawn neu gryn dipyn. I'r rhai hynny oedd yn dysgu rhifedd, roedd y ffigyrau'n debyg iawn.
Roedd lleoliadau addysgu ffurfiol, er enghraifft ysgol, coleg neu brifysgol yn cael eu gweld gan ymatebwyr fel y lleoedd mwyaf tebygol i gael mynediad i ddysg ac roeddent yn fwy tebygol o fod wedi derbyn gwybodaeth ar ddysgu o goleg/prifysgol neu gan ffrindiau neu deulu, er bod cyflogwyr hefyd yn cael eu gweld fel rhai sy'n hybu hyfforddiant mewn mathemateg gan rai ymatebwyr.

**5.3 Canlyniadau Arolwg Cyfrwng Cymraeg**

Roedd cwymp bach yn lefelau asesiadau llythrennedd Cymraeg, o 67 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch yn 2004 i 63 y cant yn 2010. Yn ychwanegol, roedd y gyfran o siaradwyr rhugl yn y Gymraeg a aseswyd ar Lefel Mynediad wedi dyblu bron yn ystod y chwe blynedd rhwng yr arolygon. Llwyddodd yr ymatebwyr sy'n ferched i ennill canlyniadau sylweddol gwell yn yr asesiad llythrennedd na'r dynion (69 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch i ferched, 58 y cant ar y lefel hon i ddynion). Yr ymatebwyr iau, yn y categori 16-19 mlwydd oed, oedd y lleiaf tebygol i gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, tra'r rhai mwyaf tebygol o wneud hynny oedd yn y grŵp 35-44.

Ar lefel rhanbarthol, roedd sgoriau'r asesiad llythrennedd yn uwch ymhlith ymatebwyr o Dde-ddwyrain Cymru (74 y cant wedi'u hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch yn erbyn cyfanswm Cymru o 63 y cant) ac roedd hyn hefyd yn wir am arolwg 2004. Roedd y rhai a aned yng Nghymru'n fwy tebygol o gael eu sgorio ar Lefel neu'n uwch na'r rhai a aned mewn mannau eraill ac roedd yr ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf yn y gwaith neu yn yr ysgol yn gyffredinol yn sgorio'n well yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg (78 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch) na'r rhai oedd yn siarad Saesneg yn y fath sefyllfaoedd (49 y cant) neu'r rhai oedd yn siarad y ddwy iaith yn gyfartal (65 y cant).

Fel ag yn yr arolwg cyfrwng Saesneg, roedd rhai cysylltiadau rhwng lefelau uchaf asesiad Llythrennedd a pherchnogaeth eich tŷ. Roedd y rhai a aseswyd ar Lefel 1 neu'n uwch hefyd yn llai tebygol na chyfanswm y sampl cyfan o fod yn hawlio budd-daliadau[161,] ac yn arbennig rheini sy'n cyfeirio at fudd-dal salwch ac anabledd. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan y canlyniad fod y rhai oedd yn hunan - riportio iechyd da yn fwy tebygol o fod wedi sgorio'n uwch yn yr asesiad llythrennedd.

Roedd y cysylltiadau rhwng y cymhwyster uchaf a llythrennedd Cymraeg yn llai clir nag oedd y sefyllfa am ganlyniadau llythrennedd Saesneg, er bod yr ymatebwyr hynny gyda chymwysterau lefel uchaf yn fwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch am lythrennedd Cymraeg na'r rhai gyda chymwysterau is neu heb gymwysterau o gwbl. Roedd y rhai a addysgwyd yn gyfangwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg yn llawer iawn mwy tebygol o gael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch (76 y cant o ymatebwyr) na'r rhai a gafodd eu haddysg uwchradd naill ai yn Saesneg (56 y cant ar Lefel 1 neu'n uwch) neu Saesneg a Chymraeg yn gyfartal (57 y cant).

Ymhlith y rhai a adawodd ysgol yn 16 mlwydd oed neu'n iau, cynyddodd lefelau llythrennedd gydag oed i grŵp oedran 45-54. Fodd bynnag roeddent yn aros dan lefel cyffredinol y sampl o ymatebwyr ar bob pwynt oedran. Cysylltwyd addysg y rhieni â chanlyniadau asesiadau llythrennedd, gan fod mwy na hanner yr ymatebwyr roedd eu rhieni wedi aros mewn addysg ôl-16, wedi'u hasesu ar Lefel 2 neu'n uwch, ond roedd y gyfran hon yn syrthio i ddim ond traean i'r rhai nad oedd eu rhieni wedi gwneud hynny.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos y cyswllt sydd rhwng statws cyflogaeth yr ymatebwyr a chanlyniadau asesiad eu llythrennedd Cymraeg. Cafodd 68 y cant o'r ymatebwyr cyflogedig eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, o'i gymharu â 54 y cant o'r rhai oedd yn ddi-waith adeg yr arolwg. Ychydig iawn o wahaniaeth, fodd bynnag, oedd rhwng gweithwyr amser llawn a gweithwyr rhan-amser.

Fel yn achos yr Arolwg Saesneg a chanlyniadau'r asesiad, roedd cyswllt rhwng cyflogaeth sgiliau uchel a lefelau uwch o lythrennedd, gydag er enghraifft 80 y cant

[161] Ac eithrio budd-dal plant, fel cynt.

o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hasesu ar Lefel 1 neu'n uwch, ond dim ond 50 y cant o'r rhai mewn galwedigaethau gweithiol yn cael eu hasesu ar y lefel hon. Cysylltwyd graddau uwch o lythrennedd Cymraeg gydag incwm y cartref uwch ac incwm uwch gan unigolion, gyda'r ymatebwyr gafodd eu hasesu ar Lefel 2, er enghraifft, yn cael incwm cyfartalog o £31,791, tra roedd y ffigwr yn £16,383 i'r ymatebwyr ar Lefel Mynediad.

Roedd perthynas rhwng canlyniadau asesu llythrennedd ymatebwyr Cymraeg a'u hunanasesiad o'u gallu i siarad Cymraeg. Tra roedd cyswllt tebyg rhwng hunan amgyffred a chanlyniadau asesiad yn nhermau sgiliau darllen Cymraeg, roedd hynny ychydig yn wannach. Roedd cydberthynas rhwng bod yn berchen llyfrau a lefelau asesu llythrennedd, er bod gan 41 y cant o ymatebwyr oedd â mwy na 25 o lyfrau Cymraeg yn eu cartrefi, o'i gymharu â 84 y cant gyda'r un nifer o lyfrau yn Saesneg. Yn nhermau sgiliau ysgrifennu, cafodd 21 y cant o'r rhai oedd yn teimlo eu bod yn dda iawn am ysgrifennu Cymraeg eu hasesu ar Lefel Mynediad ar gyfer llythrennedd.

Yn nhermau cynhwysiad digidol, roedd perthynas wan rhwng lefelau asesiad llythrennedd a mynediad i'r rhyngrwyd neu'r defnydd o gyfrifiadur. Er enghraifft roedd gan 96 y cant o'r rhai a gafodd eu hasesu ar Lefel 2 i lythrennedd ddefnydd cyfrifiadur tra roedd y ffigwr yn 80 y cant i'r rhai a aseswyd ar Lefel Mynediad oedd â defnydd cyfrifiadur.

Roedd 9 y cant o ymatebwyr wedi ymgymryd â rhyw fath o hyfforddiant yn y Gymraeg yn ystod y ddwy flynedd cyn yr arolwg, er bod y ffigwr ychydig yn uwch (12 y cant) i'r rhai gafodd eu hasesu ar Lefel Mynediad i lythrennedd. Dywedodd 78 y cant o'r rhai a gafodd fynediad i hyfforddiant eu bod wedi dysgu llawer iawn neu gryn dipyn oddi wrth y profiad.

O'r ymatebwyr a oedd wedi asesu'u sgiliau llythrennedd eu hunain fel gweddol neu wael, roedd 12 y cant wedi ystyried dysgu/hyfforddiant. Roedd y rhan fwyaf o ddysgu wedi'i wneud mewn lleoliad ysgol/coleg neu brifysgol a hefyd gwelwyd colegau neu brifysgolion fel y prif fannau i chwilio am gyngor am ddysgu. Dyma ddywedwyd wrthym gan 45 y cant o ymatebwyr.